



# Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.


For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.













43

GARDD EIFION.

---

CASGLIAD

---

WAITH BARDDONAWL

---

MR. ROBERT WILLIAMS,

BETWS FAWR;

NEU

ROBERT AB GWILYM DDU, O EIFION.

---

DAN OLYGIAETH

Y PARCH. W. WILLIAMS,

(GWILYM CALEDPRYN.)

---

DOLGELLAU:

ARGRAFFWYD GAN R. JONES.

DROS Y CYHOEDDWR, MR. R. WILLIAMS WYNNÉ.

---

MDCCKLI.

[*Pris Tri Sullt.*]



2/-


51. -

---

**GARDD EIFION.**

---





# GARDD EIFION.

---

CASGLIAD

o

WAITH BARDDONAWL

MR. ROBERT WILLIAMS,

BETWS FAWR;

NEU

ROBERT AB GWILYM DDU O EIFION.

---

DAN OLYGIAETH

Y PARCH. W. WILLIAMS,

(GWILYM CALEDFRYN.)

---

DOLGELLAU:

ARGRAFFWYD GAN R. JONES,

DRS Y CYHOEDDWR, MR. ROBERT WILLIAMS WYNNE.

---

MDCCCXLI.



[ENTERED AT STATIONERS' HALL.]

TO THE  
HONOURABLE E. M. LLOYD MOSTYN.

*Sir,*

*You have always shown yourself to be the enlightened and generous friend of every pursuit, and of every institution, which might contribute to the embellishment, or advance the interests of the community. This spirit of patriotism, indeed, is characteristic of your family. To you, therefore, I take the liberty of dedicating these pages, with every sentiment of respect for your personal character, and as a slight, but most sincere token of gratitude, for your steady patronage of Welsh literature.*

*I have the honour, Sir, to be*

*Your obliged and humble Servant,*

ROBERT WILLIAMS.

Betws Fawr, June 18, 1841.



## RHAGDRAITH.

WELE, o'r diwedd, i'r darlennydd, gasgliad o waith Barddonawl Mr. Robert Williams, Betws Fawr, neu Robert ab Gwilym Ddu, o Eifion. Yr oedd y wlad yn hiraethu am hyn er ys blynyddau: a hyderir y rhydd cyhoeddiad 'y casgliad hwn foddlonrwydd cyffredinol i Gymru.

Y mae yn ddiamheuol fod Mr. Robert Williams, yn un o'r Beirdd galluocaf a fu neu y sydd yn yr oes bresenol, fel y dengys pob llinell a ddaeth o dan ei law erioed.

Nid oes dim yn y gyfrol yma nad ellir ei arganmol i sylw pob math o ddyn a fedro ddarllen iaith y Cymry. Dichon y gwahaniaetha rhai oddiwrth olygiadau yr awdwr mewn rhai pethau; ond ni ddichon hynny filwrio yn erbyn teilyngdod y gwaith fel barddoniaeth. Y mae y farddoniaeth yn dda ac yn ddi-goll; ie agos yn berffaith rydd oddiwrth y pethau a elwir yn wallau. Y mae pob dernyn, lle yr oedd eisiau dangos medr a chywreinrwydd wedi ei orphen mor dda, fel nad oes un meddwl na chwaeth na chaiff hyfrydwch wrth ddarllen y cyfansoddiadau.



#### RHAGDRAITH.

Nid ydys yn tybio fod yn y casgliad hwn un linell y cyst i'r awdwr wylo deigr yn o'i herwydd wrth ymadael â'r fuchedd hon. Y mae tuedd y cyfan at ddyrchafu moesoldeb a rhinwedd.

Caiff llawer Cristion felysder i'w enaid wrth ddarllen a chanu ei Emynau blasus ac efengylaidd. Y mae yr Emynau wedi eu doddi yn gyntaf yn y llyfr, fel y caffo y neb a ddewiso gyfleusdra i'w rhwymo ar eu penau eu hunain, er eu doddi ar yr areithfa: nid ydym yn ameu na chyferfydd hyn â chymeradwyaeth llaweroedd; ac na chenir yr Emynau gyda blas pan fydd yr awdwr yn gorwedd yn dawel yn mro dystawrwydd.

Ni ddaeth ond ychydig o Englynion anerchiadol i'r gwaith i law; anfonir y rhai a ddaeth, i'r Cyhoeddiadau misol Cymreig; bernir yr atebant well dyben felly na phe cawsent eu hargraffu yn y llyfr.

Yr ydym yn teimlo diolchgarwch i'r Cyhoeddwr am ei anturiaeth i gyhoeddi y fath gasgliad rhagorol o Farddoniaeth mor bur ac adeiladol.

Teimlai ysgrifenydd y llinellau hyn yn anrhydedd cael golygu Barddoniaeth yr enwog Robert ab Gwilym Ddu, o Eifion. Hydera y cyferfydd y gwaith â dysgwyliadau mwyaf pryderus y derbynwyr.

WILLIAM WILLIAMS.

*Caerynarfon, Mehefin 21, 1841.*

# Y CYNWYSIAD.



## RHAN I.

*Emynau ar amryw destynau detholedig, ac Englynion  
Duwinyddol.*

	<i>Tudal.</i>
Doethineb Duw ... ..	3
Creadigaeth, rhagoriaeth, a dyledswydd Dyn ...	4
Cwyp Dyn ... ..	5
Iachawdwriaeth trwy Grist ... ..	6
Mawrhydi a darostyngiad Crist ... ..	7
Crist yn Iachawdwr Cyflawn ... ..	8
Dyoddefaint Crist... ..	9
Ar yr un testyn ... ..	11
Gwaith gorphenol Crist ... ..	12
Amgylchiadau marwolaeth Crist... ..	12
Dat. v. 9, a'r xiv. 3. ... ..	14
Emyn ... ..	15
Adgyfodiad Crist. ... ..	17
Esgyniad Crist i'r nefoedd.. ... ..	17
Y Cymod. ... ..	18
Eiriolaeth Crist ... ..	15
Golygiad Crist ar blant bychain, Marc x. 13—16	19
Rhagoriaeth Crist ar Moses, Ioan i. 17... ..	20
Camwedd Adda, a Chymod Crist, Rhuf. v. 12—24	20
Rhagoriaeth Crist ar Aaron, Heb. ix. ... ..	21
Myfyrdod, neu olwg ar y tir pell. ... ..	22
Dymuniad ... ..	24
Rhad ras Duw ... ..	26
Adgyfodiad y Saint. ... ..	27
Cân fuddygol y saint wedi yr Adgyfodiad ...	28
Y Credadyn Cystuddiol ... ..	30
Sierwydd yr Addewid ... ..	31
Golwg yr Eglwys ar y dydd yn neshau... ..	32
Profiad tanlyd anghrediniaeth ... ..	33
Emyn ... ..	34
Emyn ... ..	34
Emyn o flaen pregeth ... ..	35
Golwg ar y Gogoniant nefol ... ..	35
Nefoedd ar y Ddaiar ... ..	36
“Ein cymdeithas ni yn wir sy gyda'r Tad,” &c. ...	36
Dydd y Farn, ... ..	37

	<i>Tudal.</i>
Ymddiried i Ragluniaeth ... ..	37
Ar ddydd Genedigaeth ... ..	39
Amgylchiadau marwolaeth, &c. ... ..	40
Y Groes, &c. ... ..	40
Myfyr mewn profedigaeth. ... ..	41
Pethau a wnaed mewn Gardd ... ..	43
Ar Dragwyddoldeb. ... ..	43
Galwad ar Bechadur .. ..	43
Amser, &c. ... ..	43
Cynghaneddiad rydd o Weddi Agur ... ..	44
Marwnad Angau, neu Fuddygoliaeth Crist ... ..	45
Yr Eglwys, mewn amseroedd terfysglyd, &c. ... ..	46
Hunanymwadiad, a chyfodi y groes ... ..	47
Twyll anghrist ... ..	49
Emyn Cymedrolder. ... ..	49
Myfyrdodau wrth orwedd i gysgu ... ..	50
Emyn i'w harfer mewn Claddedigaeth ... ..	52
Enaid a chorff y duwiol yn cyfarch eu gilydd yn yr adgyfodiad .. ..	53
Y Mil Blynyddau ... ..	54

### ENGLYNION, &c.

Swydd y Lefiaid ... ..	55
Myfyrdod ar ddydd Nadolig, Gen. iii. 15. ... ..	56
"Byddaf angau i ti, O angau," &c. ... ..	57
"Byddaf dranc i ti y bedd," ... ..	57
"Cuddiwyd edifeirwch o'm golwg." ... ..	57
"Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." ... ..	58
Yr Iawn .. ..	58
"Yn y dydd y bwytai o hono gan farw ti a fyddi farw." ... ..	58
Crist ger bron Pilat ... ..	58
Pilat yn y Farn ... ..	59
Gweddi ... ..	59
Crist a'i waradwyddiadau... ..	59
Y Farchnad ysbrydol ... ..	59
Cynghor i fod yn ddyoddefgar mewn cystudd... ..	59
Y Pechadur rhyfygus ... ..	60
Gweddi ... ..	60
Erfyniad am wlaw yn Gorphenhaf, 1826. ... ..	60
Uffern ... ..	60

### RHAN II.

#### *Carolau ac Odlau Moesol.*

Carol Plygain,—Mesur, "Eluseni Meistress." ... ..	63
Carol Newydd,—Mesur, "Cwynfar Brydain."... ..	66
Carol Plygain,—Mesur, "Hyfrydwch y Brenin Sior." ... ..	70

	<i>Tudal.</i>
Carol Plygain,—Mesur, “Difyrwch Gwyr y Gogledd.”	74
Odlau Moesawl ... ..	78
Cân i anerch Dafydd Thomas ... ..	80
Ateb i'r Gân uchod ... ..	81
Myfyrdodau difrifawl ... ..	83
Cerdd,—Mesur, “Gwel yr Adeilad.” ... ..	85
Penillion i wr ieuanc, yn canu yn iach i wlad ei enedig- aeth, pan oedd ar fyned i'r America ... ..	88
Anerchiad y Dr. E. P. Anwyl, Bryn Adda ... ..	90
Penillion i ofyn Siwmp ... ..	91

### RHAN III.

#### *Awdlau, Cywyddau, ac Englynion Coffadwriaethol.*

Cofiant am Jane Elizabeth Williams, unig ferch yr Awdwr. ... ..	95
Coffadwriaeth am Mr. J. R. Jones, Ramoth ... ..	98
Coffadwriaeth am Mr. John Williams, Peroriaethydd. ... ..	104
Coffadwriaeth am Mrs. Anne Evans, Abererch ... ..	105
Coffadwriaeth am Dafydd Ionawr ... ..	107
Mr. D. Richards, a Mr. G. Owen ... ..	109
Coffadwriaeth am Dewi Wyn o Eifion ... ..	109
Coffadwriaeth am Sion Lleyn ... ..	111
Coffadwriaeth am y Parch. J. Jones, Nefyn ... ..	112
Coffadwriaeth am Arglwydd Buckley. ... ..	113
Coffadwriaeth am y Parch. Edmund Francis ... ..	114
Coffadwriaeth am y Parch. Simon Llwyd ... ..	115
Coffadwriaeth am Mr. G. Thomas, Maentwrog ... ..	116
Marwolaeth y Parch. J. Roberts, Pwllheli ... ..	117
Coffadwriaeth am Ferch Mr. Evans, Barcer, Pwllheli. ... ..	117
Cyflafan y Gwir ... ..	118

### RHAN IV.

#### *Anerchiadau ac Amrywiaethau.*

I ofyn Bibl. ... ..	121
Anerch Syr Joseph Huddart, Bryncir ... ..	122
Dyfodiad Robert Williames Vaughan, Ysw., o Nanau, i'w oed ... ..	125
Anerch yr Awen ... ..	131
Anerch ei Fawrhydi y Brenin Sior IV. ... ..	135
Diolchgarwch i'r Parch. E. Evans, o Lundain... ..	138
Cywydd dyhuddiant i Dafydd Ddu o Eryri ... ..	140
Anerchiad i J. W. Richards, Plas-y-brain, Mon ... ..	146

	<i>Tudal.</i>
Englynion moesol a diniwaid, dan deimlad o flinder, llesgedd, a gwendid, newydd gyraedd pen y dri- ugeinfed flwydd o'i oedran... ..	149
Dau Englyn oddiwrth ddyall fod y clyw yn trymhau ..	151
I'r Cardotyn crwydraidd... ..	151
I'r Ehedydd ar ddechreu ei dymor.. ..	151
I anerch Dafydd Ionawr.. ..	152
I'w argraffu ar lech uwch ben drws Capel .. ..	152
Ar ymadawiad Mr. J. M. Thomas o Nefyn .. ..	152
Profiad dan wendid iechyd .. ..	153
Y cadarn a symudir heb waith llaw .. ..	154
Ar briodas Mr. J. M. Thomas, Aberteifi .. ..	154
Hiraethus gwyn ar ymadawiad y Parch. W. W. Williams	154
Hirhoedledd yr Awen .. ..	156
Englyn i Mr. Evan Davies, Llandysil ... ..	156
I'r delyn newydd ei thantio .. ..	156
Ar adferiad iechyd merch ieuanc .. ..	157
Y Ddanodd .. ..	158
I Ddafydd Ddu Eryri .. ..	158
Dychymyg a anfonodd Dewi Wyn at R. ab G. Ddu	158
Atebiad darluniadol .. ..	159
Ar ymadawiad y Parch. J. Kyffin o Lanystumdwy....	159
Englyn i ffon .. ..	160
Englyn i Mr. J. M. Thomas, Golygydd y Greal .. ..	160
I flwch musig .. ..	160
Pleidgarwech .. ..	161
I'r Melinydd .. ..	161
I ofyn Pibell .. ..	161
Ateb i gyfarchiad D Sanders, Bardd, Merthyr Tudfil	162
I Dafydd Saunders yn ei henaint, 1839. .. ..	162
I Bont Conwy a Phont Menai ... ..	163
I Ddewi Wyn yn ei glefyd, 1838... ..	163
I'r Pruddglwyf .. ..	163
Englyn a wnaeth Dewi Wyn yn ei glefyd .. ..	164
Ateb i'r unrhyw .. ..	164
Beddergryff .. ..	165

RHAN I.

---

EMYNAU

AR AMRYW DESTYNAU DETHOLEDIG;

AC

*ENGLYNION DUWINYDDOL, &c.*

---

GAN ROBERT WILLIAMS, BETWS FAWR.

---



# EMYNAU.



## DOETHINEB DUW.—M. C.

- 1 MAWR yw doethineb brenin nef,  
A'i wyrthiau ef sydd werthfawr ;  
Ni thraethir byth eu maint, ar g'oeidd,  
Hyd derfyn oesoedd dirfawr.
- 2 Gwynfyd y lluoedd dysglaer, llon,  
Sy fry ger bron ei wyneb,  
Yn gweled rhyfeddodau clir,  
Gwaith hynod gwir ddoethineb.
- 3 Yr haul, a'r lloer, a'r ser uwch ben,  
Sy'n harddu'r wybren siriol,  
Gan ddangos ei ddoethineb maith,  
A'i gywrain waith rhagorol.
- 4 Y ddaear lawn, a'i dirfawr lu,  
Sy'n traethu am ei fawredd ;  
A'r eigion dwfn, a'r pysg sy'n gwau,  
Dan dônau'r ddyfrllyd anedd.
- 5 Ond wele fwy rhyfeddol waith,  
Doethineb maith sydd eglur,  
Yn trefnu iachawdwriaeth rad,  
A cheidwad i bechadur.
- 6 Drwy ddirgel drefn doethineb gu,  
Dwy natur fu elynol,  
Yn mherson Crist, mewn undeb sydd,  
Hyn fu, hyn fydd ryfeddol.
- 7 O! pa mor anchwiliadwy yw  
Doethineb y Duw perffaith,  
Ei wyrthiau'n llawn, ni ddeall neb,  
I dragwyddoldeb hirfaith.



CREADIGAETH, RHAGORIAETH, A DYLED-  
SWYDD DYN.—M. H.

- 1 O cydnabydded dynol-ryw!  
Fod arnom ddyled fawr i Dduw;  
Mae pob rhyw ddoniau, is y nef,  
Yn deilliaw o'i drugaredd ef.
- 2 Er bod ei rad haelioni'n fawr,  
I holl gre'duriaid daear lawr,  
Fe roes i ddyn fyrdd myrddiwn mwy  
O roddion teg na'r eiddynt hwy.
- 3 Ni ffurfiodd ef greadur byw,  
Yn ol ei ddelw, anwyl Dduw,  
Ond dyn yn unig, tan y nef,  
I debygoli iddo ef.
- 4 Ar ol diweddu dirfawr waith,  
Ar dir,—a llu y dyfnder llaith;  
Gosododd ddyn fel unig ben,  
Ar bob rhyw nifer is y nen.
- 5 Addurnodd y Creawdwr ef,  
O'i dyner nawdd â doniau'r nef,  
I draethu glân fynegawl glod  
I'w nefol annherfynol fod.
- 6 Am hyny dylai dyn o hyd,  
Fod megys genau tros y mud;  
Cre'duriaid gwael iselaidd ryw,  
A'u nefol dôn i foli Duw.

GORPHWYSIAD.

- 7 Os ydyw dyled dyn bob awr  
Roi moliant i'r Jehofa mawr,  
Am grëadigol ddoniau rhad,  
A roes y doeth haelionus Dad,
- 8 Pa faint yn fwy o ddyled sydd,  
Ar ddyn i ganmol Duw bob dydd,  
Am drefnu ffordd, o'i gariad hael,  
I gadw'r gwan grëadur gwael?

- 9 Rhyfeddod ! pa ryfeddod fwy,  
Na gweled Iesu tan ei glwy' ?  
Yn dyodde'n brudd ar ddirfawr bren,  
A'r goron bigog ar ei ben !
- 10 Ac wedi dyoddef angau du,  
Dros waelaf, annheilyngaf lu,  
Agorodd ffordd i'r nefol wledd,  
Fe dorodd byrth a dôrau'r bedd.
- 11 Pob poen a gofid maith a ga'dd,  
A phob rhyw groesau o bob gradd,  
Sydd yn diweddu yn gytun,  
Er helaeth iachawdwriaeth dyn.
- 12 Am hyny rho'wn haeddianol glod,  
A doniau rhydd o dan y rhod,  
I enw pur ein Ior a'n pen,  
Can's haeddawl yw o'r mawl, AMEN...



CWYMP DYN.—M. C.

- 1 Mor wynfydedig ydoedd dyn,  
Yn hardd ar lun ei Arglwydd !  
Heb ing na chur, nac angau chwaith,  
Yn berffaith mewn santeiddrwydd !
- 2 Ond wele, syrthiodd ef a'i ryw,  
Tan ddigter Duw a'i soriant;  
Trwy dwyll y ddraig a'i hudol iaith,  
O ganol maith ogoniant.
- 3 Pan welodd y Jehofa cu,  
Orchfygu'r pur gre'duriaid,  
Addewid hylwydd rhoes y Tad,  
O Grist yr had bendigaidd.
- 4 Cyflawnodd ef ei air yn gu,  
A darfu'n foreu addo,  
Gan farnu'r ddraig,—daeth Crist i'r byd,  
A'i phen a sigwyd ganddo.

5 Trwy ddyoddef poen, yr Iesu pur,  
Mor wael dan gur marwolaeth,  
Dystrywiodd ef uffernol rym  
Y ddraig, a'i llym ełyniaeth.

6 Adferodd ddyn colledig, gwan,  
I fywyd annherfynol ;  
Preswylfa well nac Eden yw,  
Yn ngwyddfod Duw'n dragwyddol.



### IACHAWDWRIAETH TRWY GRIST—M. N.

- 1 Rho'wn hyder ein gobaith yn lanwaith i lawr,  
Ar gariad y Drindod mewn undod yn awr ;  
Ni chollir un enaid o'i ddeiliaid, medd ef,  
Cânt orphwys mewn urddas yn ninas y nef.
- 2 Crist ydyw blaguryn a gwreiddyn pob gras,  
Fe lwyddodd yn erbyn y gelyn a'i gas ;  
Un aberth anfeidrol, digonol a gaed,  
I enaid gresynus, on'd gweddus yw'r gwaed ?
- 3 Rhyfeddwn ei boenau, a'i loesau, hael Ior !  
Creawdwr y dyfnder a meithder y môr ;  
Y ddaear a'r nefoedd, a'u lluoedd yn llon,  
Ei ben a goronwyd pan frîwiwyd ei fron.
- 4 Yr Iesu grasusol yn farwol a fu,  
Fe dalodd yn ffyddlon ddyledion ei lu ;  
Fe ddyg ein camweddau a'n beiau drwy boen,  
Fe gafwyd tangnefedd trwy rinwedd yr oen.
- 5 Fe yfodd o'r afon oen tirion y Tad,  
A'i ben a ddyrchafodd pan brofodd ein brad ;  
Fe ddygodd in' fywyd tra hyfryd trwy hedd,  
Gorchfygodd nerth angau un boreu a'r bedd.
- 6 Y cadarn gyfryngwr, eiriolwr hael yw,  
Sy'n sefyll yn ffyddlon rhwng dynion a Duw,  
Trwy rinwedd ei aberth, yn brydferth eu braint,  
Daeth heddwch tragwyddol, cysurol i'r saint.

- 7 Trwy'i allu tragwyddol anfeidrol efe,  
 Daw'r saint i gyrhaeddyd newyddfyd y ne';  
 O'r dyrys anialwch i heddwch cyn hir,  
 Fe ddwg yr oen tirion ei weision yn wir.



MAWRHYDI A DAROSTYNGIAD CRIST.—M. H.

- 1 Rhyfeddod oedd, rhyfeddod yw!  
 Ai'r unig ddyrchafedig Dduw,  
 Gwir wrthrych mawl seraffiaid gwyh,  
 A welaſ draw yn welaſ drych?
- 2 Rhyfeddol iawn i'r nefol lu,  
 Oedd gweled eu creawdwr cu,  
 Yn gwisgo natur wan ei rhyw,  
 Yn welaſ ddyn,—anwylaſ Dduw.
- 3 Os rhyfedd gan angylion nef,  
 Oedd gwel'd ei bur ddynoldeb ef;  
 Mae myrdd o ryfeddodau mwy,  
 Yn rhinwedd glân ei farwol glwy'!
- 4 Ni all angylion nefoedd lon,  
 Cerubiaid a seraffiaid hon,  
 Ac epil Adda oll yn un,  
 Fynegu doniau Mab y dyn.
- 5 Uwchlaw gofidiau byd o boen,  
 Fe ddwg y bendigedig oen,  
 Ei brynedigion oll ryw ddydd,  
 O bob rhyw loes i'r einioes rydd.
- 6 O am y ddedwydd, ddedwydd awr,  
 Pan ddyddio tragwyddoldeb mawr,  
 Cawn wledda fyth ar rin ei glwy',  
 A dechreu mawl heb ddiwedd mwy.

## CRIST YN IACHAWDWR CYFLAWN.—M. C.

- 1 Tragwyddol gariad Tri yn un,  
I gadw dyn colledig,  
A õgoneddwyd ar y pren,  
Gan Iesu bendigedig.
- 2 Trugaredd rad o'i fynwes ef  
Fel afon gref a lifodd ;  
Rhaid o bob llwyth,—pob iaith ac oes,  
Ar bren y groes a brynodd.
- 3 Ei einioes lân a roes i lawr,  
Tan bwys ein dirfawr bechod ;  
Fe brynodd i ni wir ryddhad,  
Trwy waed y rhad gyfamod.
- 4 Halogrwydd du, euogrwydd dwys,  
A dirfawr bwys ein beiau,  
A'i gwasgodd ef i'r bedd yn gaeth,  
Tan gref lywodraeth angau.
- 5 Mewn daear wael, ei dyner wedd,  
Er gorwedd yn gystuddiol,  
Ar allu'r bedd, ar angau caeth,  
Ca'dd fuddugoliaeth fythol.
- 6 Gorphenodd iachawdwriaeth gu,  
I'r nefoedd fry esgynodd ;  
Holl allu uffern faith i gyd,  
Fyth hefyd a gaethiwodd.
- 7 Trwy rinwedd pur ei aberth rhad,  
Ger bron y Tad mae'n eiriol ;  
Yn haeddiant ei gyfryngdod ef,  
Fe wrendy'n llef gystuddiol.
- 8 O talwn byth ein teilwng barch,  
I'n ffyddlon arch-offeiriad ;  
O Sion nac anghofia nerth  
Ei gywir werthfawr gariad.

- 9 Holl seintiau ac angylion nef,  
 I'w enw ef y canant ;  
 Ond ni all doniau sereiff dwys,  
 Fyth gynwys ei ogoniant.
- 10 Nes myn'd i blith y dorf sy bell,  
 Yn meddu gwell telynau ;  
 Dyrchafwn ni sydd eto'n ôl,  
 Ei fawl â'n dynol dânau.
- 11 Anfarwol gôr y nef i gyd,  
 Yn hyfryd a'i molianant ;  
 O llanwn ninau, yn ddi drai,  
 Y ddaear â'i ogoniant.



DYODDEF AINT CRIST.—M. B.

- 1 Cyflawnodd Crist y ddeddf,  
 Yn ol ei chyneddf fywiol ;  
 Gan berffaith anrhydeddu hon,  
 Yn ei gofynion nefol.
- 2 A thrwy anfeidrol werth  
 Ei aberth archolledig,  
 Fe ddaeth yn iachawdwriaeth wiw,  
 I ddynolryw colledig.
- 3 Ei fywyd pur i lawr  
 Ro'es Iesu mawr grasusol,  
 Tan gafod tost digofaint Duw,  
 I ni gael byw'n dragwyddol.
- 4 Er tywallt môr o waed,  
 Trwy hwn ni chaed maddeuant,  
 Aneirif ebyrth, llesg eu rhyw,  
 Rhy eiddil yw eu haeddiant.
- 5 Ni allai angel pur,  
 Nac un creadur nefol,  
 Nac aur, na pherlau gwerthfawr drud,  
 Trysorau byd amserol,

- 6 Ddileu mawreddol rym,  
Effeithiau awchlym pechod ;  
Na rhoddi iawn tro sgamwedd dyn,  
A'i ddwyn yn un â'r Duwdod.

## GORPHWYSIAD.

- Ond wele ar y groes,  
Yr hwn a ro'es foddlondeb !  
Trwy briod aberth Crist ei hun,  
Daeth Duw a dyn mewn undeb.
- 8 O gwelwn ddagrau gwaed,  
O'i draed a'i ddwylaw tirion !  
Pan hoeliwyd ef ar ddirfawr grog,  
A'i ben dan bigog goron.
- 9 Mewn ing a gwaedlyd chwys,  
Bu'n gogoneddus geidwad ;  
Ond ni ddiffoddodd angeu llym,  
Drag'wyddol rym ei gariad.
- 10 Mewn dirfawr gur a gwawd,  
Pob rhan o'i gnawd oedd glwyfus ;  
A'i enaid hefyd, anwyl Grist,  
Yn wir oedd drist a phoenus.
- 11 O ôl y waew ffon,  
Y tarddodd ffynon fywiol ;  
Hon sy'n ddigonol i lanhau,  
Ein mawrion glwyfau marwol.
- 12 O'i brynedigion oll,  
Yr un ni chyfrgollir ;  
Er sychu'r mor, er llosgi'r byd,  
Y rhai'n i gyd a gedwir.
- 13 Hwyl ânt trwy angau'n rhydd,  
I'r pur lawenydd nefol ;  
Ac etifeddant, yn ei wedd,  
Dangnefedd yn dragwyddol.

## AR YR UN TESTYN.—M. N.

- 1 Gwel O enaid rhwng gelynion,  
 Ar y greulon chwerw groes,  
 Dduw a cheidwad gwael bechadur,  
 Yn ei lafur dan ei loes ;  
 Cofia'r gwpan sur a yfodd  
 Crist, o'i lwyrfodd yn dy le ;  
 Nid oes enw all adferyd  
 I ni fywyd ond efe.
- 2 O ! mor hyfryd gan angylion,  
 Wel'd ei berson yn y byd ;  
 O ! mor helaeth trwy'i gnawdoliaeth,  
 Daeth yr iachawdwriaeth ddrud !  
 Hyn oedd hynod faith ryfeddod,  
 Weled hanfod Duw ei hun,  
 Yn y ddinerth natur ddynol,  
 Er mwyn marwol, ddamniol ddyn.
- 3 Cyfod Sion dy olygon,  
 Gwel yr afon ddysglaer wiw,  
 Gwel yn eglur dy benadur,  
 Yn y frwydr dan ei friw :  
 Dyma'r unig gyfaill ffyddlon,  
 Dyddiwr union da ei reddf,  
 Rho'es anrhydedd i gyfiawnder,  
 Tynodd ddigter Duw a'i ddeddf.
- 4 Dyma'r cadarn lew o Juda,  
 Fyth o'n dalfa ddaeth i'n dwyn,  
 O fy enaid nac anghofia  
 Ben Calfaria er ei fwyn :  
 Ca'dd y ddeddf ei hanrhydeddu,  
 A dyrchafu'r Iesu wnaed,  
 Tynodd golyn angau creulon,  
 Trwy ei wiwlon rasol waed.



## GWAITH GORPHENOL CRIST.—M. N.

- 1 Tan boenau trymion angau trist,  
Ar bren y groes bu'r anwyl Grist,  
Gorphenodd ei ryfeddol waith :  
Pan y gogwyddodd ef ei ben,  
Fe dduodd gwawr y nefoedd wen,  
Cydgrynodd seiliau'r ddaear faith.
- 2 Gorphenodd dalu perffaith Iawn,  
Ynillodd fuddugoliaeth lawn ;  
Ac nid oes angenrheidrwydd mwy  
Am waed nac aberth o un rhyw,  
Dros fyth i'n dwyn i heddwch Duw,  
Ond rhinwedd glân ei farwol glwy'.
- 3 Gorphenodd ein iachawdwr cu,  
Orchfygu nerthoedd uffern ddu ;  
Ei waed a roddodd had y wraig  
'Rhyn a 'sgrifenwyd ddaeth i ben,  
Pan y dolefodd ar y pren,  
Pan ddrylliodd Iesu ben y ddraig.
- 4 Pan gilio goleuadau'r nen,  
Pan dreulio oesau'r byd i ben,  
Bydd melys glod i'r Iesu glân ;  
Ei waith gorphenol yn ein lle,  
A haeddiant ei gyfryngdod e',  
Fydd testyn ein tragwyddol gân.

---

 AMGYLCHIADAU MARWOLAETH CRIST ;

Barn gyffredinol yr Iuddewon am dano,—“Eithr twyllo y bobl y mae.” Ioan vii. 12.

Mesur,—*Hanover*.—*Casgl.* DR. RIPPON.

- 1 Pwy lefodd dan loes y groes farwol gref?  
Ai f'Arglwydd ei hun, Duw ddyn, ydoedd ef?  
Ai awdwr y bywyd yn waedlyd ei wedd,  
A wasgwyd dan bwysau ein beiau i'r bedd?

- 2 Tri hoeliwyd ar grog, dau'n euog a gaed ;  
 Un cyfion o'r tri a weli'n rhoi waed ;  
 Ac hwn yn y canol, mae'n wyrthiol i ni,  
 Yn fwyaf dirmygus, truenus, o'r tri !
- 3 Pa grynu mae'r llawr, arswydfawr mor syn,  
 Pa'm greigiau'r y'ch chwi yn hollti fel hyn ?  
 Ganwriad, pa'm, meddi, y curi dy fron,  
 Os twyllwr a gafwyd i'r rhwyd yr awr hon ?
- 4 Pa rwygaw o'r nen mae'r llen hyd y llawr ?  
 Haul ! pa'm yr wyt brudd, dan orchudd yn awr ?  
 Chwi seintiau, gorphwyswch, y llwch yw eich lle,  
 Nid hwn yw'r dydd cyfri', i godi, nagê !
- 5 Och ! angau di hedd, mor ryfedd dy rym,  
 Dy allu sy fawr drwy'r llawr yn dra llym—  
 O fedd ! ymegnia, dal yna'n dy law,  
 Bob graddau dan gloion o ddynion a ddaw.
- 6 Cei filwyr o'th blaid yn geidwaid heb gel ;  
 A'r maen trwm, yn wir, osodir dan sêl ;  
 Myn gadw terfynau bro angau mewn bri,  
 Rhag dygwydd bradwriaeth i'th deyrnas gaeth di.
- 7 Paham daeth, gerbron, genadon y nef,  
 I edrych lle bu ei oer wely ef,  
 Na thraethu'r fath fawrion newyddion o hedd,  
 Os dyn i'n ffugdwylo fu yno'n ei fedd ?
- 8 Na ! na ! dyma'r gwr, Gwardwr gwir yw,  
 Un dwyfêl yn d'od o'i feddrod yn fyw ;  
 Y maes pan wynebodd, o'i wirfodd ei hun,  
 Drwy wersyll marwolaeth y daeth Mab y dyn.
- 9 Yn ngafael y bedd, er gorwedd yn gaeth,  
 O'r frwydr yn rhydd a'i dywydd y daeth,  
 Pob gelyn orchfygwyd, symudwyd y maen,  
 Pyrth uffern ysbeiliodd, faluriodd o'i flaen.
- 10 Nid twyllwr, ond Duw, pur ydyw'r Mab rhad,  
 Oen hyfryd un hawl, Ior dwyfawl â'i Dad ;

Addoled cenhedloedd a'r nefoedd yn un,  
Gan berffaith gydnabod y Duwdod mewn dyn.



DAT. V. 9. A'R XIV. 3.

- 1 Mae'r gwaed a redodd ar y groes,  
O oes i oes i'w gofio;  
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn  
I ddweyd yn iawn am dano.
- 2 Prif destyn holl ganiadau'r nef  
Yw, "iddo ef," a'i haeddiant;  
★ dyna sain telynau glân,  
Ar uwchaf gân gogoniant.
- 3 Mae hynod rinwedd gwaed yr oen,  
A'i boen wrth achub enaid,  
Yn seinio'n uwch, ar dânau'r nef,  
Na hyfryd lef seraffiaid.
- 4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân,  
Ni bydd y gân ond dechrau;  
Rhyw newydd wyrth, o'i angau drud,  
A ddaw o hyd i'r golau.
- 5 Nid yw caniadau'r nef yn awr  
Ond megys gwawr yn tori,  
Yr hon, fel amnaid fechan iawn,  
Arddengys lawn oleuni.
- 6 Pan ddelo torf y cystudd mawr  
O'r anial dirfawr yno,  
Dylenwir croth pob dwyfol dant  
Ag uwch gogoniant iddo.
- 7 Er adrodd sain pob dosbarth glân  
Ar ddirfawr gân ddiddarfod,  
Ni fydd eu dawn ond isel fri  
Am waed i olchi pechod.

## EMYN,

Ar y Mesur a elwir "Cwyn y Caethion."

- 1 Dacw un mewn natur ddynol,  
 Heb un math o bechod gwreiddiol,  
 Eto'n farwol ar y pren ;  
 Deddf y nef a anrhydeddodd,  
 A'i gofynion a gyflawnodd,  
 Pan ogwyddodd ef ei ben ;  
 Dewch Iuddewon a Chenhedloedd,  
 Er pob gofid a therfysgoedd,  
 Dacw'r llwybr o'r dyfnderoedd,  
 A bwrcaswyd cyn yr oesoedd,  
 Yn ei waed i'r nefoedd wen.
  
- 2 Cyfod enaid, a dihuna,  
 Gwel y gwaith wnaed ar Golgotha,  
 Yn ei laddfa dan y loes ;  
 Ni, dylodion, oeddym gaethion,  
 Dan ddigofaint y ddeddf gyfion,  
 Yno'n rhyddion hwn a'n rhoes ;  
 Deuwch ! deuwch gaethion Eden  
 At ein llywydd, eto'n llawen,  
 Draw i'r ddinas, drwy'r Iorddonen,  
 Ni gawn ddiengyd yn ddiangen,  
 I'r ddi-len dragwyddol oes.



## ADGYFODIAD CRIST.—M. N.

- 1 Cyfododd brenin hedd,  
 Iachawdwr dynolryw ;  
 Mewn gogoneddus wedd,  
 O'r marwol fedd yn fyw ;  
 Ein bywiol ben esgynodd fry,  
 Goruwch pob llu, tu draw i'r llen.
  
- 2 O rwymau'r angau caeth,  
 Yn rhydd y daeth Mab Duw ;  
 Gorchfygu'r bedd a wnaeth  
 Mewn buddugoliaeth wiw ;

Derbyniodd ef bob gallu mawr,  
Trwy'r ddaiar lawr yn awr a'r nef.

- 3 Er bod ei gorff yn nghudd,  
Tan orchudd angau'n gaeth,  
I'r lan yn gwbl rydd,  
Y trydydd dydd y daeth :  
Er bod tan glwy', ni allai'r bedd  
Trancedig wedd mo'i atal mwy.
- 4 Datglôdd y bàrau dur,  
Dirymodd Iesu'r sêl,  
Fe aeth er gwaetha'r gwŷr,  
A'r frwydr faith heb gel ;  
Ein blaenor gwiw, er myn'd tan glo,  
Yr angau dro, mae f' eto'n fyw !

GORPHWYSIAD.

- 5 Mae achos llawenhau,  
Wrth gofio'r boreu cu,  
Ynillodd Iesu'n glau,  
Allweddau'r dyfnder du :  
Fe dreiglwyd draw y pwysig faen,  
Yn rhydd o'i flaen gan nefol law.
- 6 Er rhoi ar bren y groes  
Ei anwyl oes tan glwy',  
Gan angau byth nid oes  
Awdurdod arno mwy ;  
Agorodd ddôr y dyffryn du,  
O flaen ei lu anwylaf Ior !
- 7 Daw'r saint o lwch y bedd  
Ar wedd eu priod cu ;  
I lawn dragwyddol wledd,  
Mewn gwir orfoledd fry ;  
Dyrchafant draw o'r dyfnder cudd ;  
Cânt dd'od yn rhydd mae'r dydd gerllaw.
- 8 Pan losgo'r ddaiar lawr,  
A'i mawredd o bob rhyw,

Fe genir am yr awr  
 Daeth ef o'i fedd yn fyw ;  
 Bydd côf am hon gan ddysglaer lu,  
 Aneirif fry, byth ger ei fron.

ESGYNIAD CRIST I'R NEFOEDD.—M. N.

- 1 Wele angau llym ei gledd, Haleluia,  
 Wele agoriadau'r bedd, Haleluia ;  
 Wele nef a daiar lawr, Haleluia,  
 Tan awdurdod Iesu mawr, Haleluia.
- 2 Fry esgynodd Mab y dyn, Haleluia,  
 Trwy ei werthfawr waed ei hun, Haleluia ;  
 Dwyn tystiolaeth wnaeth y nef, Haleluia,  
 I fawr werth ei aberth ef, Haleluia.
- 3 Eistedd ein cyfryngwr mawr, Haleluia,  
 Ar orseddfa'r nef yn awr, Haleluia ;  
 Cynrychioli mae'r Mab rhad, Haleluia,  
 Bawb o'r holl ddewisol had, Haleluia.
- 4 Daeth angylion llon gerllaw, Haleluia,  
 Seinient drwy'r uchelder draw, Haleluia ;  
 Agor nef dy byrth yn awr, Haleluia,  
 Daw i mewn y brenin mawr, Haleluia.
- 5 Gwaith gorphenol Iesu yw, Haleluia,  
 Iachawdwriaeth dynolryw, Haleluia ;  
 Pob ymadrodd yn un iaith, Haleluia,  
 Canant mwy ei foliant maith, Haleluia.

Y CYMOD.—M. C.

- 1 Yr Iawn a dalwyd ar y groes,  
 Drwy ddyoddef loes hyd angau,  
 Sydd yn cymodi euog ddyn  
 A Duw ei hun, yn ddiau.

- 2 Mae bywyd i bechadur trist,  
Yn angau Crist yn unig,  
Gwag yw'r ddyleds wydd oreu ei llun  
At gadw dyn colledig.
- 3 Efe yw'r Iawn gerbron y Tad,  
A'r aberth rhad dros bechod :  
Hwn ydyw'r gwerth, a dyma'r gwaed !  
Trwy'r hwn y caed y cymod.
- 4 Fe safodd dan ein beiau i gyd  
Wrth ddyoddef ergyd angau ;  
Er iddo'n brudd ar waedlyd bren  
Ogwyddo ei ben dan boenau.



EMYN EIRIOLAETH CRIST.—M. N.

- 1 Ein hyder rho'wn yn had y wraig,  
Anwylaf Grist ein nefol graig,  
Yr hwn dros weinion Sion sy  
Dynerol frawd, yn eiriol fry,  
Hoff red yr hedd yn ffrydiau rhad,  
I ni o'i loes mewn anial wlad.
- 2 Hwn sydd yn awr ar orsedd nef,  
O draw a glyw ein dirgel lef ;  
Mae'n dadleu gwerth ei aberth rhad  
Gwir brynwr dyn gerbron ei Dad,  
Pob cysur pur i laesu'r poen  
A gaed o rinwedd gwaed yr oen.
- 3 Cyfrana'n hael, cu frenin hedd,  
I afradloniaid, hyfryd wledd,  
A'n eiddil gwyn a ddelo'n gu  
Gerbron yr orsedd ryfedd fry ;  
A deled gwlyth y fendith fawr,  
Ein Naf o lys y nef i lawr.

## MARC X. 13—16.—M. C.

Golygiad gostyngedig Crist ar Blant bychain.

- 1 Fel arwydd i'w ddysgyblion eu,  
Yr Iesu a ddangosodd,  
Am ddull a deiliaid teyrnas ne',  
I'r eiddo fe arwyddodd.
  
- 2 “Boed i blant bychain ataf dd'od,  
(Medd ef) heb ddanod iddynt ;  
I'r cyfryw rai, gwirionedd yw,  
Fod teyrnas Dduw yn eiddynt.”
  
- 3 Bendithiodd ef y rhai'n yn rhwydd,  
Mewn dull yn arwyddedig,  
O'r fendith nefol, bur heb os,  
Fydd i'r rhai gostyngedig.
  
- 4 Ond ni fedyddiodd mo'nynt chwaith,  
Fe wnaeth ei waith yn addas ;  
O ran fod eisiau cyffes ffydd,  
Yn neiliaid rhydd ei deyrnas.
  
- 5 Ond d'weyd, Oddieithr newid dyn,  
A'i droi fel plentyn bychan,  
Nid â i'r deyrnas sydd i'r saint,  
Na chael o'i gwiwfraint gyfran.
  
- 6 Pwy bynag a'i dyrchafo'i hun,  
Y cyfryw un ostyngir ;  
A'r hwn fo isel yn ei fryd,  
Er gwawd y byd a godir.



## IOAN I. 17.—M. N.

Rhagoriaeth Crist ar Moses.

- 1 Y ddeddf a ddaeth trwy Moses draw,  
A roes y dwyfol Ior o'i law ;  
Eich llygaid trowch, eneidiau trist,  
I wel'd y cariad rhad a'r hedd,  
Gwirionedd hefyd yr un wedd,  
A'r gras a ddaeth trwy Iesu Grist.
- 2 Eu gwaith a'u swyddau'n Eglwys Dduw  
Y'nt hefyd o wahanol ryw ;  
Fel gwas ufuddol, Moses fu,  
Ond Crist yn Fab goruchel iawn,  
A chanddo mae awdurdod lawn,  
Efe sydd arglwydd ar ei dy.
- 3 Gan hyny rho'wn ufudd-dod gwiw,  
I'w lan orch'mynion o bob rhyw,  
Oblegyd teilwng ydyw ef ;  
Boed moliant, ac addoliad fyth,  
I'r oen a laddwyd yn ddilyth,  
Trwy'r ddaiar lawr yn awr a'r nef.
- 4 I'r hwn ddirmygai'r ddeddf ar g'oedd,  
Marwolaeth ddirugaredd oedd ;  
Ond trymach damnedigaeth fydd  
I'r hwn ddirmygo wir Fab Duw,  
Ac aberth y cyfanod gwiw ;  
Pan ddelo barn y tanllyd ddydd.

## RHUF. V. 12—24.—M. H.

Camwedd Adda, a Chymod Crist.

- 1 Trwy gamwedd un aeth dynolryw,  
Tan gyfiawn farn digofaint Duw ;  
Yn Adda meirw y'm i gyd,  
Er cyn ymddangos yn y byd.

- 2 Ond os trwy anufudd-dod un,  
Y daeth marwolaeth ar bob dyn ;  
Trwy un,—a'i bur ufuddol waith,  
Daeth bywyd o gamweddau maith.
- 3 Yn mhell uwchlaw y camwedd cas,  
Yr ymddyrchafodd dwyfol ras ;  
O herwydd trwy un trosedd caeth,  
Ar bob rhyw ddyn y farn a ddaeth.
- 4 Ond wele ras, rhyfeddol yw !  
Oddiwrth gamweddau o bob rhyw,  
Yn rhoddi perffaith wir ryddhad,  
I ni, a hylwydd gyfiawnhad.
- 5 A lle teyrnasodd pechod cas,  
Ar ddynolryw, trwy'r ddaiar las,  
Teyrnasa gras tros fyth rhagllaw,  
Nes cyraedd tragwyddoldeb draw.



#### HEBREAID IX.—M. H.

Rhagoriaeth Crist ar Aaron.

- 1 Wele'r fath degwech hawddgar iawn,  
A welir yn yr Iesu'n llawn !  
Rhagori mae fyrddiynau maith,  
Ar feibion Aaron yn eu gwaith.
- 2 Ei offrwm poeth a ro'i pob un,  
Yn gyntaf tros ei fai ei hun ;  
Ond pur oedd bywyd Iesu gwiw,  
A'i offrwm pur derbyniol yw.
- 3 Gwaed anifeiliaid yn ddiludd,  
Daenellent hwy o ddydd i ddydd,  
Ond Iesu roes ei waed ei hun,  
I dynu'n beiau ni bob un.

- 4 Eu hofferiadaeth farwol draw,  
Cyfnewid 'roedd o law i law ;  
Ond offeriadaeth Crist a'i waith,  
A saif i dragwyddoldeb maith.
- 5 Un tro yn ei flynyddol waith,  
Ac nid a'i waed ei hunan chwaith,  
Yr ymddangosai Aaron hy,  
Ger bron y drugareddfa gu.
- 6 Ond Crist trwy waed ei fynwes gu,  
Esgynodd ef i'r nefoedd fry ;  
Ymddangos mae ger bron y Tad,  
Gan ddadleu gwerth ei aberth rhad.



### MYFYRDOD, NEU OLWG AR Y TIB PELL, &c.

M. H.

- 1 Tyr'd, esgyn, gad fyfyrdawd gu,  
Holl barthau'r eang ddaiar ddu,  
Anturiaf dreiddio'n mhell uwchlaw  
Y seren uchaf welir draw.
- 2 Ond O, 'r fath ddosbarth sydd yn d'od,  
I'm gwydd, heb derfyn iddo'n bod ;  
Llesmeirio'r wyf, gan syndod llawn,  
Na chynwys deall, iaith, na dawn.
- 3 Er hyn, esgynaf yn ddifraw,  
Tuhwnt i'r ehangderau draw ;  
Os gallaf gyraedd, er o bell,  
Un olwg ar y wlad sydd well.
- 4 O'r diwedd daethym i'r mwynhad,  
Lle gwelaf ryw ddyeithrol wlad,  
Nas gallaf edrych ar ei bri  
Gan faint ei thegwch tanbaid hi.

- 5 Mae ofn a braw, o fewn i'm bron,  
Wrth wel'd yr olwg ryfedd hon,  
Pa fro neu wlad frenhinol yw,  
A phwy sy'n bod o'i mewn yn byw?
- 6 Pob blodau diflanedig sydd  
Yn myn'd o'm golwg oll dan gudd;  
Sylweddau didranc eu parhad,  
Yw holl wrthrychau'r nefol wlad.
- 7 A thra mae ansawdd hyfryd hon  
Yn pur ddysgleirio, ger fy mron;  
Mil myrdd o ryfeddodau maith,  
Yn awr a welaf ar un waith.
- 8 O! henffych goeth drigfanau gwiw  
Lle mae pob harddwch yn ei liw;  
Ni wywa gwedd un tegwch gwawr  
Yn myd yr anfarwoldeb mawr.
- 9 O! henffych batriarchiaid glân  
A'r cwmwl tystion, aeth drwy'r tân:  
O! mor annhebyg yw eu pryd,  
I'r wedd oedd arnynt yn y byd.
- 10 Cerubiaid ac angylion yw  
Eu cyd frodorion byth i fyw,  
Ai sant, ai seraff, pwy o rhai'n  
A dery uchaf ar y sain?
- 11 O! pa mor ddedwydd yw pob rhi'  
O'i siriol hoff breswylwyr hi,  
A'u mawl i'r gwr fu ar y groes,  
Yn nwyfol wledd y nefol oes.
- 12 Wrth wrando eu pereiddiaf lef,  
Yn cyd anadlu drwy'r holl nef,  
O'r braidd, yn nghlyw eu hanthem lan,  
Na cheisiwn gynyg llais y gan.

- 13 Mae'r hwn fu unwaith dan y llid,  
Yn awr, a'i wedd gan ddwyfol wrid,  
Yn hardd belydru drwy bob rhan  
O'r danllyd, ogoneddus fan.
- 14 Ni ddaw o fewn y santaidd fro,  
Un boen na thristwch byth na thro,  
Ond cydfwynhau tragwyddol hedd,  
Heb angau'n bod, nag ofn y bedd.
- 15 Mi welaf nad yw'r isel fyd  
' Yn deilwng o fy serch a'm bryd ;'  
A bod trysorau pur y nef  
Yn mhell uwchlaw ei gyraedd ef.
- 16 Ai yma clywodd Paul ei hun,  
Ryw anoddefol iaith i ddyn?  
Ai hon yw'r wlad lle gwelodd ef  
Aneirif wyrth y drydedd nef?
- 17 Fal Moses gynt fu ar y bryn,  
Yn gwel'd y Ganan wlad cyn hyn,  
O! na chawn inau gymorth llon  
I weled tegwch y wlad hon.
- 18 Tyr'd fy nychymyg, edrych dro,  
A gwel gyffiniau'r nefol fro ;  
Myrdd uwch yw clod ei harddwych dir  
Na godidawgrwydd Canan glir.
- 19 Os rhaid oedd dringo'r mynydd maith  
Cyn gwel'd y Ganan wiw un waith,  
O! f' enaid p'le mae d'ymdrech di  
Am feddu'r wlad sydd well na hi?



## DYMUNIAD.

- 1 Mi ddymunwn fod heb bechod,  
Ac yn rhydd oddiwrth fy scrod ;  
Heb ddim llwgwr yn fy natur,  
Nag i'm galw yn bechadur.

- 2 O! na fedrwn dawl esgyn,  
Drwy'r ehangder mawr diderfyn,  
I'r wlad lawn o ryfeddodau,  
Goruwch ing ac ymgyrch angau.
- 3 Mi gawn yno wel'd y person,  
A groeshoeliwyd rhwng y lladron;  
A holl fodau gwlad y sylwedd,  
Yn cyd blygu wrth ei orsedd.
- 4 Beth pe cawn un olwg eglur,  
Ar ogoniant ei ddwy natur,  
Dull ei wedd a'r danllyd goron,  
Lle bu'r drain a'u pigau llymion.
- 5 Mi ddymunwn wel'd y dyrfa,  
Sydd, yn iach, ar ben eu gyrfa,  
Fu gynt yn yr anial enbyd,  
Yma'n ymladd am eu bywyd.
- 6 Mi gawn wybod od oes graddau,  
Yn eu sain—neu eu personau;  
Ydyw Moses a'r proffwydi,  
Paul ac ereill yn rhagori.
- 7 Gweled Babel dan y gawod,  
A'i marsiandiaeth mawr yn syndod;  
A phob traddodiadau dynol,  
Wedi llwyr ddiflanu'n hollol.
- 8 Dyna'r pryd y gwelir Iesu,  
Ar y ddaiar yn teyrnasu,  
A'i frenhiniaeth yn ei blodau,  
Gyda'r saint dros fil o flwyddau.
- 9 Pethau rhyfedd fydd i'w canfod  
Wedi'r seliau gael eu datod,  
Pan gyfodir y cyfiawnion,  
Pabell Duw fydd gyda dynion.

- 10 Dacw'r seithfed fil yn dyfod,  
 Jubili'r gre'digaeth isod,  
 Mae'r orphwysfa mewn addewid,  
 Sabbath o dragwyddol ryddid.
- 11 Satan wedi cael ei rwymo,  
 Anghrist hefyd ei ddistrywio,  
 A'r frenhiniaeth i fab Dafydd,  
 Ar dŷ Jacob yn dragwydd.

---

RHAD RAS DUW.

---

“At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef.”

- 1 Pan ddeuodd y goruchel Dduw,  
 I'r ddaear lawr at ddynol ryw,  
 Yr Inddew gaid, yn dweyd ar g'oedd,  
 Mai cyfaill pechaduriaid oedd.
- 2 Ni wadodd ddim,—dywedodd ef,  
 Yn addfwyn genadwri'r nef,  
 Mae i alw'r wasgaredig ryw,  
 Y daethai ef,—yn ol at Dduw.
- 3 Dirmygus ganddynt oedd yr iaith,  
 Heb wybod yr ysgrythyr chwaith,  
 Y casglai Crist grwydredig lu,  
 Ei braidd i'w gorlan hardd yn gu
- 4 Dirmygu'r gras goruchel iawn,  
 I'r nefoedd sy'n llawenydd llawn ;  
 Mae lluoedd hon yn llawenhau,  
 Pan fo i'r un edifarhau.
- 5 I dywallt gwarth ar falchder dyn,  
 Llychwino ymfrost gwag ei lun,  
 Gwan bethau'r byd etholodd Duw,  
 Y waelaf radd o ddynol ryw.

- 6 Mor ryfedd yw dy waith O! Dduw,  
Rhag doethion byd cuddiedig yw,  
Ai boddlawn yn dy olwg hael,  
Ei ddangos i rai bychain gwael.
- 7 Mae'n wir nad yw yn nyled un,  
Ei ddeddf a dorwyd gan bob dyn!  
Dangosodd ei drugaredd gu,  
I'r gwrthryfelwyr gwaethaf fu.
- 8 Y lleidr gynt a Magdalen,  
A'r gwyr a'i hoeliodd wrth y pren,  
Y'nt flaenffrwyth ei gynhauaf gwiw;  
A blaenffrwyth hefyd ynt i Dduw.
- 9 Maent yn effeithiol lawn goffhad,  
O'i ras a'i rydd drugaredd rad,  
Rhag digaloni enaid byw,  
Eto a ddel yn ol at Dduw.
- 10 Drwy'r aberth gwirfodd Iawn a gaed,  
A'r ffynon werthfawr goch o waed,  
Agored i dŷ Ddafydd yw,  
I olchi pechod o bob rhyw.



#### ADGYFODIAD Y SAINT.

- 1 Cysegra ni 'th Yspryd Glân,  
Dod dduwiol anian ynom;  
Ac yn dy wyddfod, ar dy wedd,  
Tu draw i'r bedd y byddom.
- 2 Pan bydro'r corff yn lludw mân,  
Dan oerllyd geulan angau,  
Ei ranau oll—yr Ion a wyl,  
Yn anwyl ei ronynau.



- 3 Un llwchyn bach yn ol ni bydd,  
Ar foreu ddydd y cyfri';  
Pan fyddo holl dylwythau'r byd  
O'r bedd yn cyd gyfodi.
- 4 O ! pa mor wynfydedig fydd,  
Y rhai mewn ffydd a hunant,  
Mewn nerth, addurnir hwynt yn ddwys,  
I gynal pwys gogoniant.
- 5 Er myn'd i lawr yn wael eu gwedd,  
I gryd y bedd llygredig,  
Mewn undeb pur â Christ eu pen,  
Cant godi'n fendigedig.
- 6 Y corff a'r enaid—un a fydd,  
Y ddau dragywydd gymar,  
Mewn undeb tawel byddant hwy,  
Nid angau mwy a'u hysgar.
- 7 Mor ogoneddus fydd y saint  
Yn meddu'r fraint o newydd,  
A gollwyd gynt yn Eden ardd,  
Sef delw hardd eu Harglwydd.



CAN FUDDYGOL Y SAINT WEDI YR  
ADGYFODIAD.

- 1 Gogoniant byth i'r anwyl un,  
A dynodd golyn angau ;  
Ysbeiliodd uffern fawr ei grym,  
A rhyddion ydym ninau.
- 2 Gorchfygodd Iesu ar brydnhawn,  
Y ddraig a'i llawn gynllwynion;  
A'i waed a roddodd i'n glanhau,  
A'n cànu ninau'n wynion.

- 3 Chwi sereiff a cherubiaid glân,  
Eich dawn rho'wch allan iddo,  
Y ddwyfol law a'n cododd ni,  
A'ch cadwodd chwi rhag syrthio.
- 4 O dewch, angylion, pa'm na ddewch,  
A chyd chwarewch eich tanau,  
A boed i sain Calfaria fryn,  
Ail enyn eich telynu.
- 5 Os chwi a genwch am eich dal,  
A'ch cynal trwy ei allu,  
Ein dyled ni'n fyrdd mwy a gaed,  
Am roi ei waed i'n prynu.
- 6 Ni ydym hil y codwm mawr,  
Aeth gynt i lawr yn Adda;  
Caed modd i'n gwneyd yn gwbl iach,  
Ar fynydd bach Calfaria.
- 7 Hosanna, cawsom feddu'r wlad,  
Yr hon a rad addawyd,  
Lle gwelir mawredd gwir Fab Mair,  
A gwerth y gair "Gorphenwyd."
- 8 Chwi batrieirch, deuwch, t'rewch y dôn,  
Ac apostolion hefyd;  
A'r hen ferthyron yn mhob oes,  
Dros Grist a roes eu bywyd.
- 9 Dadseinied grymus anthem gref,  
Organau'r nef ogoned,  
I enw'r Duwdod yn y dyn,  
Pob dawn yn un enyned.
- 10 Ag aur delynu'n gor di lyth,  
Heb orfod byth ymado,  
Cawn gyd-fwynhau tragwyddol hedd,  
A'n gwedd yn debyg iddo.

- 11 O ffrwyth ei loes ar Galfari,  
Cawn fedî'r hir orfodaeth ;  
Hen glwyfau Eden—tynwyd hwy,  
Ni welwn mwy farwolaeth.
- 12 Myrdd mwy dyogel yw'r wlad lwys  
Na hen baradwys Adda ;  
Ni ddaw dim pechod, braw na chur,  
Na gelyn a'mur yma.
- 13 O angau taeog! dywed hyn,  
P'le mae dy golyn bellach ?  
A pha le mae, O uffern gaeth !  
Dy fuddygoliaeth mwyach ?
- 14 O teilwng ! teilwng ! ydyw'r oen,  
A ddygodd boen ein beiau,  
Nid hwy fydd tragwyddoldeb chwaith  
Na hyd ein maith ganiadau.
- 15 Am gyflawn dâl y prynwyd ni  
O'n holl drueni marwol,  
Ar pridwerth ar Galfaria fryn  
Yw'n testyn yn dragwyddol.
- 16 I Dduw bo'r diolch, rhoddi wnaeth  
In' fuddygoliaeth hylwydd,  
Gorfodaeth ar bob gelyn trist,  
Trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

—◆◆◆—

**Y CREDADYN CYSTUDDIOL, &c.**

- 1 Boddloni wnaif i drefn fy Ner,  
Dan bob rhyw flinder beunydd ;  
Fe ddichon droi fy chwerwaf gri,  
A'm galar i lawenydd.
- 2 O dan y wialen, os rhaid bod,  
Nes cael fy sorod ymaith,  
Fel aur a burir yn y tân,  
Y deuaf allan eilwaith.

- 3 Crist ydyw'r meddyg, mawr ei ddawn,  
A ddichon iawn gymhwyso,  
Pob rhyw gystuddiau ddel i'n rhan,  
Agwneyd i'r cyfan lwyddo.
- 4 Er chwerwed yw pob cwpan lawn,  
Nid ydyw'n iawn bod hebddynt ;  
Cawn wel'd y cyfan er lleshad,  
Mae gwin o gariad ynddynt.
- 5 Mae'r Tad yn profi, mwy neu lai,  
Pob un o'r rhai a garo,  
A'i olwg arnynt ddydd a nos,  
I'w dwyn yn agos ato.
- 6 A phan heneiddio'r corff o gnawd,  
A'n natur dlawd yn gwywo,  
Gall ein dyn newydd fod, er hyn,  
Mewn ieuenctyd yn blodeuo.
- 7 Er bod cystuddiau blin ein hoes  
Yn gwbl groes i natur,  
Mae'n holl geryddon, a'u parhad,  
Yn llaw ein Tad wrth fesur.
- 8 Efe a ddichon esmwythau  
Dolurion angau difri',  
A throi holl ddychryniadau'r glyn,  
A'r t'w'llwch yn oleuni.



#### SICRWYDD YR ADDEWID.

- 1 Wrth edrych ar y sail,  
A'r wir addewid gref,  
Er ofnau rif y dail,  
Pa'm yr amhewn ef,  
A dyma air, pwy wŷr ei werth ?  
Yn ol dy ddydd y bydd dy nerth.

- 2 Pa ham y beiaf ddim  
 Ar gyfoeth gras fy Nuw ?  
 Lle rhoddwyd sicrwydd im'  
 Mai digyfnwid yw ;  
 A dyma'r hen addewid gu,  
 Lle gallwn ni gael cysur cry'.
- 3 Nid oedd yn ngallu'r nef,  
 Ddim modd roi sicrwydd mwy,  
 Na'r wir addewid gref,  
 A seliodd gwaed ei glwy' :  
 Ei air a saif yn un o hyd,  
 Pan doddo barn elfenau'r byd.
- 4 Y pererinion gynt,  
 A'r hen ferthyron glân,  
 Yn awr diangol ynt,  
 Er ymgyrch dwr a thân ;  
 Mae'r llaw a'u daliodd hwynt i'r lan,  
 I tithau'n gymorth f'enaid gwan.



GOLWG YR EGLWYS AR Y DYDD YN  
 NESHAU.

Mesur,—PENYBONT.

- 1 Henffych forau hyfryd iawn,  
 Os rhaid wylo dros brydnhawn,  
 Hi ddaw yn gyflawn ddydd ;  
 Pan f'o gwybodaeth  
 O'r iachawdwriaeth  
 Uwch pob camsyniaeth yma sydd.
- 2 Pan fo moliant Iesu mawr,  
 Dros dalaethau daiar lawr,  
 Mor werthfawr fydd y fraint,  
 Eu blaenor bywiol,  
 Mewn natur ddynol,  
 Fydd yn bersonol gyda'r saint.

- 3 Bwrir pob traddodiad cas,  
 Sy'n gorchuddio Crist a'i ras,  
 O'i santaidd deyrnas ef,  
 Daw'r byd presenol,  
 Yn lle trigianol,  
 I'w foli'n unol fel y nef.



### PROFIAD TANLLYD ANGHREDINIAETH.

- 1 Mae f' anghrediniaeth cas  
 Yn amau gras fy Nuw,  
 Nes gorfod gwaeddi, Beth a wna?   
 Mae'n dweyd na byddaf byw ;  
 A bod fy meiau mawr,  
 I gyd i lawr ar gael,  
 Ac na fwriadodd Duw ei hun,  
 Fyth godi'r fath un gwael.
- 2 Euogrwydd mawr ei rym,  
 A'i gleddyf llym sy'n lladd,  
 Heb ddim i esmwythau fy mron,  
 Drwy'r ddaiar gron, un gradd ;  
 O ! na chawn godi mhen,  
 Goruwch y llen a'r llawr,  
 Nes gwel'd y ffynon sy'n glanhau,  
 Yn nghlwyfau'r meichiau mawr.
- 3 Er ini grwydro'n hir,  
 Yn mhell o dir ein gwlad,  
 Mae eto alwad ar ein hol  
 I dŷ ein nefol Dad ;  
 O ! brysiwn bawb, mewn pryd,  
 Am fywyd ato fe,  
 Mae gwledd yn barod ger ein bron,  
 Ac i dylodion le.

## EMYN.—M. N.

- 1 Mae anghrediniaeth beunydd yn dangos ger fy mron,  
Y gorfydd imi sefyll yn ngwyneb llawer tòn,  
A'r gelyn yn cyhuddo, gan ddweyd mae namnio a gaf;  
'Rwy'n dyfod atat Iesu, dan waeddi, Beth a wnaif?
- 2 Atolwg, Arglwydd, gwranddo, 'rwy'n curo wrth dy ddôr,  
Gan deimlo 'maich yn drymach na thywod mân y môr;  
Er cymaint yw fy llygredd, mwy yw'th drugaredd di,  
O! crea anian dduwiol, anfarwol ynof fi.
- 3 'Rwy'n gwel'd yn ddigon eglur nad allaf byth, fy Nuw,  
Roi iawn am unrhyw drosedd, na'r camwedd lleia' ei ryw;  
Nid oes ond haeddiant dwyfol, effeithiau marwol loes,  
A rhinwedd gwaed ei glwyfau ddilea feiau f'oes.
- 4 Cyfiawnder oedd yn wastad yn gwaeddi am daliad llawn,  
A Sina'n peri dychryn, a'r ddeddf yn gofyn iawn,  
Ar waedlyd fryn Calfaria mi welaf yr un dydd,  
Y meichiai'n llaw'r gofynwr, dyledwr yntau'n rhydd.

## EMYN.—M. C.

- 1 O Iesu! gwel bechadur gwan,  
Sy'n fynych dan ei ofnau;  
Cyflwyno wnaif yn awr i ti,  
Fy ngweddi a'm gruddfanau.
- 2 Er cael mwynhau dy ddoniau rhad,  
A phrofiad o'th ddaioni,  
Mi gamddefnyddiais, anwyl Ion,  
Dy aml roddion imi.
- 3 Pan deimlwyf hyn, yn ddwys, fe ddaw,  
I'm calon fraw a syndod;  
'Rwy'n gwel'd mai cyfiawn yw, bob cam,  
I'm ochain am fy mhechod.

- 4 Mi addunedais, lawer pryd,  
Am barchu'th hyfryd ddeddfau,  
Ond, wedi hyny, myn'd ar wall,  
A throi o'th ddiball lwybrau.



EMYN O FLAEN PREGETH.—M. C.

- 1 O frenin nef a daiar lawr,  
Mor werthfawr yw dy wedd,  
Rho i ni brawf, ar hyn o bryd,  
O'th nefol, hyfryd hedd.
- 2 Goleua di ein deall gwan,  
Yn mhob rhyw ran o'th waith ;  
Amlyga, 'nawr, i'th anwyl blant,  
Dy fawr ogoniant maith.
- 3 O cryned, Arglwydd, ger dy fron,  
Dy holl elynion cas ;  
A llwydda hefyd yma, 'nawr,  
Wirionedd mawr dy ras.
- 4 Anwylaf, Dad, O, arddel di,  
Y genadwri hon,  
Nes llanwo gwir wybodaeth glau,  
Holl gyrau'r ddaiar gron.



GOLWG AR Y GOGONIAINT NEFOL.—M. N.

- 1 Trwy gywir ffydd, O esgyn f'enaïd cu,  
Gwel dy breswylfod uwch yr wybren fry ;  
Ni ddeall dyn, ac ni all tafod chwaith,  
Fyth adrodd maint ei phur ogoniant maith,  
Teyrnasu mae yr Iesu yn fuyddgol,  
Angau a'r bedd orchfygwyd yn dragwyddol.



- 2 Un gofid trwm, na chystudd trist, na chur,  
Ni ddaw i byrth y lân breswylfa bur,  
Na chlwy', na braw, i'r saint i'w blinaw mwy,  
Yr anwyl oen a sych eu dagrau hwy :  
Eu galar maith, a'u chwerwon ddwys ruddfanau,  
Yno a dry yn hyfryd bêr ganiadau.
- 3 Mae afon bur yn d'od o'r orsedd wiw,  
A dyfroedd bywiol hon rhinweddol yw :  
Yno mae hyfryd bren y bywyd cu,  
A'i ffrwythau ef sy wledd dragwyddol fry,  
Teyrnasu mae yr Iesu yn fuddygol,  
Angau a'r bedd orchfygwyd yn dragwyddol.

◆◆◆◆◆

### NEFOEDD AR Y DDAIAR.

- 1 Nef yw i'm henaid, yn mhob man,  
Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan,  
A'i weled ef â golwg ffydd,  
Dry'r dywyll nos yn oleu ddydd.
- 2 Mwynhad o'i ras maddeuol, mawr,  
Blaen-brawf o'r nef yw yma'n awr ;  
A darllen f' enw ar ei fron,  
Sy nefoedd ar y ddaiar hon.
- 3 Ac er na welaf ond o ran,  
Ac nad yw profiad ffydd ond gwan ;  
Y defnyn bach yn fôr a fydd,  
A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

◆◆◆◆◆

### "EIN CYMDEITHAS NI YN WIR SY GYDA'R TAD," &c.

- 1 Cymdeithas hyfryd ydyw hon,  
Sydd i'r duwiolion yma,  
Ond myrdd helaethach fydd, heb len,  
I'r saint ar ben eu gyrfa.

2 Am gael cymdeithas gyda'r Tad,  
 Hyn yw'n dymuniad yma,  
 Ond myrdd helaethach fydd, heb len,  
 I'r saint ar ben eu gyrfa.



### DYDD Y FARN.

I'm tyb,—fe ddaeth yr olaf ddydd !  
 Be sydd—ai bloedd yr udgorn mawr ?  
 Mae'r llef yn siglo'r ddaiar gron ;  
 Egorir caethion feddau'r llawr ;  
 Mae'r môr yn rhoi y meirw'n rhydd,  
 Wrth archiad Barnydd pur y nef ;  
 A'r bach a'r mawr yn d'od ar frys,  
 O flaen ei fainc arswydus ef.—*Cyfieithiad.*



### YMDDIRIED I RAGLUNIAETH.—M. N

1 Mewn hedd fy enaid gorphwys,  
 Yn dawel nos a dydd,  
 'R hwn sy'n dy borthi'n oestad,  
 Yn agos atad sydd :  
 Hyd yma'r hwn a'm daliodd,  
 Byth ni ddiffygia ef ;  
 Bydd foddlon i lywodraeth  
 Rhagluniaeth ddoeth y nef.

2 Creawdwr mawr y nefoedd  
 Y tir a'r moroedd maith,  
 Yr hwn ni all gyfnewid,  
 Na dweyd anwiredd chwaith ;  
 Fe ddyry fara imi,  
 Adwfr yn wir ddiwall,  
 A phob peth angenrheidiol,  
 A buddiol yn ddiball.

3 Mae fe'n dilladu'n gywrain,  
 Y cigfrain mawr eu chwant ;  
 Gan hyny, a fydd iddo  
 Ef, byth, anghofio'i blant ?  
 Mae fe'n dilladu'r llysiâu,  
 A gwellt y maes heb ri',  
 A all y saint anghredu  
 Na wrendy ef eu cri ?

4 Efe a wnaeth ein defnydd,  
 Ac awdwr bywyd yw,  
 Yr hwn sydd werthfawrocach  
 Na'r byd a'i berlau gwiw ;  
 A gwallt ein pen, bob blewyn,  
 Rhag syrthio'r un ar goll,  
 Gŵn Iesu,'n ddirgeledig,  
 Sydd gyfrifedig oll.

5 Am hyny, pa'm y gofalwn,  
 Am bethau gwael y byd,  
 Nad ydynt ond oferedd,  
 A gwagedd ffol i gyd ?  
 Fe w'yr ein Harglwydd tirion  
 Am ein hangenion maith,  
 Rhydd ini'r hyn fo'n eisiau,  
 Tra par'o dyddiau'n taith.

6 Ein gofal penaf, beunydd,  
 Tra fyddom dan y nef,  
 Yw ceisio'r deyrnas nefol,  
 A'i bur gyfiawnder ef ;  
 A'n dwyn i'r llawn drigfanau  
 Lle na bydd eisiau'n bod,  
 Ond seinio, yn oestadol,  
 I'r oen dragwyddol glod.

## AR DDYDD GENEDIGAETH.—M. N.

- 1 Wele eto un yn rhagor  
 O flynyddau f' einioes frau,  
 O, fy enaid, wedi darfod,  
 Mae'r ddiweddaf yn neshau :  
 Nid oes yma hir arosfa,  
 Rhed fy oriau yn ddigoll,  
 Ac fe all y flwyddyn yma,  
 Fod i mi'r ddiweddaf oll.
- 2 Wele treuliais lawer eisioes  
 O'm gwael einioes fer ei hyd ;  
 Ac ni welaf un o'r oriau,  
 Dreuliais yma yn y byd :  
 A'r mynyddau sydd i'w treulio,  
 Maent yn rhedeg heibio'n glau,  
 I'm dwyn tros derfynau amser,  
 Draw i'r bywyd sy'n parhau.
- 3 Deffro f' enaid yn ddifrifol,  
 Gyda gofal dwys yn awr ;  
 Ystyr tra parhao'th amser,  
 Feithder tragwyddoldeb mawr ;  
 Beth yw sylfaen dy grediniaeth,  
 Am fwynhau tragwyddol hedd ?  
 Beth yw'th obaith am y gwynfyd,  
 Sy'n y byd tu draw i'r bedd ?
- 4 Dal yn gadarn dy grediniaeth,  
 Dod dy obaith ar dy Dduw ;  
 Ymddibyna hefyd, beunydd,  
 Ar ei ras tra byddych byw :  
 Gyda sel, anturia'n wrol,  
 Yn dy yrfa nefol, gu,  
 Nes cyrhaeddyd mewn sirioldeb,  
 Barthau anfarwoldeb fry.

## AMGYLCHIADAU MARWOLAETH, &amp;c.

- 1 Pan fyddo'r corff yn dyoddef cur,  
A gloewon saethau'r gelyn sur,  
O loes i loes rhaid myn'd i lawr,  
Dan arfau miniog angau mawr
- 2 Pan fyddo'r anadl yn byrhau,  
A'r poenau mawrion yn trymhau,  
A'r enaid dros y genau mud  
Yn dianc i'r tragwyddol fyd,
- 3 Gad imi syllu ar dy wedd,  
Nes byddwyf yn anghofio'r bedd ;  
A phrawf o'th gariad dyro im',  
Nes byddo marw'n myn'd yn ddim,



## Y GROES, &amp;c.

- 1 Pa fodd y meiddiaf, yn fy oes,  
Dristau na grwgnach dan y groes,  
A minau'n gwybod am y fraint  
Mai'r groes yw coron pawb o'r saint?
- 2 Mae dirmyg Crist yn well i mi  
Na holl drysorau'r byd a'i fri ;  
Ei wawd fel sain pereiddiol sydd,  
A'i groes yn fywyd imi fydd.
- 3 Nid yw blinderau'r saint i gyd,  
A'u croesau, beunydd, yn y byd,  
Ond megys dim wrth gyfyng awr,  
A thost arteithiau'r meichiau mawr.
- 4 Er dechreu'r byd o oes i oes,  
Proffwydo wnaed am waed y groes ;  
A'r holl aberthau, gynt, fu'n bod,  
Oedd yn ei ddangos ef i dd'od.

- 5 Dilynwn ninau ôl ei draed,  
Ei lwybr sydd yn goch o waed ;  
Gan gyfri'r groes, os rhaid ei dwyn,  
Yn wir orfoledd, er ei fwyn.
- 6 Mae'n rhaid i hunan gwag ein hoes,  
A'n hymffrost grynu wrth ei groes ;  
Holl rwysg y byd, ac uchder dyn,  
I lawr y bwrir hwynt bob un.
- 7 Na rwgnach mwy, fy enaid prudd,  
Tra byddo nerth yn ol y dydd ;  
Er mynych ruddfan dan yr iau,  
Mae'r dydd i'w symud yn neshau.
- 8 O dan y groes, yn mlaen yr awn,  
Y groes ddywedodd ef a gawn,  
Ond dyma gysur, f' enaid gwan,  
Try'r groes yn goron yn y man.



### MYFYR MEWN PROFEDIGAETH.

- 1 Mawr boen im' yw'r byd,  
Anhydyn o hyd ;  
Rhyw fôr anifyrus,  
Peryglus bob pryd.
- 2 Ei fynych ddrwg foes,  
Mewn tristwch a'm troes,  
Im' nemor, yn rhagor,  
O dymor, nid oes.
- 3 Drwy gryfder y gwres,  
Er twymned fo'r tes,  
Ceir gweled pob niwed,  
A'r lludded er lles.

- 4 Arwyddwyd o ran,  
Er gobaith i'r gwan,  
Y llaw ddaeth a lluoedd  
Ar luoedd i'r lan.
- 5 O, f'enaïd na fydd,  
Mewn braw yma'n brudd,  
Cei esgyn i'r cysgod  
O'r gafod ar gudd.
- 6 Mae'n awr, arnom ni,  
Bur alwad mewn bri,  
Yn galw, O gwyliwch!—  
Dychwelwch, da chwi.
- 7 Mae rhoddwr mor hael,  
Ar gyfer y gwael;  
Pwy eto fu'n curo,  
Neu geisio, heb gael?
- 8 O brysia mewn braw,  
I loches ei law,  
Ac erfyn am gyfraid  
I'th enaid, na thaw.
- 9 Cei wlad heb un cledd,  
A nofio mewn hedd,  
I lonfawr lawenfyd,  
Tir bywyd, trwy'r bedd.
- 10 Y brodyr ryw bryd,  
A gesglir i gyd,  
Uwch nwydawl och'neidiau,  
Trigfanau'r drwg fyd.
- 11 I wledd y nef lân,  
Da hedd diwahan,  
Arwyddir heb raddau  
I'w geiriau na'r gân.

12 Anwyliaid y nef,  
Gwir ffurf ei gorff ef,  
Folianant heb flino,  
Oll yno'n un llef.

PETHAU A WNAED MEWN GARDD.

Mewn gardd y cafodd dyn ei dwyllo ;  
Mewn gardd y rhoed addewid iddo ;  
Mewn gardd bradychwyd Iesu hawddgar ;  
Mewn gardd amdowyd ef mewn daiar.

AR DRAGWYDDOLDEB.

Tragwyddoldeb sy'n beth rhyfedd,  
Tragwyddoldeb byth heb ddiwedd ;  
Tragwyddoldeb, rhaid myn'd iddo,  
Yn mha fan y byddaf yno ?

GALWAD AR BECHADUR.

Ar bechadur mae fe'n galw  
Ar bechadur wrth ei enw ;  
Tyred fel pechadur ato,  
Tydi mae'r Iesu yn ei geisio.

AMSER, &c.

1 Dynion i farw ŷm i gyd,  
Pan dreulio hyd ein blwyddau ;  
Try'n dyddiau a'n hwythnosau glân,  
A'n horiau'n fân fynyddau.



- 2 Mae haf a gauaf, yn eu pryd,  
Mewn trefn, a hyd cymesur,  
A phob anadliad dan eu rhi',  
A'n misoedd wedi 'mesur.
- 3 Pob tip o'r einioes, dan y rhod,  
Ar ben ei arfod hirfaith,  
A ymgudd dan dragwyddol glo  
Na welir mono eilwaith.
- 4 Amser a gyrch yn mlaen, er neb,  
I ddifodoldeb hollol,—  
Ac felly myn'd o bryd i bryd  
Mae dull y byd presenol.
- 6 O! am gael gorphwys yn ein rhan,  
Pan êl y cyfan heibio ;  
A thragwyddoldeb lyncu'n ol  
Bob peth amserol iddo.

---

CYNGHANEDDIAD RHYDD O WEDDI AGUR.

(*Cyfeithiad allan o'r Saesonaeg.*)

- 1 I ti bo'r mawl, y dwyfawl Dad,  
Mor lawn yw'r ddaiar oll o'th rad!  
R hwn sy'n rho'i ymborth i bob rhi',  
O ddydd i ddydd diwalla fi.
- 2 Fy mywyd hwn, dy eiddo yw,  
A'm holl gysuron, o bob rhyw ;  
Pob bendith hyfryd imi ddaw,  
Raid ddyfod o'th oludog law !
- 3 Nid wyf yn chwenych mawredd byd,  
Danteithiol fwyd, neu drwsiad drud ;  
Boddhau ar 'chydig byddwyf fi ;—  
'R ychydig i mi roddech di.

- 4 Tra byddo annuwiolion byd,  
A'u hymgais ar ol hwn o hyd ;  
Fel Agur, boddlaw'n yma bwy',  
Ac eled daiar rhyngynt hwy.



**MARWNAD ANGAU, NEU FUDDYGOL-  
IAETH CRIST.**

- 1 Yn adgyfodiad Iesu,  
Eglurwyd dwyfol allu,  
Malurio pyrth y bedd a wnaeth,  
A'r angau caeth yn trengu
- 2 Yr hwn fu gynt yn gwaedu,  
Dros byth sydd yn teyrnasu,  
A'r holl alluoedd, nef a llawr  
A'r angau mawr yn trengu.
- 3 Er iddo gael ei gladdu,  
A'r gwylwyr i'w amgylchu,  
Yn rhydd y trydydd dydd y daeth,  
A'r angau caeth yn trengu.
- 4 Boed ini orfoleddu,  
Gan iddo ef orchfygu ;  
Mae'r fuddugoliaeth ini'n awr,  
A'r angau mawr yn trengu.
- 5 Na fid i'r saint anghredu  
Ei nerthol hollol allu ;  
Fe gwyd eu llwch i gyd o'r llawr,  
A'r angau mawr yn trengu.
- 6 Gan iddo ef eu prynu,  
Fe fyn eu gogoneddu ;  
Mae porth y bedd yn rhydd yn awr,  
A'r angau mawr raid drengu.

- 7 Mae'r amser yn dynesu,  
Daw'r saint o'r bedd i fyny,  
Cânt orphwys gyda Christ eu pen,  
Amen, Amen am hyny.



## YR EGLWYS,

*Mewn amseroedd terfysglyd, yn ymgysuro gyda  
golwg ar yr addewidion.*

- 1 O Sion! pa'm yr ofni,  
Nag yr achwyni chwaith?  
Ceir gweled yn mhob tywydd,  
Wir gynydd ar y gwaith;  
Ac enw Iesu hawddgar,  
Ar led y ddaiar lawr;  
Saif gyda'i achos hefyd,  
Hyd ddiwedd byd bob awr.
- 2 Ei ddyfnion ragluniaethau,  
Bob oes er dechreu'r byd,  
Ynt gam wrth gam yn gymwys,  
A'i eglwys ef o hyd,  
Nas dichon cnawd llygredig,  
O wael wyredig ryw,  
Gan faint ei d'w'llwch diball,  
Wir ddeall fawr am Dduw.
- 3 Ei ffyrdd ynt anchwiliadwy,  
Ofnadwy, gyfiawn Ior,  
A'i daith uwchlaw'r wybrenau,  
A manau dwfn y môr;  
Mae'r cedyrn awdurdodau,  
Drwy'r ymrysonau sydd,  
Fel olwyn fa'i mewn olwyn,  
Yn dirwyn at y dydd.

- 4 Mae angrist a'i alluoedd,  
 Drwy leoedd daiar lawr,  
 Mahomet, Pab, a'r Pagan,  
 Yn min eu hoedran mawr ;  
 Daw'r Iuddew o'i gamsyniaeth,  
 A'i drom elyniaeth drist,  
 Adwneir y byd o newydd,  
 Heb ddim ond crefydd Crist.
- 5 Dy ddirfawr ddoeth amcanion,  
 Yn ÷on oll a wnair,  
 I wirio'r addewidion,  
 Sydd gyson yn y gair ;  
 Yn mhob rhyw oes aeth heibio,  
 A'r oesoedd eto ddaw,  
 Mae pethau mawr dy deyrnas,  
 Diluddias, yn dy law.
- 6 Cyflawnir rhagfwriadau,  
 A doeth arfaethau Duw,  
 Yn nhrefn ei ras achubol,  
 Anedifeiriol yw,  
 Pan ddygir pob cysylltiad,  
 A'r bwriad mawr i ben,  
 Bydd diben terfynadwy  
 Yn Iesu mwy, Amen.



## HUNANYMWADIAD A CHYFODI Y GROES.

M. N.

- 1 Na chywilyddia f' enaid,  
 I arddel Crist yn Dduw ;  
 Na ddiystyra gariad  
 Y fath Iachawdwr gwiw ;  
 Wrthodi di'r fath gyfaill,  
 Yr hwn a'i waed ei hun,  
 Orphenodd waredigaeth,  
 Ac iachawdwriaeth dyn ?

- 2 Crist i gyhoeddi heddwch,  
 A ddaeth o'r nef i lawr,  
 Gan ddangos rhyfedd gariad,  
 Ac ymostyngiad mawr ;  
 Gostyngodd ef, hyd angau,  
 Tan chwerwaf, lymaf loes,  
 Gan ddiystyru gw'radwydd,  
 A phoenau blin y groes.
- 3 Rhaid ini godi, beunydd,  
 Wrth ei orchymyn ef,  
 Y groes, a'i gywir ddilyn,  
 Wrth deithio ffordd y nef ;  
 Ni ddichon ein bywydau,  
 Na myrdd o oesau chwaith,  
 Ad-dalu'r cariad dwyfol,  
 Hwn sy ryfeddol faith.
- 4 Ar bawb sy'n dyodde'n ffyddlon,  
 Dros enw'r Iesu cu,  
 Yr edrych gyda hoffder,  
 O'r maith uchelder fry ;  
 Eu bywyd sydd yn anwyl,  
 Tra byddont is y nef,  
 A gwerthfawr yw, yn ddiau,  
 Eu hangau ganddo ef.
- 5 Cyfodi'r groes yn ffyddlon,  
 A rhoi i'w enw fri,  
 Hyn yw'r anrhydedd pena',  
 Ar fraint anwyla' i ni ;  
 Y rhai sy'n awr yn dyoddef  
 Er mwyn ei enw ef,  
 Cant gyd-deyrnasu'n hyfryd,  
 Mewn gwynfyd yn y nef.
- 6 Os yn y dydd peryglus,  
 Trallodus ar y llawr,  
 Y gwadwn ni ein proffes,  
 A'i santaidd enw mawr ;

Ar ddydd y farn gyhoeddus,  
 Drallodus sy gerllaw,  
 Fe dry y cyfiawn farnwr,  
 Bob drwg weithredwr draw.



TWYLL ANGHRIST.—M. C.

- 1 Mae anghrist beunydd yn mhob oes,  
 Yn groes i'n Harglwydd Crist ;  
 O bryd i bryd, ymdaenu wnaeth,  
 Ei draws hudoliaeth drist.
- 2 Y rhai wrthodo wrando'n wir,  
 Ar lais y cywir oen,  
 I'r rhai'n pan ddelo'r tanllyd ddydd,  
 Y bydd tragwyddol boen.
- 3 Gochelwn ryfyg, twyll, a rhith,  
 O wael athrylith dyn,  
 Gan wrthod gair a deddfau gwiw,  
 Ein Harglwydd Dduw ei hun.
- 4 O'n calon rho'wn ufydd-dod clau,  
 I'w ordinhadau cu ;  
 A'i lân orch'mynion yr un modd,  
 Ordeiniodd yn ei dŷ.
- 5 Efengyl Crist tros fryn a bro,  
 Ymdaeno is y nen ;  
 Ac anghrist tan ei farwol glwy',  
 Heb wella mwy, Amen.



EMYN CYMEDROLDER.

- 1 O deuwch frodyr, yn un fryd,  
 A rho'wn ddiolfryd ddwys ;  
 Am rodio'n gu a hardd ein gwedd,  
 Nes gorwedd dan y gwys ;

A dylem fynych wyllo rhag llithro ar un llaw,  
 A chadw'n harfau'n loewon,  
 I droi'n gelynion draw.

2 Cyd ganodd yr angylaidd gôr,  
 Pan gafwyd Ior fel dyn,  
 A'u hanthem draw i Fethlem dref,  
 Daeth teulu'r nef yn un ;  
 Bu awdwr mawr y bydoedd,  
 Duw'r lluoedd, dan y llen, yn wan ei fyd a'i eni o Fair,  
 Heb iaith na gair o'i ben.

3 O henffych ! ddedwydd, ddedwydd awr,  
 Y torodd gwawr i'n tir,  
 A boed i Frydain dawl fro,  
 Ymgeisio am y gwir :  
 Aed ein cenhadau'n lluoedd, dros donau'r moroedd maith,  
 Nes delo daiar yn gytun,  
 A'r nefoedd yn un iaith.

4 Gogoniant byth i'r Iesu mawr,  
 Am dd'od i lawr o'i lys,  
 O dan y loes fel dyn tylawd,  
 Daeth ini'n frawd ar frys ;  
 Ynddo ef mae bywyd a gwynfyd byth i'r gwael,  
 A'r Mab afradlon hefyd,  
 A gollwyd, wedi ei gael.



#### MYFYRDODAU WRTH ORWEDD I GYSGU.

1 Dirwyn mae blynyddau mywyd,  
 O ddydd i awr, o awr i fynydd ;  
 A phob mynydyn wedi ei dreulio,  
 Ni chaf eilwaith afael arno.

2 Aeth heibio eto un o'm dyddiau,  
 Gan luosogi rhif fy oriau,  
 Yr edau frau sy'n prysur ddirwyn !  
 Pwy all ei nadael, un mynydyn ?

- 3 Cyfnewid beunydd mae f'amserau,  
O forau i hwyr, o hwyr i forau ;  
Ag yn fy arwain mewn prysurdeb,  
At fin eithafoedd anfarwoldeb.
- 4 Pan f'wy'n myn'd yr hwyr i huno,  
'Rwy'n cofio'r bedd lle caf orphwyso ;  
Ac wrth amdoi fy hun â gorchudd,  
Am lwch y bedd yn toi fy nefnydd.
- 5 Wrth ddyfod cwsg i gloi f'amrantaau,  
Ni allaf lai na chofio angau ;  
Yn d'rysu pwyll fy holl gyneddfau,  
Gan gyd falurio fy synwyrâu.
- 6 Fy nghwsg hefyd hyd y cyfildydd,  
I mi yn wir mae ef yn arwydd,  
O'r amser fydd i'r corff marweiddiol,  
Hir orwedd yn y bedd angeuol.
- 7 Gwel'd yr wyf fy nglau adfywiad,  
Yn ddrych o ddedwydd adgyfodiad,  
Pan alwo Crist o'r ddaiar ymaith,  
Y corff i fyw heb farw eilwaith.
- 8 Wedi'r t'wllwch fyned heibio,  
Daw'r dydd eilwaith i oleuo ;  
Felly ceiff pob gwir gredadyn,  
Dragyddol ddydd heb nos i'w ddilyn.
- 9 Arglwydd cymorth ni'n wastadol  
I gyrchu at y dydd trag'wyddol,  
Lle ni ddaw nos na chwsg i'm blino,  
A dechreu dydd heb ddiwedd arno.



## EMYN I'W HARFER MEWN CLADDEDIGAETH.

M. H.

- 1 Pa beth yw dyn na neb o'i ryw,  
Ond megys gwan lysieuyn gwyw?  
Y borau'n tyfu'n wych ei wawr,  
Prydnhawn y torir ef i lawr.
- 2 Pa beth yw uchder gradd na grym,  
Dan ddyrnod llaw yr angau llym?  
Dwg wych a gwael a'r iacha' eu gwedd,  
Yn glau o'r byd dan gloiau'r bedd.
- 3 Pa beth yw golud byd a'i barch,  
Pan elo dyn ar waelod arch?  
Nid oes dim hoffder ganddo'n awr,  
Mewn dim a fedd y ddaiar fawr.
- 4 Pan byddo dyn ar ddiwedd oes,  
Yn dyodde'r flin, ddiweddaf loes,  
Diffanu wna, pan ballo'r chwyth,  
Gan ddarfod ; ac heb ddarfod byth.
- 5 Yn noeth y daethom bawb i'r byd,  
Ac felly gwn awn oll i gyd  
Yn fud, ac oer, yn dlawd, ein gwedd,  
I aros barn i lys y bedd.
- 6 Y cnawd a roddir yn y man  
Mewn gro a llwch wrth gor y Llan,  
Y pridd i'r pridd a syrth, yn awr,  
A'r llwch i lwch y ddaiar lawr.
- 7 Er hyny'r enaid bach fydd byw,  
Nid marwol, ond anfarwol yw ;  
O wydd y farn rhaid iddo fe,  
Ymddidol i'w dragwyddol le.

- 8 Ystyriwn, profwn hyn mewn pryd,  
 Yn mha ryw fan ; yn mha ryw fyd  
 Y bydd ein lle, 'nol gado'r llawr,  
 Yn y tragwyddol fyd sy fawr.



ENAIID A CHORFF Y DUWIOL  
 YN CYFARCH EU GILYDD YN YR ADGYFODIAD.

ENAIID.

- 1 O ! henffych gorff anfarwol glân,  
 Bydd i'm yn drigfan hyfryd ;  
 Un sylwedd oeddym, gynt, ein dau,  
 Cyn tori edau'r bywyd.

CORFF.

- 2 O ! enaid bach, h'le diengaist di,  
 Pan hunais i 'r pryd hwnw,  
 A'm cloi yn llwch y beddrod trist,  
 Nes dyfod Crist i'm galw ?

ENAIID.

- 3 Fy anwyl gorff, pan drengaist draw,  
 A'th doi islaw mewn daiar,  
 I'm nefol dŷ cymhwyswyd fi,  
 I'th aros imi'n gymar.

CORFF.

- 4 Ow ! myned hebot ti fu raid,  
 I'r bedd, fy enaid anwyl ;  
 A gorwedd yn y ddaiar laith,  
 Dros oesoedd maith i'th ddisgwyl.

ENAIID.

- 5 Fy anwyl gorff, mae'n ddigon gwir,  
 Ond er dy hir gaethiwed,  
 Nid oes dim brychau yn dy wedd,  
 Nac ôl y bedd i'w gweled.

## CORFF.

- 6 I anfarwoldeb galwyd fi,  
Dros byth i ti'n breswylfod,—  
Cawn foli Ner yn gyflawn iach,  
Fy enaid bach—heb bechod.

## ENAIID.

- 7 Gadawsom draw o'n hol i gyd,  
Hen sorod byd amserol,  
Mor wag oedd llesg deganau'r llawr,  
Wrth bethau mawr tragwyddol.

## CORFF.

- 8 Ein hundeb, gynt, oedd fyr a brau,  
Daeth angau i'n gwahanu ;  
Ond ni raid gwylio min ei gledd,  
Nac ofni'r bedd ond hyny.

## ENAIID.

- 9 Yn gorff ac enaid damniol yw  
Pob dyn fu'n byw'n annuwiol,  
Ond ni gawn ddechreu'r newydd gân,  
A hwythau'r tân tragwyddol.
- 10 Fy newydd gorff aneddu gawn,  
Yn mysg y cyfiawn perffaith,  
Yn gyfranogion o'r lleshad,  
Heb fyth ddiidoliad eilwaith.
- 11 Er crwydro gynt mewn anial maith,  
Heb fedru'r iaith ysbrydol ;  
Yn fyrdd cywirach yma cawn,  
Arferu'r ddawn anfarwol.



## Y MIL BLYNYDDAU.

Mae'r Sabbath mawr, ar fyr i fod,  
Pan êl chwe diwrnod heibio ;  
A dyna'r pryd caiff pawb o'r saint  
Mewn uchel fraint orphwyso ;

Bydd i'r ffyddlon, gywir dystion,  
 O dir a moroedd, ado'r meirwon,  
 Ar un cyfnod i gyfarfod,  
 A'u gwobrwyawl gywir briod,  
 Pan fwrio ef y ddraig i lawr  
 I'r dulyn mawr diwaelod :  
 Yna union frenin Sion  
 Fydd a'i babell gyda dynion,  
 Ar fainc Dafydd, cyfiawn lywydd,  
 Y dirion nef a daiar newydd,  
 A'i fawr lywodraeth tra fo chwyth  
 Ddiorfod byth ni dderfydd.

---

## ENGLYNION, &c.

---

### SWYDD Y LEFIAID, &c.

Arswyddawl ddewrweis oeddynt——a holl waith  
 Y llwythau'n drwm arnynt ;  
 Priodorion, pryderynt,  
 Weini'r boeth allor goeth, gynt.

Dwyn ger bron Aaron irwaed,——o'r eiddynt,  
 Arwyddol gysegrwaed ;  
 A holl nerth y llawn wrthwaed,  
 A lif wisg Lefi o waed.

Bychod na hyrddod yn hwy——ni fynwn,  
 Afu'n arferadwy,  
 Na bod ych mad profadwy,  
 Neu oes myn yn eisiau mwy ?

Yn lle eidionau, 'n llu dinerth,——ag ŵyn,  
 Yn ganoedd anghydwerth,  
 Dyma ben ar bob aberth,  
 A dyma waed mwy ei werth.

Bob tro, llawruddio'r oeddynt,——eu milod,  
 Mal yr aml aberthynt ;  
 A phob arfod a ddodynt,  
 Ing a loes, eirt y groes ynt.

Yno am becbot, unwaith,——rhoed arfau  
 Ar y dirfawr perffaith ;  
 Wrth ei grôg, ddelwog ddylaith,  
 Darfu'r hell gyllell ei gwaith.

Un gwerth yn offrwm i gyd,——a gwiwdeb ;  
 Un gwaed i roi bywyd ;  
 Un oen Naf, yn Iawn hefyd ;  
 Un chwerw boen i iachau'r byd.

Un byw wr in' a bery,——un erom,  
 Yn eiriol, gan hyny,  
 Un o'th blaid, enaid anhy',  
 Un sydd frawd, yn ei swydd fry.

A chaed, gwir brif-waed, gerbron,——a phuraf  
 Archoffeiriad ffyddlon,  
 A'i hawl i'r gysegrfa hon,  
 Wych hardd wr uwch urdd Aaron.



## MYFYRDOD AR DDYDD NADOLIG.

Genesis iii. 15.—Had y Wraig.

Gwelaf wr, ar Galfaria,——poenedig,  
 Penodwyd i'r lladdfa ;  
 Ai rhyw Ior yw? rhy wir,—ah!  
 Duw Naf yw,—dyn o Efa!

Dan addewid, yn ddiwyl,——er Addaf,  
 Yr oeddym yn disgwyl,  
 Ymwarded i'n,—mawr yw d'wyl ;  
 Ceraist weiniaid Crist anwyl.

Anelwig ddofn unoliaeth—y Duwdod,  
 Awdwr pob gwybodaeth,  
 Dan waelod briw dynoliaeth,  
 Yn wan ddyn, i'w eni ddaeth !

Ein Ior glân a ragluniodd,——niferi  
 Yn forau etholodd ;  
 A diau Fab Duw, o'i fodd,  
 Oll ar bren, a'u llwyr brynodd.

Nid hoelion ddydd y talu——a'i daliodd,  
 Na dwylaw Rhufeinlu,  
 Ei dda fodd, nid Iuddew fu,  
 Yn dwyn oes ein dyn Iesu.



“BYDDAF ANGAU I TI O ANGAU,” &c.

Poenau a gofid, ein pen a gafodd,  
 Poen, a du lafur, pan y dolefodd,  
 Poen i'w gorff anwyl, pan y gorphenodd,  
 Poen a loesau mawrion, pan lesmeiriodd,  
 Poenau, arteithiau a'i tôdd,——a diau,  
 Poenwyd yr angau ei hun pan drengodd.

“BYDDAF DRANC I TI Y BEDD.”

Yn ol ei arwain yn wael i orwedd,  
 O'i lwyrdost ofid, i lawr dystawfedd,  
 Gwylio, a selio, ar y gwir sylwedd,  
 Pylai drwy farw, bob pelydr o'i fawredd,  
 Er hyn bu'n ddychryn i'r bedd——arswydol,  
 Drwy ing cur dwyfol, bu'n dranc i'r dufedd.

“CUDDIWDYD EDIFEIRWCH O'M GOLWG.”

Er holl nerthoedd fy ingoedd cyfyngaf,  
 Hynod o fawrion, ni edifaraf,  
 Eithr, i ffynu, fy mawrwaith orphenaf,  
 O hyd, ar achos fy mhobl edrychaf,  
 Pyrth angau'n olau a wnafl,——a'm tlysau  
 O'u cauad fanau eu codi fynaf.

“HEB OLLWNG GWAED NID OES  
MADDEUANT.”

Heb loes, fu ar groes fawr gref,——i un oll,  
Ni ellid cael tangnef ;  
Na gweddus fodd i'n goddef,  
Na byw dyn heb ei waed ef.



YR IAWN.

Paham y gwneir cam â'r cymod,——neu'r Iawn,  
A'i rinwedd dros bechod ?  
Dywedwch faint y Duwdod,  
Yr un faint yw'r Iawn i fod !



“YN Y DYDD Y BWYTAI O HONO GAN FARW  
TI A FYDDI FARW.”

Y gosb ddaeth arnom i gyd,——gwae a marw  
Gymerodd le'r bywyd ;  
A mwy rhyfedd, marw hefyd,  
O'i boen fywhaodd y byd.

Os angau caeth, ddaeth ryw ddydd,——yn Eden  
Niweidiawl yn gerydd,  
O dir gwae, yn dragywydd,  
Angau'r groes a'n rhoes yn rhydd.



CRIST GER BRON PILAT.

Dros fai, nas haeddai, mae'n syn,——ei weled  
Yn nwyllaw Rhufeinddyn ;  
A'i brofi gan wael bryfyn,  
A barnu Duw ger bron dyn.

## PILAT YN Y FARN.

Yn y dorf, mewn ofn dirfawr,——pwy welir,  
 Ow! ai Pilat rwysgfawr?  
 Ie'r trwm fradwr tramawr,  
 Fory'n fud, yn y farn fawr.

## GWEDDI.

Gwir wylaf ddaugrau heli,——o lwyr och,  
 I lawr af dan waeddi,  
 At ei orsedd, mewn gweddi,  
 A gwaed y Mab gyda mi.

## CRIST A'I WARADWYDDIADAU.

Dygodd ei oes fendigaid,——do'n wyrthiol,  
 Dan warth pechaduriaid;  
 Gwaedu 'i fron, gwedi, fu raid;  
 Bron yr oen, brynwr enaid.

## Y FARCHNAD YSBRYDOL.

Drwy'r newyn, draw o'r niwaid,——at yr Iawn  
 Tro unwaith dy lygaid,  
 Yno y ffoi—O! na phaid,  
 I brynu bara enaid.

CYNGOR I FOD YN DDYODDEFGAR  
MEWN CYSTYDD.

Pan fych mewn poen afiechyd,——a phoethion  
 Effeithiau dy glefyd;  
 Cofia Grist, yn dy dristyd,  
 A chwerw boen, iachawr y byd.



## Y PECHADUR RHYFYGUS.

Rhedeg, ar redeg, mae'r adyn,——anwych,  
 I wyneb y poethlyn ;  
 I'w lwyr gael, o lawr'r gelyn,  
 Ni all deddf ynill y dyn.



## GWEDDI.

Drwy'r hoelion, a'r coroni,——draw, a'i gur,  
 Drwy y gwawd a'r poeri,  
 Drwy y gwinegr, dir gynt,  
 Drwy ei boen fawr, derbyn fi.



## ERFYNIAD AM WLAW YN GORPH. 1826.

Dad eiddym, deued addas,——gawodydd,  
 Gwywedig yw'n teyrnas ;  
 A mwyda di, 'r crindir cras,  
 A da wlaw Duw Elias.




## UFFERN.

Ffwrn eirias, wynias, annuw,——hyll beiriant,  
 Lle bwrir pob didduw ;  
 Llyn diwaelod, llawn diluw,  
 Dyna le tost, dan lid Duw.

## RHAN II.



CAROLAU AC ODLAU MOESOL.



# CAROLAU, &c.



## CAROL PLYGAIN.

Mesur,—“ Eluseni Meistres,” (*Charity Mistress.*)

1

WEL dyma'r amser hyfryd, dedwyddyd yw i ddynolryw ;  
Eu dwyn o'u cyflwr damniol i gael anfarwol fyw ;  
Dysgleiriodd gwawr trugaredd, O! ryfedd rad y fendith fad,  
I alw plant afradlon, pent'wynion at eu Tad ;  
I wared dyn colledig, daeth Iesu'r bendigedig un,  
I wisgo cnawd, ein hanwyl frawd a fu dylawd ei lun ;  
Duw unig pob daioni, doeth oleuni, daeth i lawr,  
Tragwyddol hedd gacd yn ei wedd, mor ryfedd oedd yr awr.

2

Cu rodiodd ein creawdwr i'n cyflwr caeth, dan rwymau'r  
aeth,  
Gorchfygodd ef bob gelyn, er dychryn mawr y daeth ;  
Pan ymddangosodd Iesu, yn Methlem dre' y ganwyd e',  
A dirmygedig ydoedd, Duw'r lluoedd yn y lle ;  
Dyoddefodd boen bob enyd, a gw'radwydd hefyd gyda  
hyn,  
Rhag bod i ni dragwyddol gri a'n llosgi yn y llyn :  
Mae'r drws yn llawn agored, eto i fyned ato fe,  
A byw ger bron ei wyneb llon dros fyth yn eigion ne'.

G

Gwir awdwr, i'n gwaredu, yr Iesu a roes, ar greulon groes,  
 Dros ei elynion ffyrnig, ei fendigedig oes ;  
 Mawr foddion mor ryfeddol, anfeidrol faeth, yn ddiau  
 ddaeth,

Ymgeledd i rai gwaelion a'u dwyn o'r cyffion caeth ;  
 Trugaredd rad a redodd, ar ddyn hi wenodd yn ei waed,  
 Tywalltodd win i'w glwyfau blin, tragwyddol rin a gaed.  
 O ddynion gwaelion ! gwelwch, a chydryfeddwch degwch  
 Duw,

Yn d'od er lles i'n dwyn yn nes i'w fynwes byth i fyw.

## 4

Hoffenwog ymddiffynwr, rheolwr rhad, yw'r meddyg mad,  
 Fe geidw ef ei fyddin, fel brenin, rhag un brad ;  
 Ni chollir, yn dragwyddol, o'i lesol law, mor hwn a ddaw  
 At Iesu bendigedig, ond trig mewn bywyd draw ;  
 Dyogel wledd fendigaidd yn faeth i'r enaid fyth o ran,  
 Deheulaw gref oen ufydd nef a'i cynal ef i'r lan :  
 Mae'r ffynon anorphenol a'i rhin pereiddiol yn parhau,  
 Ei heffaith sydd, lle byddo ffydd, a'i chynydd yn iachau.

## 5

Tan ddiluw ein tyn ddaliodd yn waeledd was, O ryfedd ras !  
 Aeth Iesu anwyl union, dyn cyfion, dan y cas ;  
 Pan ydoedd ŵr poenedig ar unig ran pechadur gwan,  
 Dangosodd ef ei ryfedd amynedd yn mhob man ;  
 Yn marw, wele'r mawredd, un dilygredd, dan y loes,  
 Rhyfeddod fu, gwel'd Iesu eu, yn crymu ar bren croes ;  
 Ni chanfu'r hen Iuddewon, ond braidd yn drymion oddi-  
 draw,  
 Er d'od o'r dydd i'w rhoi yn rhydd, a'r llywydd wrth eu  
 llaw.

## 6

Ni cheisiodd Iesu cyfion, oen ffyddlon, ffoi, ond parotoi  
 I ddyoddef llid a gormes, mae'r hanes felly'n rhoi ;

Gŵr anwyl a goronwyd, condemniwyd ef dan wybr nef  
 Gan bechaduriaid aflan, a llydan oedd eu llef ;  
 O ! loesau'r anwyl Iesu, 'does neb all draethu gallu ei gur,  
 Aeth dan y brad, rhwng dyn a'i dad, mewn perffaith gariad  
 pur.

Am hyn mae'r plant yn rhyddion, er mwyn ei loesion  
 anwyl ef,  
 Fe ddwg ei lu, hyfrydol fry, drwy gadarn allu'r nef.

## 7

Drwy achos, cyd-edrychwn, rhyfeddwn faint, wrth brynu  
 eu braint,

Dyoddefodd Iesu oesol, yn siriol, dros y saint ;  
 E fwriwyd ar Galfaria, i ddalfa ddwys, dan boenfawr bwys,  
 Cyfrifwyd gyda'r anwir y geirwir, hyd y gwys ;  
 Dan faich o dŷn afiechyd, ca'dd Iesu hyfryd ddybryd ddydd,  
 Am hyn ei glod, anfarwol Fod, rhyfeddod byth a fydd ;  
 Trigolion nefoedd hefyd fu, dros enyd, draw yn syn,  
 Wrth wel'd y gŵr wnaeth dir a dŵr, yn brynwr ar y bryn.

## 8

Er iddo ddyodde'n rhyfedd dros gamwedd gwir, a hyny'n  
 hir,

Mae'n rhaid ymdrechu'n ffyddlon od awn i Sion dir,  
 Na fyddwn anufyddol na marwol mwy, mewn pechod, pwy  
 A erys heb fyn'd allan o hunan ddim yn hwy ?  
 Rhaid ini un a'i ceisio gras i deithio yn ngwres y dydd  
 I Sion fro, drwy gynes go', a rhodio yno'n rhydd ;  
 Neu fod yn garcharorion, yn mhlith gelynion dyfnion Duw,  
 Lle byth y trig ei ddwyfol ddig, mor felldigedig yw.

## 9

Am gael yr anwyl gymod, gollyngdod llawn o ddwyfol  
 ddawn,

A'r Iesu anwyl unig yn fendigedig iawn,  
 Mae'n ddyled ei addoli, a'i foli fe, oen addfwyn ne',  
 Nid oes un cyfnewidiad i'w dirion gariad e.







Gan estyn ei frenhiniaeth, a'i lydan bur lywodraeth,  
Mewn buddygoliaeth ar bod gwaed.

## 5

Y ber efengyl ddidwyll, wir ganwyll, ddysglaer gynyrch,  
A ddyry drwy ddaiaren, is wybren, lawen lewyrch ;  
Iuddewon a Chenhedloedd, drwy dywyll leoedd daiar,  
A welant ei phrydferthwch a'i thegwch perffaith hawddgar ;  
Y gair yn ddiragoriaeth, a ddyd drwy'r byd wybodaeth,  
O'r iachawdwriaeth wych ei dawn ;  
Gan ddangos ffordd ardderchog i esmwythau'r blinderog.  
Neu ddwyn yr euog ddyn i'r iawn ;  
Hon ydyw'r drych ysbrydol sy'n dangos, yn oestadol,  
Ini'n cyflwr marwol cas,  
A'r ffordd, yn llaw trugaredd, i'r gwael i gael ymgeledd,  
Anwylaf rinwedd nefol ras.

## 6

Am air yr ysgrythyrau, gwiw freiniau'n gyfranol,  
O talwn foliant dilys i'r gweddus Ior tragwyddol,  
Rhyfeddwn ras ein ceidwad a'i gariad at ein goror,  
A'n gwnaeth yn gyd-feddianol o'r hyfryd rasol drysor ;  
Arddelwn ei reolau, mwynhawn ei rad amodau,  
Boed ein meddyliau arno yn ddwys ;  
Mawrhawn ei bur gysuron, arswydwn ei fygythion,  
Rho'wn arno beunydd ffyddlon bwys ;  
O'i gredu, 'n wir, mae bywyd, a heddwch i'w gyrhaeddyd,  
Wedi'r blinfyd fyth heb loes ;  
Gwynfyd a'i gwir ddefnyddio, gwae'r dyn a'i hesgeuluso,  
Un dawn i'n deffro, ond hwn, nid oes.

## 7

Os ym yn ufydd gredu gair Iesu'r gywir rasol,  
Rhaid dwyn y caeth i ryddid, a newid yr annuwiol,  
Gan adael gwag wrthrychau a gweinion ffol deganau,  
Dirymu dirgel bechod, eilunod ein calonau,  
A derbyn anian newydd, a dwyn y groes, yn ufydd,  
A dylun ein harweinydd doeth ;

A chael y wisg santeiddlan, bwrcasodd ef, yn gyfan,  
 I guddio'r truan aflan, noeth,  
 A meddu hawl gyfreithlon, i'w ddedwydd addewidion,  
 Gwir gysuron, goreu sail;  
 Ein tori o'n hen naturiaeth, a'n hylwydd impio'n helaeth,  
 Yn dyner odiaeth yn yr Ail.

## 8

Lle byddo gras achubol yn wirioneddol wreiddio,  
 Ymddengys ffrwythau bywiol, rhagorol yn blaguro,  
 Mae ffydd yn cym'ryd gafael, drwy'r hael addewid helaeth,  
 Ar Grist a'i aberth cyflawn, am diriawn iachawdwriaeth;  
 Ac megys llusern euraid yn dwyn goleuni dibaid,  
 I ranau tywyll enaid dyn;  
 Ei hetifeddion hefyd feddianant fythol wynfyd,  
 Hedd y bywyd rhydd bob un;  
 Eu tarian hamddiffynol sy'n diffodd saethau marwol  
 Y ddraig a'i holl niweidiol nerth;  
 Arddelwn hon hyd angau, dewiswn ei rhinweddau,  
 Uwchlaw'r holl berlau goreu eu gwerth.

## 9

Er bod y cristion diwyd dan soriant byd amserol,  
 E fydd yn wyneb angau a'i boenau yn dderbyniol;  
 Caiff adael pob rhyw ofid a dichell, llid bradychus,  
 A'i ddwyn o dir caethiwed i nodded ogoneddus,  
 Pan ddel o'r bedd dinystriol, a'r môr a'u lluoedd marwol,  
 O! mor gysurol fydd y saint;  
 Gorphwysant mewn tangnefedd yn Sion, union anedd,  
 Anwylaf rinwedd nefol fraint;  
 O rif y dyrfa rasol,  
 A ddygir yn fuddygol, i feddu'r bythol fyd, uwch ben,  
 O gyraedd pob gofidiau,  
 Tu draw i'r bedd ac angau,  
 B'o chwi a minau'n iach, AMEN.

Nefolion mwynion ymunant——eu llef,

A llafar y canant;  
 Emynau o'u genau gânt,  
 A'u dwylaw a gydeiliant.

## CAROL PLYGAIN.

Mesur,—“*Hyfrydwch y brenin Sior.*”

- 1 Dihunwch, weithion, garedigion,  
 Yn wiwlon gyda'r wawr,  
 Dadseiniodd hyfryd lef  
 Telynau'r nef i lawr ;  
 Fe gafwyd arwydd fod llawenydd  
 O newydd yn y nef,  
 Am eni'r Iesu mwyn,  
 Dro addfwyn yn y dref ;  
 Angylion a ganasant  
 Ogoniant, am y gwaith,  
 A'u glân, blygeiniol, gywrain garol,  
 Mewn nefol unol iaith ;  
 Bugeiliaid llon, a ddaeth ger bron,  
 A'r doethion, yn min dydd,  
 Gan gael y baban gwych,  
 Hoff wrthrych cywir ffydd ;  
 Cydganed y Cenhedloedd,  
 Mae'r nefoedd gyda ni,  
 Fe brofwyd purdeb ei ffyddlondeb,  
 Drwy undeb Un sy Dri,  
 Rhyfeddol yw daioni Duw  
 I ddynol ryw, erioed,  
 Gwir Fab ei fynwes fwyn,  
 Ior addfwyn, ini, a roed.
  
- 2 Hwn ydyw'r achos sy'n ymddangos  
 Yn agos atom ni,  
 Am eni, gyda'r wawr,  
 Rhyw frenin mawr ei fri ;  
 Ior rhagorol, annherfynol,  
 Tragwyddol, medd y gair,  
 A gafodd ei ymddwyn  
 O'r addfwyn forwyn Fair ;

Ni chafodd le na llety  
 I'w barchu yn y byd,  
 Er bod i'w feddiant ryfedd lwyddiant,  
 Ogoniant nef i gyd,  
 Yr Iesu hael, i'r preseb gwael,  
 Ar drafael ca'dd ei droi ;  
 Pan oedd y p'lasau gwych,  
 Dai clydwych wedi eu cloi ;  
 Disgynodd Iesu hawddgar  
 I barthau isa'r byd,  
 O blith telynau, hyfryd odlau,  
 Organau'r nef i gyd,  
 Wel dyma'n awr ryfeddod fawr,  
 Modd dirfawr i bob dyn,  
 Y natur ddynol gaeth,  
 A'r nefoedd aeth yn un.

3 Mae'n hysbys ini ei dylodi,  
 Oen difri, yn ei daith,  
 Dyoddefodd boen a llid,  
 Mewn gofid, lawer gwaith :  
 Pan oedd y gelyn am oresgyn  
 Y bechgyn oll o'r byd,  
 Hen Herod fawr ei sel,  
 Oedd frenin uchel fryd ;  
 Ei boen a'i ofid beunydd,  
 Sy'n arwydd eto i ni,  
 O daith y ffyddlon gywir Gristion  
 Dan bob rhyw greulon gri,  
 Ir Aifft yn gaeth, rhag dyoddef saeth  
 Gelyniaeth helaeth hir,  
 Yr enwog d'wysog da  
 Aeth o Judea dir ;  
 Holl achos ei ofidiau,  
 A'i boenau ef bob un,  
 Oedd llwyr orchfygu nerth y fagddu,  
 Ac anrhydeddu dyn :  
 Y ffordd yn rhydd i gario'r dydd  
 O newydd ini wnaed ;  
 Er gwaetha uffern gerth,  
 Ni chollir gwerth y gwaed.

4 Dangosodd hynod wir ufydd-dod  
 Heb wrthod tra fu byw,  
 Ior hyfryd i fawrhau  
 Rheolau deddfau Duw :  
 Fe gaed tystiolaeth ei athrawiaeth,  
 Er helaeth eglurhad,  
 Fod Iesu mawr ei hun  
 Yn un cytun â'r Tad ;  
 Ei fywyd oedd lafurus,  
 A gweddus yn mhob gwaith,  
 Fe wnaeth arwyddion, ar y cleifion,  
 Byddarion, mudion maith :  
 A'i wyrthiau glân, i fawr a mân,  
 Oedd ddiwahan o hyd,  
 Dan ei awdurdod ef,  
 Mae gallu'r nef i gyd.  
 Fe chwysodd ddafnau cochion,  
 Oen gwirion, megys gwaed,  
 Y gwpan sur i'w enaid pur,  
 Yn chwerw gur a gaed ;  
 O'i braidd ei hun, ni safodd un,  
 I'w ganlyn yn ei gur,  
 Ei fywyd o'i wir fodd  
 Aberthodd Iesu'n bur.

5 Mae coffadwriaeth o'i farwolaeth,  
 Yn helaeth i'w fwynhau,  
 Tra byddo oesau'r byd  
 Pur hyfryd yn parhau ;  
 Ei angau marwol oedd ddigonol,  
 Oen nefol, drosom ni ;  
 Yr aberth mwya' erioed  
 A roed ar Galfari.  
 Y goron annhrugarog  
 Oedd bigog ar ei ben ;  
 Fe wnaed i'n pechod gydgylfarfod :  
 A'n priod ar y pren,  
 Yr Iesu pur ddyoddefodd gur,  
 A llafur yn ein lle ;

Drwy anarferol fodd,  
 Fe grynodd daiar gre'.  
 Y ser i gyd ddiffanodd,  
 A'r wawr a dreiddiodd draw,  
 Pob golwg ffydd a edwyn ddydd  
 Y llywydd sy gerllaw,  
 Mae gwir iachad i'r enaid cla'  
 Drwy rinwedd hâd y wraig,  
 Ar groeshoeliedig bren  
 Fe ddrylliwyd pen y ddraig.

- 6 Er cael yn helaeth goffadwriaeth  
 O fuddygoliaeth gu,  
 Y cyfiawn d'wysog hedd,  
 A chofio'r bedd lle bu :  
 Gochelwn felly wag ryfygu  
 Heb etifeddu'r fael,  
 Er d'od o'r Duwdod pur  
 I wisgo natur wael :  
 Rhaid ini gael tystiolaeth  
 O'r iachawdwriaeth rad,  
 A gado'n ol arferion ffol,  
 Yr hen eilunol wlad ;  
 A ffoi, mewn pryd, i'r noddfa glyd,  
 Yn hyfryd i'w fwynhau,  
 Cyn bo'r efengyl bur  
 A'i chysur i'n hiachau.  
 Y sawl sy ganddo brofiad,  
 A theimlad o'r gwaith hwn,  
 Sy'n gwir adnabod Iesu'n briod,  
 A'i bechod iddo'n bwn,  
 Pan losgo'r byd, a'i gyfoeth drud,  
 Caiff brofi hyfryd hedd,  
 A gorphwys gyda'r oen  
 Tu draw i boen y bedd.

- 7 Ymdrechwn beunydd am lawenydd  
 Tragwyddol sydd i'w gael,  
 A llefwn, hyd y llwch,  
 Am heddwch Iesu hael ;

Y mae'r anwylyd mawr yn eiriol  
 Tragwyddol unol Ior :  
 Nesawn, er maint yw'r llid,  
 Yn ddiwyd at y ddor.  
 Darfydded holl ryfeloedd,  
 Drwy leoedd daiar lawr,  
 Tangnefedd fwyngu fo'n teyrnasu,  
 Heb ail enynu un awr,  
 A'r cledd a f'o i'w gael dan glo,  
 Ei wisgo yn ei wain,  
 O Frydain aed ar frys  
 Bob anghysurus sain ;  
 A heddwch fo'n ymdaenu,  
 Ac yn helaethu ei le,  
 A'r byd cyweithas dan ei urddas,  
 Yn addas fel y Ne',  
 I'r hwn a roes ar bren y groes,  
 Ei anwyl oes i lawr,  
 Y byddo'r mawl i gyd,  
 Hyd ddiwedd byd bob awr.

---

## CAROL PLYGAIN.

Ar y Dôn a elwir,—“*Difyrwch Gwyr y Gogledd.*”

YN CYNWYS

AM FYWYD, DYODDEFAINT, AC AIL DDYFODIAD  
MAB Y DYN.

1

Aed moliant Iesu mawr ar led y ddaiar lawr,  
 Terfynau'r byd a welo'r hyfryd wawr ;  
 Trigolion daiar de'wch, i'w lysoedd nefol ewch,  
 Wel dyma'r pryd, yn hyfryd llawenhewch ;  
 Fe anwyd ceidwad dynolryw,  
 Yn waelaf ddyn, anwylaf Dduw,

O'r wryf hawddgar, forwyn,  
 Oen addfwyn, addfwyn yw ;  
 Yr hwn a welwyd gyda'r wawr,  
 Y mae ei bresenoldeb mawr,  
 Duw unig pob daioni,  
 Yn llenwi nef a llawr.

## 2

Gadawodd lys ei wlad, er rhoddi gwir ryddhad,  
 I ddynolryw, oen Duw, ei nefol Dad ;  
 Daeth y Mesia mawr, i'w eni gyda'r wawr,  
 Ei haeddiant ef sy noddod gref, yn awr,  
 Creawdwr pob creadur byw,  
 Ddaeth fel creadur, gwan ei ryw,  
 Duw cadarn didrancedig,  
 A bendigedig yw ;  
 Er dyddiau tragwyddoldeb maith,  
 Cyn bod y nef na daiar chwaith,  
 'R oedd ei fynediad allan,  
 Ior diddan ar ei daith.

## 3

Gan iddo wisgo cnawd, a d'od i le tylawd,  
 Fe'n ceidw'n fyw, ein brenin yw a'n brawd,  
 Hwn ydyw had y wraig, sydd ini'n gadarn graig,  
 Drwy boenau llym, gorchfygodd rym y ddraig ;  
 Fe gân y gwardigion mwy  
 Dragwyddol glod am farwol glwy',  
 Rho'wn oll i frenin Salem  
 Ein hanthem, gyda hwy ;  
 Efe sy'n rhoi ei ras yn rhad,  
 Fe ddaeth a dyn yn un â'i Dad ;  
 Mae effaith rhad drugaredd  
 Yn rhyfedd ei barhad.

## 4

O cofw'n d'wysog hedd, a'i boenau hyd y bedd,  
 Mae nerth wrth raid i weiniaid yn ei wedd ;  
 Ni chafwyd mewn un lle un enw dan y ne',  
 I bobloedd byd yn fywyd ond efe ;



O glwyfau'r oen ar Galfari,  
 Ei waed i'r llawr a roed yn lli\*,  
 Dyoddefodd rym y gyfraith,  
 A phwys ei heffaith hi ;  
 Efe yw'r pen ryfelydd pur,  
 Er bod yn wan o dan y dur,  
 Pyrth Sion a ddatododd,  
 Agorodd yn ei gur.

## 5

Myfyriwn am y fraint, a'r gwobr sydd i'r saint,  
 Mewn byd yn ol, anfeidrol yw ei fraint ;  
 Caiff etifeddion ffydd sy'n dyoddef gwres y dydd,  
 Er dwyn y groes feddianu'r einioes rydd ;  
 Tangnefedd pur drwy gur a gaed,  
 A'r ffordd i'r nef yn rhydd a wnaed,  
 Mae rhinwedd annherfynol,  
 Tragwyddol yn y gwaed ;  
 Nid oes a geidw enaid un,  
 Ond haeddiant Iesu mawr ei hun,  
 Hwn ydyw'r ffordd i'r bywyd,  
 Ordeiniwyd i bob dyn.

## 6

Erfyniwn gan y Tad wir heddwch a rhyddhad,  
 I'r enaid caeth, drwy'r iachawdwria eth rad,  
 Gwybyddwn nad yw'r byd, ond gwagedd oll i gyd,  
 Ni phery ei wawr anhydyn fawr o hyd ;  
 Dychwelwn o'n estronol wlad,  
 Yn ol i dŷ ein hanwyl Dad,  
 Mae'r Ion er ei ogoniant,  
 Yn rhoi maddeuant rhad ;  
 I'r amddiffynfa ceisiwn ffoi,  
 Ac o'n diffirwythder rhaid deffroi,  
 Yr unig Dduw'r gwirionedd,  
 At rinwedd all ein troi.

## 7

Caiff Sion wan, yn wir, ei dwyn o'r anial dir,  
 Uwch rhwystrau'r byd i'r gwynfyd hyfryd hir,

Daw pob credadyn gwan, i orphwys yn ei ran,  
 'Mhen gronyn bach, o'r loesau'n iach i'r lan ;  
 Tragwyddol arfaeth, yn ddilai,  
 A geidw'r etholedig rai,  
 Iacheir eu clwyfau hefyd,  
 A'u bywyd o bob bai,  
 Caiff pawb o'r etholedig had,  
 Yn ddiau, drwy'r addewid rad,  
 O'r maith anialwch dyrys,  
 Eu tywys at eu Tad.

## 8

Fe darddodd afon gras, er gwaetha'r gelyn cas,  
 A'i ffrydiau llawn, yn beraidd iawn ei blas ;  
 Y ffynon hyfryd hon, o bur friwedig fron.  
 Ddaeth i'n glanhau drwy wir effeithiau'r ffon ;  
 Myfyriwn am ei farwol loes,  
 A'i boen o'i gryd i ben y groes,  
 Ar gariad rhad drugaredd,  
 Un diwedd byth nid oes ;  
 Yn awr mae dyled ar bob dyn,  
 Ddyrchafu llef i'r nef yn un,  
 I'r hwn sy'n rhoi maddeuant  
 O'i haeddiant mawr ei hun.

## 9

Esgynodd t'wysog hedd, yn fyw, o'r marwol fedd,  
 Yn hardd ei bryd, gwir wynfyd sy yn ei wedd,  
 Gorchfygodd uffern faith, Ior dwyfol, ar ei daith,  
 Bydd iddo fawl tragwyddawl am y gwaith ;  
 E roes i lawr ei rasawl oes,  
 Dan boenau llym a grym y groes,  
 Ef yno a ruddfanodd,  
 Dolefodd dan y loes ;  
 Mae hyfryd werth ei aberth ef,  
 O faeth a grym, mewn effaith gref,  
 Yn eiriol dros anwiredd  
 Yn awr ar orsedd nef.

## 10

Y styriwn hyn i gvd daw barhydd mawr y byd,  
 O'r nef i lawr, pwy w'yr yr awr na'r pryd ?

Meddylw'n am y dydd, a ffown drwy gadarn ffydd,  
 Cyn delo'r awr, a'r llid mor fawr a fydd ;  
 Cyd-unwn oll o dan y nef,  
 Yn llawen i ddyrchafu'n llef,  
 I'r Ion am ei diriondeb,  
 A gwedd ei wyneb ef ;  
 Cyd-ro'wn y goron bur ar ben  
 Yr Iesu'n unig is y nen,  
 Pob genau rhoed ogoniant,  
 A moliant fyth, AMEN.

—◆◆—

### ODLAU MOESAWL.

- 1 O hyd yr oes pechadur wyf,  
 Dan glwy, fy nwyf yn afiach ;  
 Yn dwyn fy mriwiau dan fy mron,  
 Archollion pwy erchyllach ?  
 O waeledd nerth ni welodd Naf  
 Tirionaf, neb truanach.
- 2 Anghofio'n dost, fy nghyfiawn dwr,  
 Gwir roddwr trugareddau ;  
 Heb ado drwg y byd a'i drais,  
 Taer redais at ei rwydau,  
 Pob ynfyd naws yn draws a drodd,  
 Ymledodd dros fy mlodau.
- 3 Aeth talm, ysywaeth, tan y ser,  
 O'm hamser hoewber heibio ;  
 A'r oes o hyd sy'n dwys fyrhau,  
 Mae pwys fy oriau'n pasio,  
 A'r corff i'r bedd, naws agwedd swrth,  
 A dorir wrth ei daro.
- 4 Ow ! gwan yw dyn, a gwn nad oes  
 I'r einioes ond bwr enyd,  
 Tyr angau'r byw, trwy ing i'r bedd,  
 I orwedd dan ei wryd.  
 Nid oes un nodded, is y nen,  
 Na chilen i'w ochelyd.

- 5 Effeithiau'r codwm, gorthrwm gŵr,  
 Y dolur hwn a'n daliodd,  
 Er Adda hen, ei wraidd o hyd,  
 Tylwythau'r byd a lethodd ;  
 Pob rhan o ddyn, pob rhiwedd dda,  
 Fu lonwych, a ddiflanodd.
- 6 I gario'r boen, daeth gŵr i'r byd,  
 I enill bywyd ini,  
 Druenus ryw, a r deyrnas rad,  
 Nid oes diweddiad iddi,  
 Un oll yn wir na allo neb  
 Gloi wyneb ei goleuni.
- 7 Ni chyraedd saethau angau un  
 O'r didawl lu nodedig,  
 O dwrf y gwae, mae'r dorf i gyd,  
 A gwawd y byd gwywedig ;  
 Daionus hawl, mewn dinas wych,  
 Sy glodwych ansigledig.
- 8 Boed ini fythawl hawl i hon,  
 Mor lon, yw'r mawr lawenydd,  
 A mwyn iawn gor o'i mewn yn gwau,  
 Holl seiniau llais awenydd,  
 Ni ddaw i addas deyrnas Duw,  
 Na diluw na dialydd.
- 9 Am hyny,'n wir, dymuno wnaſ,  
 Gofynaf, yn gyfanedd,  
 I'r Ion faddau'r hyn a fu,  
 Drwy Iesu, fy holl drosedd,  
 A da i mi os Duw a'i myn,  
 Gyfnewid cyn fy niwedd.

CAN  
I ANERCH DAFYDD THOMAS.

---

Ar y Mesur,—“*Dydd Llun y boreu.*”

1

Anrhegaf yn rhad, gu seiniad gysonol naturiol y tardd,  
I Dafydd o Arfon, lon fwynlon lân fardd :  
Da genyf dy gain arwyrain oreurog, galluog oll yw,  
Er cynal yr hyfryd gelfyddyd yn fyw :  
Ti aethost yn hollol, dda athraw, 'n ddyeithrol  
I'th wlad enedigol, gresynol yw sôn,  
Gan dreulio'n feunyddiol, dy ddyddiau'n dueddol,  
Yn mysg yr estronol wŷr deol, oer dôn ;  
Ce'st lawer o drymder o ymarfer â Môn :  
Pan ddelych ar gynydd, o fewn i Eifionydd,  
Bydd yma lawenydd yn rhydd i'th fawrhau ;  
A sôn am feirddorion, glod eurfawr gwlad Arfon,  
Er dyddiau'r Derwyddon, a'u ffyddlon goffau ;  
Gan brofi gwaith prif-feirdd, gadeirfeirdd ein dau.

2

Mor geinwych fu gynt, ein helynt dan haulwen, a llawen  
y lles,  
Cyn myned o'r addien, bêr awen heb wres ;  
Mewn llwyddiant mwyn llon, ar finion afonydd Eifionydd  
wych faith,  
Yn eilio cerdd newydd, neu gywydd têtg waith ;  
A rhodio yn mysg manwydd, is gwiwdeg wasgawdwydd,  
Man araul mewn irwydd, yn rhydd ein mawrhad :  
O gyraedd cynllwynion, y byd a'i helbulon,  
A lliodiog drallodion ei droion di rad,  
Mewn cyflawn ddystawrwydd, lwys hylwydd leshad.  
Cyd-ystyr yn berffaith, wych haelfawr uchelfaith,  
Lon oleu anwyliaith mwyn araith mae'n wir ;  
A chwilio rheolau, a sylwedd ei seiliau,  
Pob dawnus gadwynau tyn g'lymau tôn glir,  
Am urddas gwlad Arfon bu sôn yn mhob sir.

Er gwyched ar g'oedd in' oedd y rhinweddol, lawn foddol  
 lân fyd,  
 E ddarfu'r Gymdeithas, gu addas i gyd ;  
 Unigol ddyn wyf gwan ydwyf, gan adael ar drafael hir dro,  
 Hen bybyr gyfeillion oedd brydlon mewn bro ;  
 Am hyny 'rwy'n teimlo tyn alar tan wylo,  
 A'r einioes yn gwyro, gan wywo fy ngwedd :  
 Boed in' yn ol darfod yr oes ar dir isod,  
 Gael eilwaith gyfarfod, mwyn hynod mewn hedd,  
 A threiddio i wlad gwynfyd, tir bywyd, trwy'r bedd :  
 I gael yn dragywydd gymdeithas na dderfydd,  
 Mewn didranc lawenydd, iach burffydd uwch ben,  
 Ac eilio caniadau ar dyner aur danau,]  
 Yn addas aneddau trigfanau'r nef wen,  
 Lle bydd y gyfeillach fyrdd mwynach, AMEN.

—◆◆◆—  
 ATEB I'R GAN UCHOD.

Ar y Mesur,—“*Breuddwyd ar ei hyd.*”

1

Y cyfaill nodedig caredig o ryw,  
 Sy'n hoffi gwlad lonydd Eifionydd i fyw ;  
 Yn eilio cerdd newydd, neu gywydd teg waith,  
 Athrawiaeth wrth reol hynodol hen iaith ;  
 Dan aden boddlondeb, cysondeb eu sail,  
 Yn rhodio heolydd a dolydd y dail,  
 Mewn adail man wydd ;  
 A'r adar yn canu, diddanu dy ddydd,  
 Eifondir y fendith dan fân wlith nef wen,  
 Tir eithaf toraethus, boed parchus ein pen ;  
 Aed cynen, llid cas,  
 I niwldew anialdir—o frodir mor fras.

2

O'r boreu tra thirion hyd hinion brydnawn,  
 Eiliasom gynghanedd, un duedd—un dawn ;  
 A buom dan fangoed a glasgoed y glyn,  
 Yn chwilio gorchwylwaith ein heniaith cyn hyn :

Rhwng Rhobert y prydydd a Dafydd fardd Du,  
 Rhyw ddifyr ddiafiach gyfeillach a fu  
 Wrth nyddu'r hen iaith ;  
 A dilyn hyd waelod myfyrdod wir faith ;  
 I mi yr ordeiniodd, e ranodd yr Ion,  
 Is haulfyd breswylfa, sefyllfa'n Sir Fon ;  
 Fy nwyfron fu'n wir  
 Alaethus hiraethus, anhwylyus yn hir.

## 3

O ddiffyg cymdeithas brawd addas ar dir,  
 Fy nghar a anghofiais, draw hunais dro hir ;  
 Dilynais ormodedd o faswedd yn f'oes,  
 Mewn einioes anianol, i'r grasol yn groes :  
 Ni fwriais fy oriau yn neddfau fy Nuw,  
 Ymdd'rysodd fy nwydau mewn rhwydau o bob rhyw  
 Er distryw pob dawn ;  
 Ni throediais waith rheidiol, y dduwiol ffordd iawn.  
 Yn Mon 'rwy'n dymuno, rhag rhodio'n ben rhydd,  
 Y nef a'm cynhalio yn effro yn fy nydd,  
 Hyd gaerydd y gwys,  
 Gan ddal fy meddyliau ar bynciau mawr bwys.

## 4

Mae yn y 'sgrythyrau daranau di ri',  
 Yn erbyn chwant amhur ein natur ddrwg ni,  
 E saif y diysgog odidog air doeth  
 Pan fyddo'r ddaiaren yn bellen wen boeth :  
 Mae hefyd gysuron i galon y gwan,  
 I'w ddwyn o'i holl wendid drwy lendid i'r lan,  
 I ddiddan wlad dda :  
 Y ddwyfol addewid byth newid ni wna ;  
 Diflana cysgodau bro angau ryw bryd ;  
 Yn lle y daiarol neu farwol wan fyd,  
 Cawn wynfyd y ne',  
 Mae'r brenin tragywydd yn llywydd y lle.

## 5

Rhyfeddol hawddgarwch, da heddwch Duw haef,  
 Mae'n rhoddi cadernid, mewn gwendid i'r gwael ;

A thestyn, maith ystyr, pob myfyr, ddawn maith,  
 A fyddo ei ryfeddol rinweddol fawr waith :  
 Ei fawl yn gyhoeddol bresenol y sydd,  
 Ac yn y gogoniant ei foliant a fydd  
     Dragywydd ar gân ;  
 Gan dorff baradwysaidd eglwysaidd lu glân  
 Rho'wn ninau'n enynol, ddifrifol dda fryd,  
 Ar bethau dirgelaidd nefolaidd ail fyd ;  
     A'r bywyd uwch ben :  
 Lle bydd y gyfeillach fyrdd mwynach, AMEN.

D. THOMAS.

---

MYFYRDODAU DIFRIFAWL.

---

Mesur,—“ *Leave Land.*”

1

Fy mrenhin, fy mhrynwr,  
 Gwiw rad, a'm gwardwr,  
     Fy nodded, fy nyddiwr, llywiawdwr pob lles,  
 Yn ddiddan, dros ddynion,  
 Tywalltaist, do, heilltion,  
     Ddiferion o finion dy fynwes.

2

Dy gariad, oen gwirion,  
 At annoeth blant dynion,  
     Swydd anwyl, sydd union arwyddion o ras ;  
 I'n dwyn o law angau,  
 Ni allodd picellau,  
     Na phoenau, dialeddau, dy luddias.

3

Nid oedd un creadur  
 Cu, moesol, cymesur,  
     Allasai roi cysur, mae'n eglur i ni ;



Na neb ond yr unig  
Iachawdwr parchedig,  
O'n cyflwr trancedig, ein codi.

## 4

Drwy ystyr ei dristyd  
A'i boenau, bob enyd,  
Fu'n dirwyn yn ddiwyd ei fywyd i fedd,  
Mi glywaf, yn ddilys,  
Ei lef yn wylofus,  
Dan bwysau anghymwys fy nghamwedd.

## 5

Ond er cael ei daro,  
Is haul, a'i groeshoelio,  
A'i roi mewn tir ango, a'i guddio fe'n gaeth;  
Ni allodd, er hyny,  
Y diawl a'i ddrwg deulu,  
Ddal Iesu ar wely marwolaeth.

## 6

Boed cof, yn wastadol,  
O'r dydd tra dedwyddol,  
Y daeth y buddygol Ior bywiol o'r bedd;  
Mae ef wedi esgyn,  
O gyraedd pob gelyn,  
I erfyn, gan ofyn tangnefedd.

## 7

Pe byddai fy mhechod,  
Cyn amled a'r tywod,  
Neu ser y nef uchod, nid gormod y gwaith,  
I ti Hollalluog,  
Er mwyn yr enciniog,  
Ei faddeu, Ior enwog, ar unwaith.

## 8

Mi af yn 'w'llysgar,  
Ar ddiwedd i'r ddaiar,  
Ond profi'n faddeugar, Duw hygar, dy bedd,

A chael yn flaenorol,  
 I'm henaïd anfarwol,  
 Dy nefol, ragorol drugaredd.

9

Dod imi lawenydd,  
 A heddwch na dderfydd,  
 A gafael o'r newydd, ar grefydd y groes ;  
 A chynal fi'n effro  
 Tra b'wyf yn ymdeithio,  
 Nad imi drwm huno drwy'm heinioes.

10

Pan dreulio fy nyddiau,  
 Anwadal fynyddau,  
 A dirwyn o'm horiau y boreu i ben,  
 Dwg yna'n dragywydd  
 Fy enaid, O Arglwydd,  
 I fawrlwydd iach ebrwydd uwch wybren.



## CERDD.

Mesur,—“Gwel yr Adeilad,” (*See the Building*).

1

Y Llywydd Hollalluog, twr geirwir, Ion trugarog, enwog  
 union,  
 Tydi sy'n gwel'd eithafoedd (mewn goleu) a dirgeloedd  
 dua'r galon ;  
 Tydi a roes ar Galfari, fy Ior tragwyddol, dy einioes rasol,  
 Mewn modd rhyfeddol, yn farwol dros of fi,  
 A'th waed i olchi 'mhechod dros byth o'th d' wyddfod di ;  
 Yn llon fe redodd is dy fron, rhyw afon hyfryd, sef, dwfr y  
 bywyd,  
 O archoll waedlyd a phenyd gwayw ffon,  
 'Rwy'n deisyf cael fy nghlirio (cyn imi huno) yn hon.

I

Nid oes un feddyginiaeth a'm dwg rhag damnedigaeth i  
le diogel,  
Na ffordd i'm diogelu, ond rhinwedd gwaed yr Iesu, a  
geidw'r isel ;  
Ei oes, dan y greulonaſ loes, a'i gorff santeiddiol yn aberth  
bywiol,  
Dan glwyfau marwol mor rasol yr ymroes ;  
I farw dau yr hoelion, ar bren y greulon groes :  
Dan glwy', gruddfanu ar Iesu'r wy', rhag ofn melldithion  
Y gyfraith gyfion am fyw'n afradlon nid oes un moddion  
mwy,  
I'm gwneyd yn gwbl berffaith oddiwrth eu heffaith hwy.

## 3

'Roedd yr aberthau gwaedlyd yn dangos Crist, bob enyd,  
dan ddirfawr boenau,  
Er hyn fe wyddai'r ceidwad cyn amser ei ddyfodiad ei  
ddyoddefiadau ;  
Pan fu, mewn loes, er mwyn ei lu, heddychodd ddigter y  
ddeddf a'i phurder,  
Gorchfygodd gryfder a nerth y dyfnder du,  
Pwrcasodd ini fywyd, mewn cyflawn wynfyd cu ;  
Gwir fraint, heb anghysurus haint, mewn gwledd na dder-  
fydd,  
O fewn i geurydd Caersalem-newydd, oes hylwydd fydd  
i'r saint,  
Ni wyr un dyn daiarol ei annherfynol faint.

## 4

Dyoddefodd bwys melldithion a gwaith y gyfraith gyfion,  
mae hyn i'w gofio,  
I'n dwyn o law cyfiawnder y gwisgodd Iesu'n dyner  
gnawd am dano ;  
Pob bai ddileuir yn ddilai, gan fod ei ryfedd briodoledd,  
Sef rhad drugaredd, trwy rinwedd heb ddim trai ;  
Yr Iesu blaenor Isr'el a geidw'r isel rai ;  
Drwy ddawn ardderchog, enwog iawn, mae hedd ym  
tarddu, i bawb sy'n credu,  
Dan aden Iesu, ein diogelu gawn,  
Yn ngwaed yr oen, mae rhinwedd, i olchi llygredd llawn

Yn wyneb barn ac angau, 'rwy'n gweled hyn mewn goleu,  
 nad wyf ond gwaeledd ;  
 Fy manwl wir ddymuniad yw profi, drwy dy gariad, rŵd  
 drugaredd ;  
 Os doi, Ior tirion i'm par'toi, bydd mawl tragwyddol i'th  
 enw grasol,  
 Am gael rhinweddol, effeithiol nerth i ffoi ;  
 I'r ddinas noddfa hyfryd a drefnwyd ini droi ;  
 Er 'gwyn y cnawd tylawd ei lun, y wir addewid sy'n a ldo  
 rhyddid,  
 Dan bob rhyw wendid hon yw cadernid dyn,  
 Mae'r gair yn cyd-olygu at hyny yn gytun.

## 6

O deuwch bechaduriaid, am ddiogelwch enaid, cyn eich  
 huno ;  
 Mae rhyddid i'r rhai caethion a noddfa i lofrt ddion gwael-  
 ion gilio ;  
 Pan ddel y gadarn farn ddigel y llyfrau cywir i gyd agorir,  
 Pob gwaith a brofir, llwyr siglir llawer sel ;  
 Pob llwyth, pob iaith, ac oedran, pob cryf, a gwan a'i gwel :  
 Clyw gri, oen Duw, fy enaid i, sef yn deisyfu cael ei  
 ddyrchafu  
 Yn fwyn i fyny yn mhlith dy deulu di,  
 I fawredd byd anfarwol tragwyddol frawdol fri.

## 7

Crist ydyw'r arch ysbrydol sy'n dwyn y rhai crediniol, dros  
 eirwon ddonau ;  
 E dreiddia drwy'r timestloedd hyd oror nef o diroedd, y  
 gorthrymderau :  
 I'r lan, fe gynal enaid gwan, er maint terfysgoedd, a grym  
 y dyfroedd,  
 Fe ddwg ei luoedd o'r moroedd, yn y man,  
 A safant mewn gorfoledd, a rhinwedd, yn eu rhan ;  
 Daw'r pryd bydd gwerth yr aberth drud,  
 Yn cael eu casglu, trwy gadarn allu, i fynwes Iesu, a'u  
 diogelu i gyd,  
 A'u sicrhau'n dragwyddol mewn annherfynol fyd.

## PENILLION

I wr ieuanc, yn canu'n iach i wlad ei Enedigaeth, pan oedd  
ar fyned i'r America.

## 1

Ffarwel, yn bresenol, i'm gwlad enedigol,  
'Rwy'n myn'd yn wirfoddol i fyw,  
Os gofal Duw cyfion a'm dwg yn gysurlon  
Dros donau'r môr eigion mawr yw;  
I dir anghynefin, pellafoedd Gorllewin,  
Hawdd gwybod nad diflin y daith,  
Tri deuddeg o ganoedd, yn gyflawn filldiroedd,  
Yw'r llwybr trwy'r moroedd tra maith;  
Ond gyda boddlonrwydd anturiaf yn ebrwydd,  
Dan ofal fy nedwydd fwyn Ior;  
I'r daith mewn sirioldeb heb ofni trychineb,  
Creulondeb llym wyneb y môr.

## 2

Os llwydda'n gysurol, fy ymdaith bresenol,  
A myn'd yn ddedwyddol i dir,  
Er hyny bydd hiraeth yn nglyn wrth naturiaeth,  
Am Gymru wen odiaeth yn wir;  
Am anwyl gyfeillion, a cheraint mwyneiddlon,  
Yn ngoror gwlad estron bob dydd;  
Fy serch yn dra pharod a meddwl diymod,  
Yn llenwi'r fyfyrdod a fydd;  
Gwlad Neptune lueddog arweinydd coronog,  
A *Bardus* gu enwog yn wir;  
Nid pellder y fordaith all ddiffodd holl effaith  
Fy nghariad at dalaeth eu tir.

## 3

Trysorau tra helaeth sy'n nwylaw Rhagluniaeth,  
Er trefnu cynhaliaeth i ni;  
Ei llwybrau sydd ddyfnion a'i rhyfedd ddirgelion,  
Yn esgor ar roddion di ri';  
Pwy wyr nad yw trefniad ei ddoniawl ordeiniad,  
Ar Gymru'n rhoi galwad yn gu;

Fel Israel o'i flinder pan ddaeth y cyfamser,  
 Bu nerthoedd y dyfnder o'i du ;  
 Gwir ryddid cysurol a heddwch sy'n fuddiol,  
 Tangnefedd mwyneiddiol mewn oes,  
 Mae ysbryd gelynol a llid bradwriaethol,  
 I'r ddwyfol gu reol yn groes.

## 4

Os digwydd im' symud i bellter bro alltud,  
 A chyraedd dedwyddydd o'r daith,  
 Blodeued tangnefedd, ar genedl bro Gwynedd,  
 A llwyddiant ar rinwedd yr iaith ;  
 Gwlad Arfon flodeuog a'i chynyrch gwych enwog,  
 A fyddo'n lluosog ei llwydd,  
 A Duw i'w hamddiffyn rhag cael ei goresgyn,  
 Na dyfod gau elyn i'w gwydd ;  
 A minau 'nol myned yn addas o'i nodedd,  
 Er mwyned lloneiddied fy nwy',  
 Mae'n debyg na ddigwydd i'm f'anwyl Eifionydd,  
 Dy weled er mawrlwydd fyth mwy.

## 5

Pe gallwn gyraeddyd tre' Efrog tra hyfryd,  
 A'r ffrwythlon dirionfyd sydd draw ;  
 Eiddunaf ar fyrder os gwelaf yr amser  
 Na cherddaf dir Lloegr rhag llaw ;  
 Nid ydyw'r byd isod, amserol, ond sorod,  
 A'i drysor i ddarfod ryw ddydd ;  
 Ond teyrnas ddiffuant gu, anwyl gogoniant,  
 I'r duwiol yn feddiant a fydd,  
 Gobeithio cawn eto er gorfod ymadø,  
 Ail uno i gyd-byncio uwch ben  
 Ogoniant diddiwedd i'r oen am ei rinwedd,  
 Yn ngwyddfod y Mawredd, AMEN.

## ANERCHIAD

Y Dr. E. P. ANWYL, Bryn Adda, gerllaw Dolgellau,  
Hydref 31, 1825.

1

Y Doctor Price Anwyl, 'rwy'n disgwyl y daw  
Hyd atoch yn fusgrell fy llinell o'm llaw,  
I wneyd y Penillion, pur foddlon wyf fi,  
Os parant ddywenydd gwych, hylwydd i chwi.

2

Chwi roisoch gynghorion i gleifion ein gwlad,  
A pharod gyffyrïau, lwys oleu leshad ;  
A'ch ffordd yn dra medrus i'r rheidus eu rhoi,  
A deifl bob afiechyd a phenyd i ffoi.

3

I Ddoctor synhwyr gall mewn deall a dysg,  
Sy'n atal clefydon, fel moddion, i'n mysg ;  
Nid ydyw cân benrydd un arwydd i ni,  
Ond megys coeg ddirmyg ei chynyg i chwi.

4

Os medraf wrth ganu enynu fy nawn,  
A'ch cael i Eifionydd fawr, lonydd fro lawn,  
Cewch bob rhyw groesawiad, hoff roddiad yn ffri,  
A bir o'n haberoedd a'n llynoedd yn lli.

5

Gadewch y Ddolgellau a'i maglau, wr mwyn,  
A deuwch wrth reol fesurol fy swyn ;  
Cymerwch eich rhyddid rhag gwendid i'm gwaith,  
Na fyddwch anfoddus, wr dawnus i'r daith.

6

Cewch wel'd o Garnfadryn i'r Moelwyn, dir maith,  
Yr Eifl a'r Eryri yn wisgi'r un waith ;

A gweled y llongau dan chwarae'n dra chwyrn,  
Yn myn'd tan eu mentyll, mal cestyll eu cynn.

7

Cawn olrhain hen achau ein tadau'n gytun,  
Cawn ddarllen Cywyddau ben boreu bob un,  
Os rhodiwch ein trefydd a'n broydd mewn bri,  
Gwel'd pont y Borthaethwy a Chonwy gewch chwi.

8

Cawn ddifyr ymgomio, a rhodio'n ben rhydd,  
A son am farddoniaeth, dda doraeth, bob dydd;  
A chlywed yr adar mor gerddgar yn gwau,  
Ar finion afonydd, rhwng dolydd, ein dau.

9

Cewch gerdded o gwmpas, mewn urddas, yn iach,  
Cewch hela 'sgyfarnog dra bywiog, dro bach,  
Cewch ganlyn yr enwair heb anair yn bod,  
Os ceir at y tymor uwch Dwyfor eich dod.

10

Os ceiff fy anerchiad wrandawriad ar dir,  
Cewch amryw gymdeithion enwogion, yn wir,  
A pheth sydd ryfeddach, nid hwyrach, at hyn,  
Cewch glywed per araith da waith Dewi Wyn.

## Y PENILLION ISOD

A wnaed a'r ddeisyfiad Owen, Llanddeiniolen, i ofyn Siwmp,  
(Coat,) gan Syr Edward Llwyd.

1

Syr Edward Llwyd ardderchog sydd gâr i'n marchog mwyn,  
Hyd atoch chwi wr mwynaidd y dof a'm gwaeledd gwyn;  
Chwychwi sy'n meddu digon, a moddion fwy na mwy,  
A minau'r gwan crwydredig, tylawd ac unig wy'.



Eich parch sydd yn gyhoeddol, ryglyddol drwy bob gwlad,  
Am amllder rhwydd eich rhoddion i weinion yn ddiwad ;  
A rowch chwi'n hygar Hugar, i'r truan, oreu trefn,  
Un fuddiol i'w lawn foddio a dalo i guddio ei gefn?

. 3

Mae son am eich haelioni yn dwyn eich bri ger bron,  
A'ch clod sydd yn gyhoeddol, a siriol yr oes hon ;  
A hyn a fydd i'ch enw yn barch ac elw gwiw,  
A phawb yn dweyd am danoch, poed hir y byddoch byw.

RHAN III.

---

AWDLAU, CYWYDDAU,  
AC  
ENGLYNION ATHRAWIAETHOL, &c.



# AWDLAU, &c.



## COFLANT BYR

AM JANE ELIZABETH WILLIAMS,

Unig ferch ac Etifeddes R. ab Gwilym Ddu, yr hon a fu farw o'r Darfodedigaeth, Tach. 3, 1834, yn ddwy flwydd ar bymtheg oed.

OCH! gur, pwy fesur, pa faint  
Yw 'nghwya mewn ing a henaint!  
At bwy tro'f yn fy ngofid,  
A chael lle i ochel llid?

Angau arfog, miniog, mawr,  
Ar ei gadfarch ergydfawr,  
Wele yma carlamodd,  
A'i rym ar egni a r'odd;  
Torodd i lawr, drwy fawr feth,  
Ein diddig, unig eneth;

A mynodd hwnt o'n mynwes,  
Enaid a llygaid ein lles:  
Nid oes, ni fydd, yn oes neb,  
Resyni'n fwy croesineb.  
Y fi, lwydfardd, wyf ledfyw,  
Mawr ei boen, rhwng marw a byw,  
Dirdynwyd ni'n dra dinam,  
Oerodd gwres mynwes ei mham;  
Wylu yr ŷm lawer awr,  
Diau wylwn hyd elawr;  
Ow! Sian fach, mae'n syn fod,  
Ein t'wysen mewn tŷ isod!

Dwfn guddiwyd, ataliwyd hi,  
 Y man na welwyf mo'ni ;  
 Llwch y llawr, yn awr, er neb,  
 Sy heno dros ei hwyneb.  
 Nid oes wên i'w rhieni  
 Ar ei hol, er nas gwyr hi ;  
 Ni ddodir gair toddadwy  
 Byth o'r Berch i'm anerch mwy.  
 Och, olwg wel'd ei chelain,  
 Erchwyn oer, wrth arch ei nhain.

Ymholais, crwydrais, mewn cri,—och alar !  
 Hir chwiliais am dani ;  
 Chwilio'r celloedd oedd eiddi,  
 A chwilio heb ei chael hi.

Gwywais o geudeb wel'd ei gwisgiadau,  
 Llanwai y meddwl o'i llun a'i moddau,  
 Dych'mygion gweigion yn gwau—a'm twyllodd ;  
 Hynod amharodd fy ngwan dymherau.

Ei llyfrau, wedi ei llafur odiaeth,  
 I'm pan eu gwelwyf mae poen ag alaeth ;  
 Llawn oedd mewn darlennyddiaeth,—a hyddysg,  
 Cref iawn o addysg mewn 'sgrifenyddiaeth.

Och ! arw son, ni chair seinio—un mesur,  
 Na musig piano ;  
 Mae'r gerdd anwyl yn wylo,  
 A'r llaw wen dan grawen gro.

At byrth\* Cawrdaf af o Eifion—i lawr,  
 Dan ddoluriau trymion ;  
 Briwiau celyd, braw calon,  
 Llwyth mawr ynt yn llethu 'mron.

---

\* Eglwys y Berch, neu Abererch, lle ei claddwyd, a briodolir  
 i St. Cawrdaf.

Ochenaïd uwch ei hanedd——a roïsom,  
 Mae'n resyn ei gorwedd ;  
 Lloer iefanc mewn lle rhyfedd,  
 Gwely di barch—gwaelod bedd.

Ow! Sian, ymorphwys enyd——o'n golwg,  
 Yn y gwely priddlyd,  
 Gair a ddaw i'th gyrhaeddyd——o'r dulawr,  
 I faith, faith, lonfawr, fyth fythol wynfyd

Pan fo'r bedd yn agoryd,  
 Ddydd barn, ar ddiwedd y byd,  
 Daw'r llwch o'r llwch bob llychyn,  
 Er marw, ar ddelw yr ail ddyn.

Ow! Sian fach, bellach ni bydd  
 I ddoniau fawr ddywenydd ;  
 Gruddfan, mae f'anïan, wrth fod,  
 Ar abell, un awr hebod.

Y peswch marwol, pwysig,  
 Fu'n erlyn i'w derfyn dig ;  
 Poethi ac oeri i gyd,  
 A'i blinodd, bob ail enyd ;  
 Chwys afiach, a chas ofid,  
 A'i grudd fach dan gryfach gwrid ;  
 Pob arwyddion, coelion caeth,  
 A welid o'i marwolaeth.  
 Llawer dengwaith, drymfaith dro,  
 Tra sylwn—tro'is i wylo.  
 Byr oedd hyd ei bywyd bach,  
 Oes fer,—Ow! be sy fyrach ?  
 Goleu y rho'dd eglurhad,  
 Hoff a rhyfedd o'i phrofiad.  
 Daliodd, o dan bob duloes,  
 Hyd ei holaf, lymaf loes ;  
 A'i gwaedd bur yn gu ddibaid,  
 I'r lan, ar ran yr enaid ;  
 Cyflwynodd o'i bodd tra bu,  
 Ef i lwys ofal Iesu ;

A dewis ymadawiad,  
Adre' i glir dir ei gwlad.

Gwlad rydd, a golud o ras,  
Gwlad gyflawn o diriawn des ;  
Gwlad ddiangen, lawen lys,  
Gwlad y gwir, a hir ei hoes.

Cael tragwyddol gyd-fofi,  
Mewn eilfyd, hyfryd â hi,  
A'n lle fry yn nhŷ fy nhad,  
Amen, yw fy nymuniad.

---

## COFFADWRIAETH

AM MR. J. R. JONES, GWEINIDOG Y BEDYDDWYR  
YN RAMOTH, &c., SWYDD FEIRION,

Yr hwn a fu farw Mehefin 27, 1822, yn y 57 flwyddyn o'i  
oedran. Bu yn Weinidog diwyd a llafurus 34 o flynyddoedd.

---

“Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti â'r wraig, a rhwng  
dy had di a'i had hithau.”—*Duw.*

“A phawb ar sy yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist  
Iesu a erlidir.”—*Paul.*

“A chas fyddwch gan bawb er mwyn fy enw i.”—*Crist.*

“Er dy fwyn di yr ydys yn ein lladd ni.”—*Dafydd.*

“Ond ni chyll blewyn o'ch pen chwi.”—*Crist.*

“A gwybyddwch na syrth dim o air yr Arglwydd i'r ddaear.”—  
*Elias.*

“COFFADWRIAETH Y CYFLAWN SYDD FENDIGEDIG.”—*Solomon.*

---

Cwynaf ac wylaf o galon,——dostur,  
A distaw och'neidion ;  
Trwm ofid, tramwy Eifion,  
A gwraidd briw mewn grudd a bron.

D'rysu'r wyf, am drosi'r hin,——oll, heno,  
O'i llinell gysefin ;  
Trwm hefyd droi Maihafin,  
I rew blwng yr Ionawr blin.

Y wir ddawn a urddunwyd ;—Ow'r em aur,  
 O Ramoth a gollwyd !  
 Fyth, Meirion, fe'th amharwyd,  
 Coeliaf y son, clwyfus wyd.

Colli'r Athro! do, gwae ni o'r dydd—hwn  
 Huno'r prif ladmerydd ;  
 Och! arwain dan ei cheurydd,  
 Seren i'w phell siwrnai ffydd ;  
 Pwy i'n bro, pan y b'ai raid,  
 Uwch Sion mewn achos enaid ?  
 Pen ei oes, Ow! pwy na wyr ?  
 Braw son yn briwo synwyr :  
 Prudd yw gwedd y praidd, a gwael,  
 Gwedi iddo eu gadael :—  
 Dienill i fyd annuw ;  
 A gloes ddofn i eglwys Dduw ;  
 Ow! duodd ei blodeuyn,  
 Rhy drech i Harlech oedd hyn ;  
 Mewn du rych—mewn daer roth,  
 Trymaf! hen fynwent Ramoth.  
 Mae'n wir ni ddiheudir hyn ;  
 Lle nychlyd yw Llanuwchllyn.  
 Och! drom, ni chair ymgomiaw,  
 Na difyr lythyr o'i law ;  
 Oh! daliodd angau dilyth  
 Yn y bedd, ei enau byth.

Bu'n ganwyll uwch ben Gwynedd,—do, Ow! 'mrawd

Mae'r hedyn yn gorwedd :  
 Dienaid yw dy anedd,  
 Gwywyd fi o gau dy fedd.

Mor dawel oedd ein helynt,  
 Wrth ddysgu cyd ganu gynt ;  
 Pybyr, a difyr ein dau,  
 Lliosem, braidd, bob lleisiau ;  
 Trin egwyddor puroriaeth,  
 Ar oleu gerdd, reol gaeth ;  
 Hwyr aros, lawer noson,  
 I gyraedd dull gwraidd y dôn.



Ond er ffraeth wybodaethau,  
 Ber yw hynt dyn i barhau ;  
 Dirwyn mae'r cnawd i orwedd,  
 Nes-nes i fynwes ei fedd.  
 Mae'n bri eleni ar lawr,  
 A fu gynt ein prif gantawr :—  
 Wele i'n oll wylo'n awr ;—Och ! hydrais,  
 Dwyn y pereiddlais o dan y priddlawr.

Arddelwodd fusig, urddol ddyfeisiau,  
 A mynai agoriad mwyn gyweiriau :  
 Dawn Eden, ei don nodau--engraffawl,  
 Cafwn sydd ddidawl, cyfansoddiadau.

Efe a iawn wyddai ddifnyddiaeth,  
 O wiwber ddywenydd, a barddoniaeth :  
 Hoffus agorai drefn Phisygwriaeth,  
 A uniawn weddai i anianyddiaeth ;  
 Dull hylwydd,—deall helaeth,—i'w rhoddi,  
 A'r modd i'w gweini er meddyginiaeth.

O b'ai ôl angen yn blingaw——gwerin,

Agorai ei ddwyllaw :  
 A gwen hael, heb gynhilaw,  
 Rhwydd i lesg f'ai rhodd ei law.

Abwydau gwaelion byd a ogelodd ;  
 Mamon annichon, hwn ni chwenychodd !  
 Gw'radwydd Iesu, drwy gred a ddewisodd,  
 Am y dra uchel gamp yr ymdrechodd ;  
 Diwyredig, da rodiodd—tra fu fyw ;  
 Da y gwyr heddyw'r nôd a gyrhaeddodd.

A didawl fwriad y da lafuriodd,  
 Ef drwy ei alwad, ac ni fudr elwodd.  
 O wyddorion y byd ymddiheurodd :  
 A'i gau ofergoelion rhwysgfawr gwiliodd.  
 Gwobrau na meflau'r un modd,—o'i orchwyl  
 Yn ei law anwyl yma ni lynodd.

Dwyn o'i gell waith doniawg wyr,  
 Ieithedig hen ddoeth awdwyr :

Mewn ffraethineb, neb yn uwch,  
Ni bu gôf neb ogyfuwch.

Pwy yma'n meddu pumiaith,—cywirach  
Yn caru'r Omeriaith?  
Duwiol awdwr dilediaith,  
Goreu rym fu'n geirio'r iaith.

Agor enaid y gwirionedd,  
I'w wrandawyr o iawn duedd,  
A'i Dduw'n arwain ei ddawn eurwedd,  
A gair miniog yr amynedd.

Ynillai aur gnewyllyn,—nef fwnai,  
O fynwes pob testyn:  
Arddelwi'r gair a'i ddilyn;  
Bugail da, heb goelio dyn.

Hoenwych ddodawdd hen iach addewidion,  
O'r pur wirionedd i'r pererinion;  
A pharodd alar i'w gyd fforddion,  
Yma, ddydd einioes, am ei ddiddanion.

Ond braidd bychan, gwan, gwena,  
Ei alwad oedd yn elw da:  
Cyfaddas cofio heddyw,  
Mae eto'n prif athro'n fyw.

Yn foreu, diau y daeth,  
Wr dilys, i'r frawdoliaeth:  
Tristyd, dros fywyd a fu,  
Am i hwn ymwahanu,  
A didol o ganol gwyr  
Niferadwy, hen frodyr.

O raid—neillduaw'r ydoedd,  
O ran cydwybod yr oedd;  
Dilynai'r duwiol enaid,  
Y ddwyfol reol oedd raid.

Gair Duw oedd ei greddo ef,  
Hyd a wyddai, rhaid addef,

Anhepgor egwyddorion,  
Ei lafur iach, o lyfr Ion.

Didol pob traddodiadau——anianol,  
Yn wyneb erlidiau ;  
Byw ar y gwir—beio'r gau,  
Ydoedd ei ymroadau.

Ow! poenwyd eigion ein pen diwygiwr,  
Oh! gan oes wyrwg,—heb neb yn gysurwr ;  
Ei enw, a gwaradwydd, fel pob iawn gredwr,  
A fwriwyd allan, fal ofer dwyllwr,  
Ond beunydd Dofydd fu'n dŵr,—yn unig  
I gysegredig was ei greawdwr.

Hir drafaeliodd, o'i fodd, faith,  
Ddaiar Gwynedd oer ganwaith ;  
Wr enwog, ni fachogai ;  
Eithr ar droed, erioed, yr âi,  
Ei fynych daith gyfanedd,  
Ar bob hin, hyd fin ei fedd ;  
A phwys maith y gwaith i gyd,  
Fu achos o'i afiechyd.  
Arweddai'r llestr pridd diddim,  
Drysawr rydd na dderfydd ddim.

Hwyr weithian a hiraethol——yw nyddiau,  
Fwyneiddwr mynwesol ;  
Coffhau d'eiriau awdurol,  
Er dim, a fynaf ar d'ol.

Ymddaliodd fy meddyliau,——ei reddfol  
Arwyddfawr bregethau ;  
Caif hen ardderchawg goffhau,  
Hyd oes dyn, ei desdynau.

Seliodd i'w ol oesolion,  
Hoffus air y gyffes hon ;  
"Fod cymwys ymorphwysiad,  
"Ei was mwyn ar Iesu mad ;

“ A’i Iawn cu, ei unig hawl,  
 “ A phoenau’r gwaith gorphenawl :  
 “ Y mor o waed, mawr ei werth,  
 “ Wynebir yn ei aberth.”

Cenad wèn ar adenydd,  
 I’th alw ddaeth i oleu ddydd ;  
 “ Dwyre frawd,—ïe, ar frys,  
 “ Hon yw d’awr,—hwy nid crys.”

**BYW.**—Ai draw y glaniaist o dir gelyniaeth ?

**MABW.**—Ië, i wir feddi’r fawr orfodaeth.

**BYW.**—Fry dy ddydd—O ! frawd a ddaeth,  
 A thrwydded,  
 I feddu gweled y fuddugoliaeth.

I’th le at berffaith lios,  
 “ Da, was da, medd Iesu, dôs  
 “ I breswyl fy anwylion,  
 “ I fwynhad fy nêau hon ;  
 “ Ofni trueni nid rhaid,  
 “ Neu dòn i fino d’enaïd.

Llyna fan mae’n llawen fod,  
 Fardd sereiff, fro ddisorod,  
 Dysg dithau dôn nodau nef,  
 Llafar gân llyfrau gwiwnef,  
 Pe clywn sain d’arwyrain rydd,  
 Adwaenwn dy awenydd.

O ! lawened y loewnef,  
 Uno dawn â’i enaid ef,  
 I’r Awen, yn un, Ior mad,  
 Mae’r enw yn ddiymraniad.

Anthem gu, na bu ei bath,  
 I Dduw a’r oen, yn ddi rith ;  
 Achwyn i’w mysg,—Och ! na meth,  
 Uwchlaw’r bedd ni chlywir byth.

Yn fyrdd gwell, ar gân bellach,  
 Gweined ef ag enaid iach,  
 Rhyfedd, ddiddiwedd awen,  
 Mwyn y mawl, Amen, Amen.



## COFFADWRIAETH

AM MR. JOHN WILLIAMS, PERORIAETHYDD,  
 Gynt o Ddolgellau, yn Meirion, yr hwn a fu farw Mawrth  
 11eg, 1821.

Per fwsig uwch prif oesoedd,—adwaenir,  
 A'i dônau 'mhob lleoedd ;  
 Hoff rediadau'n ffrwd ydoedd,  
 Hynod o lawn, Handel oedd.

Fe roddes gedyrn fawr addysgiadau,  
 I luoedd daiar, Ogledd a Deau ;  
 Ilenwn iaith Omer hi yn anthemau,  
 I dduwioledig waith addoliadau ;  
 Dywenydd yw ei dônau,—a rhyfedd  
 Wyrth hir ogonedd ar nerth organau.

Diboen o hyd y bu'n hau,  
 Rif y ser o fesurau ;  
 Adwaenai a phrosai'n ffraeth,  
 Rinweddau'r awenyddiaeth :  
 Ein hyder gwiwber a'i gwel  
 Yn diengyd, ein da angel,  
 I fan ei chynefinoedd,  
 Aeth y gân—can's benthyc oedd.

Fel mae clod yn bod, y bydd—ogyfuwch  
 I gofio'n hathrawydd ;  
 Bri'r ethawl beroriaethydd  
 Trwy gred oll, tra gwawrio dydd.

## COFFADWRIETH

AM MRS. ANNE EVANS, PRIOD MR. JOHN EVANS,

ABERERCH, EIFIONYDD ;

Yr hon ydoedd ferch Mr. John Owen, Crafnant, Llanfair, yn  
Meirionydd ; bu farw Ebrill 8, 1818. Ei hoedran 34.

---

“ How lov'd, how valu'd, once, avails thee not,  
To whom related, or by whom begot,  
A heap of dust alone remains of thee,  
'Tis all thou art—and so the proud shall be.”

---

Och! wylo bum uwchlaw bedd,  
Un gywiraf fu'n gorwedd ;  
Er o'i hol wylo'r heli,  
Galon hael, nis gwelwn hi ;  
Ow! myned heb ymanerch,  
Obry i ro Abererch.  
Dygydd trist i'r gym'dogaeth,  
A phraw dwfn i'w phriod aeth ;  
Lleyn drist sydd a llen drosti,  
O deuodd awr ei dydd hi ;  
Braw o fewn bro Eifionydd,  
A thrist fron i Feirion fydd ;  
Y dirion fam, drwy iawn fodd,  
Ei theg wr, doeth a garodd.  
A'i theulu mân, dianaf,  
Yn bedwar cymar eu caf,  
I gychwyn, mewn teg iechyd,  
Druain bach, dan droion byd ;  
A Duw'r hedd hyd fedd, efo,  
Yn yr iawn a'u harweinio.  
Diau mae gwael flodeuyn,  
Byr ei dwf, a brau'w dyn ;  
Yn wyneb terfyn einioes,  
I estyn awr dyn nid oes,  
Na thir cudd, i'n, na thwr cau,  
I ddiengyd yn nydd angau ;

Y fun hael oedd fwyn i'w heinioes,  
 Hunodd yn mlodau ei hoes,  
 I weiniaid, pwy adwaenodd,  
 Un lloer hael, fai'n well ei rhodd?  
 Bri hon a gaiff hir barhau,  
 Synwyr ac elusenau;  
 Mwyn oedd, ac amyneddol,  
 Hynod ei pharch, di nwyd ffol,  
 Cysur difesur a fu,  
 A thawelaidd i'w theulu.

Er trymed y golled gaeth,  
 Weled awr ei marwolaeth;  
 Buddiol i'n yw boddloni,  
 Ys Duw a wnaeth, disdawn ni.  
 Treuliodd ei hoes yn foesol,  
 Ni chair, ei hanair, o'i hol;  
 O Feirion i Eifionydd,  
 Y daeth yn morau ei dydd;  
 Yn wraig dda,—un rywiawg ddoeth,  
 Iach, ifanc lawn ei chyfoeth.

O Grafnant, mwyniant ei modd,  
 A'u rhyw enwog yr hanodd;  
 Daliwn hyn, dilyn ei hach,  
 Mi a allwn yn mhellaeh;  
 O lin i lin, hyd flaenawr  
 Tudur mwyn, a'r Tewdwr mawr,  
 Nid pell, yn y llinell hon,  
 Glana, llaif, yw'r Glyn llifon;  
 Ac arch Ddeon Meirionydd,  
 Gwr o ddawn, gorau i'w ddydd.

Oferedd i'm fyfyriaw,  
 Ar wych drefn yr achau draw,  
 I ddaiar gudd dan ddor gau,  
 Heb ochel daw pob achau.

Er wylo'r dagrau heli,  
 Ein chwaer hon, gwn na chair hi,  
 Wele byrth anfarwol bau,  
 Uwch annedwydd och'neidiau;  
 Lle mae'n hyder tynerawl,  
 Ei bod fyth mewn byd o fawl.

Dringwn, ehedwn yn hy'  
 Drwy wybren o dir obry ;  
 Yno ei cawn, o fewn cor,  
 Heb len, ar wedd ei Blaenor ;  
 Clywn sain tra chywrain ei cherdd,  
 Dysgwn ei Pharadwysgerdd ;  
 Tonau rhwydd, tanau rhuddaur,  
 Dwy law noeth, ar delyn aur !  
 Y byd, a'i lwgr enbydol,  
 A phoenau'r angau ar ol :  
 Diau'r chwaer, dan ei choron,  
 Onid hardd yw enaid hon ?  
 O rhodiwn, fel mae'n rheidiol,  
 I fro'r hedd fry ar ei hol,  
 Diau, yr awn, wedi'r oes  
 Ar ol Ann, i'r ail einioes.



## COFFADWRIAETH

AM MR. D. RICHARDS, neu DAFYDD IONAWR,

GYNT O LANYMORFA,

Gerllaw Tywyn, Meirionydd, Bardd gorchestol, moesol,  
 a dysgedig ; Awdwr Cywydd y Drindod, Dwr y Dylif, &c.  
 Bu farw Mai 11, 1827, ac a gladdwyd yn mynwent Del-  
 gellau ; ei oedran 75.

“HWY PERY CLOD NO GOLUD.”

Gwyfo'r wyf—gwae fi o'r awr  
 Y llynedd golli Ioanawr ;  
 Beth a wnafar ol Dafydd ?  
 Mae'n syndod ddarfod ei ddydd !  
 Deuodd i mi dywydd mawr,  
 Eleni ar ol Ionawr ;  
 Dydd o niwl—deuodd y nos,  
 Dydd ochain—on'd oedd achos ?



Aethus amorth ei symud,  
 Braidd, in' fyw, a'n bardd yn fud ;  
 O'i ol od awn i wylo,  
 Uwchlaw ei fedd, ni chlyw fo ;  
 O gofynwn gyfunair,  
 Ni ddaw dim ; ni ddywed air.  
 Y marw at farw a fwriwyd,  
 Synu'r ym os Ioanawr wyd ;  
 Ow ! Meirion lwys—mae'r hen wlad  
 Am Ddafydd yn ymddifad ;  
 A drwg ei fod a'i drigias  
 Mewn glyn, o dan y maen glâs.

Y prawf o'i waith pur—a fydd  
 I'r ail dŵf, ar ol Dafydd,  
 Er cof am wyrth Jehofa—  
 Mewn helaeth farddoniaeth dda ;  
 Mae'n annawdd in', mewn uniaith,  
 Gael cryfach, amgenach gwaith,  
 A'i beraidd enw—bardd Ionawr,  
 Erys fyth, hyd yr oes fawr ;  
 Ni adawodd—ddyn duwiol,  
 Dafydd, ei elfydd o'i ol.

Mwy ei rym na Homer oedd,  
 Llên Athen, llawn o ieithoedd ;  
 Helicon ffynon hoff wawd,  
 A drosodd ei dwr isawd ;  
 Ac O ! mawr waedd Cymru wen,  
 Ow ! ddu niwaid ddwyn awen.

Braidd yn iach un o'n beirdd ni,  
 Drwy oror gwlad Eryri,  
 Gwel'd yr ym y glod a'r iaith,  
 Mewn dim, yn myned ymaith :  
 Sarhau y gerdd—sy er gwaeth,  
 A braw ddwyn ein barddoniaeth.

Och ! Wynedd, yn iach, wenu,  
 Ni bydd dawn yn y bedd du,  
 Yr awen ber yno baid,  
 Eithr hyn ! ni thaw yr enaid ;  
 I'r wreichionen ddibenid,  
 Nid yw boen newid ei byd ;

Aeth hon i lon oleunef,  
Ar oes hir i'w aros ef.

MR. D. RICHARDS, a MR. G. OWEN.

Gwybydded y darllenyydd mai ar gyfer yr un amser o'r flwyddyn y ganwyd Mr. D. Richards a Mr. G. Owen, sef yn mis Ionawr; a dyna yr achos iddo gyfenwi ei hun yn Ddafydd Ionawr, &c. Am hyny y dywedai R. ab Gwilym Ddu fel y canlyna:

Caed blodau gorau ac aeron——gynau,  
Yn ein Gwynedd ffrwythlon;  
Ganwyd Ionawr mawr Meirion  
Yr un mis a Gronwy Mon.

Dywedwyd fal hyn ar ol Mr. Gronwy Owen, o herwydd na wyddis yn sicr yn mha le y claddwyd ef; rhai a ddywedant mai yn Llan Andreas, Virginia; ereill a wrthddywedant hyny;—ac felly methwyd a chael iawn wybodaeth hollol, er maint a ymholwyd am y lle mae yn gorwedd, hyd yn hyn.

Am Oronwy mawr rinwedd——Mon a geir  
Mewn garwaf ddihinedd;  
Yno coffeir ei anedd;  
Ow! 'mha fan y mae ei fedd?

## COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR FARDD GODIDOG,  
DEWI WYN O EIFION,

Yr hwn a ymadawodd o'r fuchedd drancedig hon, Ionawr 17, 1841, yn 56 mlwydd oed. Rhoddwyd ei ran farwol i orwedd yn Mynwent Llangybi.

Gwae! oror wag Eryri,——gwae ganoedd,  
Gwg Ionawr ddaeth ini;  
Och! Wynedd yn iach enwi,  
Iaith na dawn i'th awen di.

Gyrwyd i ni flaguryn—o ardd Duw,  
 Iraidd deg blanhigyn,  
 A'r nodd a rodd o'i wreiddyn,  
 Yw da waith ein Dewi Wyn.

Tyr Eifion ei bron am ein brawd,—a'i gwaedd,  
 Mal gweddw am briawd ;  
 Gwae randir hon gan gryndawd,  
 Mawr dy loes, hen Gymru d'lawd.

Mae'r enaid yn merwino,—am Ddafydd,  
 Ymddifad wyf hebddo ;  
 A'r galon bur yn curo,  
 A hir ddeil o'i herwydd o.

Gwae fi, rhaid boddi dan bwys,—poen gyfyng,  
 Pan gofiwyf ei orphwys ;  
 A dëoliad y wiwlwys  
 Awen o'r Gaerwen i'r gwys.

Gwyddom am ei gywyddau,—a gwiwdeb  
 Ei gedyrn linellau ;  
 Pob cydsain gywrain yn gwau  
 Anadlant yn ei awdlau.

Dawn Eden a'i dynododd,—uwch ereill,  
 A chywrain ymadrodd ;  
 Dilafur y dylifodd,  
 Yr iaith o'i ben wrth ei bodd.

Hwn fydd mawr bob awr tra bo,—urdduniant  
 I farddoniaeth Cymro ;  
 Er bedd erchyll, dywyll do,  
 Ei enw ni chuddir yno.

Ar fyd beirdd anorfod ben,—mawr ydoedd,  
 Ymerawdwr Awen ;  
 I'w ddyddiau ofydd addien,  
 Gyfar hardd i Gomer hen.

Mewn gorhoen o'i boen ddybenawl,—o'r ing,  
 Drwy angau'n fuddugawl ;—  
 Unodd ei gerdd awenawl,  
 A beirddion gwynion y gwawl.

## COFFADWRIAETH

AM SION ROBERTS Y BARDD, ALIAS SION LLEYN,

Yr hwn a drengodd Mai 7, 1817, yn 68 oed.

Gwae L'ŷn, nid gwiw eleni,  
 Eithr du oll yw'th awyr di ;  
 Pa dymestl ddiiddestl a ddaeth  
 Ar dir dy briodoriaeth ?  
 Dilewyd anadl awen,  
 Ys yw'r bardd a'i oes ar ben ;—  
 Mae'r iaith wedi marw, weithion,  
 Er y sydd o bu farw Sion ;  
 Wylais swrn, pan glywais, O !  
 Ddwyn awen i Ddeneio.\*

Mae'n alar am anwylyd,  
 I'w hoff ddyweddi o hyd ;  
 Och ! wael fun, uwchlaw ei fedd,  
 Wylo dŵr wel'd ei orwedd ;  
 Hunaw o Sion, hyny sydd  
 Wae o fewn i Eifionydd ;—  
 Ei fywyd, o'r byd i ben,  
 Ddifodwyd gan Ddafaden ; †  
 Gwae fi aros gyferyd,  
 A'r bedd i gyniwair byd.  
 Dyn oedd am adnewyddu  
 Y gerdd fwyn i'r graddau fu ;  
 Ymroadur mawr ydoedd,  
 A dwfn ei fyfyrdod oedd.

Ni ddeil awen o ddwylaw  
 Angau trwm i ddiengyd draw ;  
 Pe f'ai urddawl, pa farddas,  
 A dry fin ei gleddyf glâs ?  
 Hen addysg awenyddol  
 A saif i rai fo ar ol ;  
 Emynau teg awdlau gynt,  
 Cofnodau cyfain ydynt :

\* Enw yr Eglwys lle claddwyd ef.

† Dafad Wyllt

Ardderchog, oediog awdwr,  
O'r hen feirdd yr hynaf wr ;  
Ond bid un yr oed y bo,  
Duw a fyn wneyd a fyno.

Na ymyrwn â'n marwol  
Ddyn hwn,—na wylwn o'i ol ;  
Ffyddlawn a boddlawn y bu  
Yn ei oes dan iau Iesu ;  
Marw ! mawr elw yr alwad,  
I'w ddwyn fry i dŷ ei dad,  
I wau cu odlau cydlef  
A llon awenyddion nef !  
Cai'r Ion yn foddlon i fawl,  
Llais brawd y llu ysbrydawl  
Iddo ef, cyd addefant,  
Y mawl ar bob dwyfawl dant ;  
Prydant am y priodwaed,  
Yr un gerdd am rin y gwaed ;  
Yno Sion, fu'n was anwyl,  
Gwedi ei gur caiff gadw gwyl.



## COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR BARCH. JOHN JONES,  
Gweinidog yr Efengyl yn Nefyn, &c., Swydd Gaernarfon.  
Bu farw Rhagfyr 31, 1826

YR oedd Mr. J. Jones, yn ddyn ieuanc prydferth, genedigol o Swydd Garedigion, o ymarweddiad moesol, a diargyhoedd ; o ran ei ddawn yn boblogaidd ac yn hynod o lithrig a hyawdl ei ymadrodd,—yn bregethwr treiddgar a deallus ar ei destynau, ac yn cael ei ystyried fel dyn tra chyfrifol gan bawb yn gyffredin,—hefyd yn deilwng o amgen cofiant o lawer na'r mawrnad byr hwn. Ei oedran 29.

Briw dur a dolur dilon,—eirf angau  
Ow'r efengyl dirion ;  
Brad gwelwch !—briw hyd galon  
Im' er y sydd—marw yw Sion !

O, f'enaïd ! gwae Eifonydd—dduo haul  
 Ddoe o'i hynt ysblenydd ;  
 Dwyn, a gwyro, dan geurydd,  
 Hwn ar daith haner y dydd.

Trwy Eglwysydd trig loesau,—trwy Wynedd,  
 Trwy anwyl hên dadau ;  
 Trom y loes sy'n tra amlhau,  
 Trwy duedd tir y Dëau.

I Arfon oer don yw'r dydd,—I Nefyn,  
 Mae'n ofid a cherydd ;  
 Mawr wylo am areilydd,  
 Arwyl fawr o'i ol a fydd.

Wrth addysg areithyddion,—wrth eglur,  
 Erthyglau'r gwir dystion,  
 Wrth eiriau,—yn nerth Aaron,  
 A llyfr saint, llefarai Sion.

Rhwyddineb y rhyw ddynol,—oedd enwog  
 Yn ei ddawn serchiadol ;---  
 Ond am ei enw dymunol,  
 Cofio'r y'm,—ac ef ar ol.

Traidd rhyw lef fawr gref i'r gro,—geilw Iesu  
 I gael ei was ato ;  
 Ddyn anwyl—a'i ddwyn yno,  
 I ail fyd yn ei law fo.



COFFADWRIAETH  
 AM YR ANRHYDEDDUS ARGLWYDD BUCLEY,  
 (BARON HILL,)  
 Bu farw Maihafin 19, 1822.

Ow marw ! Ow marw ! o'r mawrion—fu oer glwyf,  
 Arglwydd Buckley dirion ;  
 Wylaw orfu ael Arfon,  
 Galar mawr glywir y'Mon.

Diluw ydoedd i d'lodion——ei golli,  
 A gwall i'w frodorion ;  
 Hoew lyw goleu, hael galon,—  
 Un o'i ail mwy ni wel Mon.

Pan dorwyd pen awduron,——a'r synwyr,  
 O'r Senedd a'i choron,  
 Ei man wag am enwogion,  
 Mae'n fud mwy---anafwyd Mon.

Dygwyd at odidawgion——ryglyddiant,  
 Arglwyddawl ei berson,  
 Farchawg hirhoedlawg rhadlon,  
 edd wr mawr i ddaiar Mon.



### COFFADWRIAETH

AM Y PARCH. EDMUND FRANCIS,  
 Gweinidog y Bedyddwyr yn Nghaernarfon, &c.

Mae oer och ! a mawr achwyn,——mae gofid,  
 Am gyfaill gwareiddfwyn,  
 Ieithwr oedd, athraw addwyn,  
 Mewn du fedd, mae Edmund fwyn !

Cu weinidog cenadawl,——was isel,  
 Dros Iesu'n gyhoeddawl ;  
 Llefarai, arferai fawl,  
 Yn araf a synwrawl.

Hiraethlawn ei areithle,——a'i frodyr  
 Dan friw dwfn anaele ;  
 Fod ei lân amddifad le  
 A'r Eglwys fal rhyw wagle.

Llawer tòn ddilon a ddaeth——i'w erbyn,  
 A'i eirber dystiolaeth ;  
 I ddydd y wlad rydd yr aeth,  
 Dda lonydd ddielyniaeth.

Lle gwir gu genir gogonedd—i'r Ior,  
 Arwyrain ddiddiwedd,  
 Mwyn gryf fawl, mewn gorfoledd,  
 Gwyn eu byd uwch gwae na bedd.

Sereiff a'u prif fesurau,—côr hoewber,  
 Cerubiaid a seintiau ;  
 Llais un gerdd drwy'r llys yn gwau,  
 Ardal lawn aur delynu.

Mynai arddel, mewn urddas,—is y groes,  
 Iesu Grist a'i deyrnas ;  
 Hyd ei fedd, drwy ryfedd ras,—  
 Bedyddiwr, bywyd addas.

Ganwyd a maethwyd yn Mon,—wr gorwych,  
 O'r gwir ddygedigion ;  
 Mae oer fraw am roi ei fron,  
 Mewn oerfedd, yma'n Arfon.



### COFFADWRIAETH

AM Y PARCH. SIMON LLWYD, O'R BALA.

Os y Bala ysbeiliwyd,—bri mawredd,  
 Bro Meirion ostyngwyd ;  
 A'i dysg, i'r llawr úiosgwyd,  
 Os mewn llawr, mae Simon Llwyd.

Mae cri yn delwi duwiolion—ganocdd,  
 A gwynant am Simon ;  
 A braw du yn brathu bron,  
 Ei geraint, blant ac wŷrion.

Awdwr cyfrifol ydoedd,—a diwyd  
 Yn deall dirgeloedd ;  
 Mwyn fywyd, Cymanfaoedd,  
 Brawd oruwch y brodyr oedd.



Fel arwydd o'r filwriaeth — ddiwyrni,  
 Addurnodd Grist'nogaeth ;  
 A gwawl nef, goleuo wnaeth,  
 Ein byd o'i anwybodaeth.

Bellach, ar gerdd ddiballiant, — hosàna  
 Yw seiniau ei foliant ;  
 Emyr ar delyn aur dant,  
 Mwyn gu gân mewn gogoniant.



### COFF ADWRIAETH

AM MR. GRUFFYDD THOMAS, MAENTWROG,

A fu farw Tach. 15, 1814.

Maentwrog, mwyn naturiaeth, — a ddodwyd  
 I'th ddidawl gadwraeth ;  
 Ow ! noddwr awenyddiaeth,  
 I ddu rwym, dy ddaiar aeth.

Angau oer, eang wryd, — a dorodd  
 Ede' aur ei fywyd ;  
 Och ! alar diochelyd,  
 I fwynder beirdd, fyn'd o'r byd.

Ni fu'r un i Feirionydd, — a gofir  
 Ogyfuch a Gruffydd ;  
 Er ei gau, yn dragywydd  
 Ei enw ddeil, yn hwy na'i ddydd.

Cyfyd o'r gweryd er gorwedd, — yn lân,  
 Ail unir ei sylwedd ;  
 Fe elwir mewn gorfoledd,  
 I wlad bur o waelod bedd.

MARWOLAETH Y PARCH. J. ROBERTS,  
PWLLHELI.

Am Sion, yn drwm y syniaf, — a gwae fi,  
Y gofid a deimlaf;  
O'i ôl, yn wir, wylo wnaf,  
Mae'n deilwng—pa'm nad wylaf?



COFFADWRIAETH

AM ENETH IEUANC, YR HON YDOEDD FERCH  
MR. EVAN EVANS, BARCER, PWLLHELI.

Nith o ferch chwaer i'r awdwr.—1820.

Wele ein plant anwylion— a hunant  
A'u henwau'n mhlith meirwon;  
Dur a gweli, drwy galon,  
Fu och hir, am y fach hon.

Doe'n gynes, ein dyn ganaid, — —lân a'i delw,  
Yn hudoli'r llygaid;  
Heddyw'n syn gorffyn a gaid,  
Plwm oer iawn, ---p'le mae'r enaid?

Acw'r hedodd, o'n creadur, — iach enwog,  
Wreichionen annisbur;  
Aeth ymaith o'i thŷ a'mur,  
I loew fan bell, elfen bur.

Ei chorff, er gadael y chwyth, — a'r enaid,  
Unir yn dragyfyth;  
Priodolion, par dilyth,  
Dau gymar, heb ysgar byth.

Drwy'r llawr, pan darawo'r llef, — a gwys gerdd,  
Gosgorddau'r oleunef,  
Duw a'i hedryd, i'w hadref,  
Mewn dim, ar ei amnaid ef!

## CYFLAFAN Y GWIR.

Tynu mae'r byd at anwir,  
 Enllibio a gwawdio y Gwir ;  
 Troi wyneb at yr anwir—  
 Bradychu a gwerthu Gwir :  
 Enynu mae gwen anwir ;  
 Ond prudd, gan gystudd yw Gwir :  
 Sidan glân yw gwisg anwir,  
 Bratiau yw gwregysau Gwir ;  
 Yr enaid ni choronir—  
 Er mor wael heb gael y Gwir ;  
 Anwiredd aeth yn eirwir,  
 Traws a gau y troes y Gwir ;  
 Mawr enw y mae'r anwir,  
 Yn ei gael, yn lle enw Gwir ;  
 Er enwog fawrhau anwir,  
 Cryfach, rhagorach y Gwir ;  
 'R enyd b'o cwmp yr anwir,  
 Dyna bryd gwynfyd y Gwir ;  
 I ddinystyr ydd â anwir,---  
 Rhag purdeb gwyneb y Gwir ;  
 Y Duw uniawn di anwir,  
 Rhoed i'm bron galon y Gwir ;  
 Ac yna bid gwae anwir  
 A gwarth am gyfarth y Gwir.


RHAN IV.

—

ANERCHIADAU

AC

AMRYWIAETHAU.



# ANERCHIADAU, &c.



## I OFYN BIBL.

HAWDD i'r naill gyfaill yw gofyn—y llall,  
O 'wyllys i dderbyn,  
A all brawd orfawd erfyn,  
A modd i hael, omedd hyn?

Bibl yn rhodd dda fodd ufyddaf,—yw'r hyn,  
Wr hynaws, a geisiaf,  
Genych chwi, a gwn o chaf,  
Ei holl linau ddarllenaf.

Caf wir rodd i'm cyfarwyddaw,—nid aur,  
Nid arian i'w rhifaw,  
Ond hyn, cael llyfryn i'm llaw,  
Duw'n rhwydd i'r dyn a'i rhoddaw.

Canwyll i'r didwyll gredadyn—yw'r Bibl,  
Orau i bawb ddilyn,  
Fel â bys dengys i'r dyn  
Draw i'w gwyliaw, dri gelyn.

Hwn a geir yn agoryd—yn ddiau,  
Wan ddyall dyn hefyd.  
Didwyll y mae'n dywedyd,  
Yma, drwy bwyll, am dri byd.

Mynwn, pe cawn i'm unwaith—wr addwyn,  
Hyn o rodd berffaith;  
Eich clod, nid gormed y gwaith,  
D'roganwn dri ugeinwaith.

## ANERCH

YR HYBARCH SYR JOSEPH HUDDART,

BRYNCIR, YN EIFIONYDD,

A gyflwynwyd iddo ar Enedigaeth ei Fab, 1821.

Henffych wawr ! dymawr a dydd,—oedd ddifyr,  
 Ddyfod i Eifionydd,  
 Grym ein rhwysg, wr mwyn a rhydd,  
 A'i enw'n Syr, hwn yw'n Sirydd.

Bryncir goleudir ein glyw,—pwy yno ?  
 Ein penaeth sydd heddyw ;  
 A phoed,—Syr Joseph ydyw,  
 Cu hoewder teg, Huddart yw.

Pan ddaeth Sior hyd oror deg  
 Mon wlad, a Menai liwdeg,  
 Aeth Huddart lawn, sywlawn serch,  
 Wythenawg, i'w ddoeth anerch.  
 A hyn a gefais, poed mewn hen gofion,  
 Yn Syr ei enwi ! gan ein Sior union :  
 A'i enwad, wr mad, ar dir Mon,—mae'n wir  
 Mawr ei cynwysir, yn mrig hanesion.  
 Ceir y weithred hygred hon,  
 Dda siriawl, ddwy oes wyrion ;  
 Bri Eifion hardd a brofwyd,  
 Gwr da nawdd, goreu dyn wyd,—i'n goror,  
 Can's o egwyddor i'th gynysgaeddwyd.  
 Geiriwyd gan WR Y GORON,  
 Dy enw Syr,—deuai in' son ! lle'r enwyd,  
 Gwedi arddelwyd, gan gydraddolion.  
 Y llys dilys Ardalydd  
 Mon, llyna'r son, llawn wir sydd :  
 Mawr wyrth yn hen Gymru oedd,  
 Nesaf at ddull hen oesoedd.

Hael wron rhoes i laweroedd,—do waith,  
 Hyd eithaf ei diroedd ;  
 O fewn cylch, ei derfyn c'oedd,  
 Gaed ogylch yn goedwigoedd.

Erys ei goed oris gallt,  
 Rhyw dair oes ar dir Isallt ;  
 Heirdd blanhigion ar fron fry,  
 Dwfn abred, afon obry ;  
 Pontydd rhwng gelltydd a gwig,  
 Mewn cleidir main clüedig.  
 Fe roddes o'i fawr eiddo,  
 Aur fyrdd, ar brif-ffyrdd ein bro,  
 Gefaildai a gweithdai gwŷr,  
 Lluniaethol llawn o weithwyr.  
 Gweision y gwron gwiwrwydd,  
 Pob un sy, pawb yn ei swydd.  
 Iawn welwn drefn ei wiwlys,  
 Gerllaw hen gaerau y llys ;  
 Lle bu fawrion Eifionydd,  
 Mawrion a dewrion i'w dydd.

Ein cu wron mal yr hen Fryncirïaid,  
 Da iawn yw yntef, wrth ei denantïaid :  
 Ni bu lesg na gwan ei blaid,——ond cryfdwr,  
 Na byw'n ddialwr, neb un o'i ddeiliaid.

Ba lys teg, mal dy blas tau ?  
 Gogonedd heirdd geginau.  
 Bryncir a enwir unwaith,  
 Mwy yw'n Syr yma na saith,  
 A fyno yn Eifionydd,  
 Tra byddo, a fyno fydd

A'i wraig araf ragorawl,  
 Ein Nest em wiw, nis tau mawl.  
 Dyna Efa dyn Eifion,  
 Elen yw, un law a Non,  
 Argraffer llawnder ei lles,  
 Ar froneg aur, farwnes.

Canfyddir ar frasdir fron,  
 Dai Ifor rhwng dwy afon ;  
 Dolydd islaw ei dyle,  
 Afonydd ar lonydd le ;



Amaethdir ei randir yw,  
Eden Eifionydd ydyw.  
Gerddi cyfun am un maeth,  
Perllenydd pur eu lluniaeth ;  
Difesur hyd ei feusydd,  
Y preiddiau'n porfâu a fydd.

I fychain a mawrion Eifion wiwfad,  
Amryw ugeiniau, mor hoew ei genad ;  
Gwnaeth wledd anrhydedd yn rhad,—a mawredd,  
Acw i'w wir anedd, ddydd y coroniad.

Yr haf hwn, cofiwn y caed,  
Gwiw aer iddo, gwareiddwaed ;  
Llawenydd fu'r dydd i'w dad,  
Am eni ei ddymuniad :  
Llonwyd, dyhuddwyd heddyw,  
Mae yma fab a mam fyw !  
Na fwrier hwn o'i fawredd,  
Yn oed ei faboed i'w fedd.  
Ys diwall fu oes Dewi,  
Uwch Nestor fo'th dymor di.  
Croesaw, deheulaw i hwn,  
A'i wyl anwyl a enwn :  
Dau pob oed a chyfoedion,  
Ganol haf i gynal hon.  
Ar gynydd bo'r eginyn,  
O gnawd teg, ac enaid dyn :  
Tyfed ein prif etifedd,  
A mwyn waed yma'n ei wedd.

Dysged yn mebyd iawn bryd boreudeg,  
Brif iaith o'r einom, beraf athroneg,  
Llwyddiant i'r tyfiant, aer teg,—hyd ŵyrion,  
Ar ranau mawrion yr hen Omereg.

A'i gryfaf brif ddigrifwaith,  
Yn wr, f'o hoffi'r hen iaith :  
Ar frasdir Bryncir, mewn braint,  
Da tyno hyd oed henaint.

Am ein Syr, wr mwyn siriawl,  
 Gwlad a fyn glywed ei fawl :  
 Direswm yw ei drysawr,  
 Hyd i fyd yr India fawr ;  
 Hir ddyddiau, i'w rhwydd addef,  
 Yn ei oes hir hynaws ef.

Ac wedi'r huno'r gwiwdad,——y gwiraer  
 Rhagorol i'n henwlad,  
 Fo'n anwyl, addfwyn Ynad,  
 Yr ail dô ar ol ei dad.

---

## DYFODIAD

ROBERT WILLIAMES VAUGHAN, YSW.,

SEF

Unig Fab ac Etifedd Syr Robert Williames Vaughan,

A. S., NANAU, YN MEIRION, I'W OED,

MEHEFIN 25, 1824.

Hawdd amor, caed tymor teg,  
 I hael waed, Hywel\* wiwdeg ;  
 Dyn aur frig, o dyner fron,  
 Yn enw mawr, Nanau Meirion ;  
 Marchog yw, yn mreichiau gwr,  
 A r iawn dad o'r hen Dewdwr ;†

---

\* Hywel Dda, ab Cadell, ab Rhodri Mawr, &c. trefnwr canmoladwy ar gyfreithiau Cymru. Gwnaed ef yn Dywysog y Deheubarth ar ol marwolaeth ei dad, yn 907; ac ar farwolaeth Anarod, Tywysog Gwynedd, yn 913, gwnaed ef yn bennaeth a llywodraethwr Cymru; ac ar farwolaeth Idwal Foel, gwnaed ef yn Frenin ar Gymru oll. Bu farw yn y flwyddyn 948.

† Tewdwr Mawr, sef tad Rhys ab Tewdwr, &c. o'r hwn yn wreiddiol y mae teulu Nanau ar un ochr yn tarddu.

Syr Robert, oeswr hybarch,  
 Ab Gwilym hyf peryf parch.  
 A fu wychach ab Fychan,  
 I'w eurawg lys, a'i wraig lân?  
 Dau gymar hygar eu hoes,  
 Da anwyl eu dwy einioes;  
 Llyna lys a llawen wledd,  
 Farwnawl ddifyr anedd.

Yn yr haf hwn synwn sydd  
 Oll ini yn llawenydd;  
 Daeth ei un mab o faboed,  
 A'i lon aer i'w gyflawn oed;  
 Maen coron yw, mewn cariad,  
 Yr un dyn ar enw ei dad.

Henffych haf am a gafwyd,  
 Haf ein iach Fehefin wyd;  
 Meirion o'i mawrion y med,  
 Seneddfawr dwysen addfed:  
 Rhowch eich llaw, chwi feirdd llawen,  
 Ganoedd o wyr Gwynedd wen;  
 I Nanau heirdd gangau gwydd,  
 Dylifwn ein dail ofydd;\*  
 Graddwn glod, gwrdd awen glau,  
 Eneiniwn frigyn Nanau;  
 Addurnwn oll ei ddiwrnod  
 A'n herddigan † glân o glod.

Tanau a ehlych, seiniwych sí,  
 A ganant ei ddydd geni;  
 Bydd tyrfau, pelau pylor,  
 Sain rydd o fynydd i fôr;  
 Rhyw wawl certh ar ael y cwm  
 Effro ar ben Moel Offrwm; ‡  
 Twr o dân yn taro dydd,  
 Goleuadau o'n gwledydd;

---

\* Ovates, &c.

† Peroriaeth (*Harmony*).

‡ Enw y Foel lle y llosgwyd y goelcerth gerllaw Nanau.

A lluwch pŷg tebyg at hyn  
 Cadwynawg yn cydenyn ;  
 Fflamau certh, cydnerth eu cair,  
 A gwyd uwch ben y Gadair ;\*  
 Tref Ddolgellau'n seiniau sydd,  
 A'i gwên lon gan lawenydd ;  
 Orhoian, ar ei heawl,  
 Rhoir ŷch rhost yn fost o fawl !  
 Ei banllef'hed i Benllyn,  
 Tery'r llais at oror Llëyn ;  
 Ninau'n eigion Eifionydd,  
 Atebwn, dyblwn y dydd ;  
 Swydd Fflint wych, a Dinbych deg,  
 Hynodant hyn o adeg ;  
 Blaenion Môn a phob maenawr,—  
 O Gaerludd daw gwyr i lawr,  
 Fis Mehefia, gwin yn gwau,  
 Yn Enwad Ifor Nanau ;  
 Difyr, a hyfryd yfant,  
 Ei lwydd gwych, ar wleddau gant ;  
 Pob cyrion o Feirion fawr  
 Bywlonant yn eu blaenawr ;  
 Cyflawnir dodir y dydd,  
 Draw i gof oes dragyfydd.  
 Syr yw ein glyw,—seren gwlad,  
 Ti yw arglwydd † ein teirgwlad ;  
 Tŵr i bawb—poed hir y b'och,  
 Barwnaidd mae bri ynoch ;  
 Gwrol, i'r gwrol gwiwradd,  
 Ac isel, i r isel radd ;

---

\* Cader, neu Gadair Idris.

† Gwybydded y darllenydd fod arglwyddiaeth gynt yn perthyn i Nanau, o'r hyn lleiaf er amser Cadwgan, oddeutu 1125. Cadwgan ydoedd dad Madog, a'i fam Gwenllian, merch Gryffudd ab Cynan, Tywysog Cymru, &c. Madog ydoedd dad Ynar Fychan ; Mr. Robert Fychan o'r Hen-gwrt oedd y deuddegfed yn disgyn yn y llinach o'r dywed-edig Ynar Fychan. Edr. Debrett.

Pum llew\* didranc yn prancio

Ar fÿs aur drwy ei faes o,

Asgre lân, llon faranedd,

Yn myd diogel a'i medd.

Yn ei anedd bydd gwleddau,

Syber hyn, fis i barhau ;

I'r gwych a'r gwael mae cael cêd,

Lles gwron—llys agored.

O syllir ar Gaswallawn,

Ei wledd fu rodd lwyddfawr iawn,

A'r llu yn ngwledd fawr Leon,

Parhaus hyd y pery sôn ;

Ond er hyn, diau y rhawg,

Mwy orchest i'n wledd marchawg ;

O'th wÿdd di, Dewi deuaf,

Canwn i hwn cenin haf ;

Bo i'n talaeth benteulu,

Hil Bleddyn† ab Cynfyn cu ;

Hil Llywarch, ys hybarch son,

Trwy fwyniant, o Ryfonion ;

Hil Madog oludog lan,

Cu degwch, ab Cadwgan,

At oediawg hâd clodadwy,

Cawn Gynfrig Meirig a mwy ;

Trom aur wisg tramawr o werth,

Cadeiriawg y caed Iorwerth ;

Dynodir tra cenir can

Rif achau Ynyr Fychan ;

---

\* Ei arfau (*Arms*). Asgre lân, diogel ei pherchen.

† Bleddyn ab Cynfyn, ab Grwystan, ab Gwrydyr, ab Lles Ilawddiog, ab Ednyfed, ab Gwnen, ab Gwinog Farf sych, ab Ceidio, ab Corf, ab Cynog, ab Teganwy, ab Teon, ab Gwineu, Deufreuddwyd, efe oedd dywysog Cymru yn y flwyddyn 1068. Cyfrifir ef yn llyfrau yr achau, fel y penaf o bum llwyth brenhinol Powys, &c. Dywedodd un o'r hen feirdd fal hyn,

“ Bleddyn ab Cynfyn bob cwys,  
Ei hun, biodd, hen Bowys.”

Mae llinach fawr Meillionydd  
 Llŷn, ar gael, llwyn aur o'u gwydd ;  
 Etwa i lys Hengwrt lan,  
 Dof i achau, da Fychan ;  
 A'r mwynwaed yr ymunodd  
 Hywel \* o Rug hael ei rodd ;  
 At Lanrwst, hylon yr af,  
 Yno Salsbri a enwaf ;  
 Mwyngof Ynys y Maengwyn,  
 Deil y gwaed, a'r Dolau Gwyn ;  
 Cawn dras y Rhiwlas o'r had,  
 Gwrolaf—gwyr o alwad.  
 A bydd hen Olewydd,—Lwyn  
 I'w cael yn Ystym Colwyn ;†  
 O du ei fam ddiammhur  
 Gwelwn ei barch—galon bur,  
 Mae'n llyw addfed mwyn llwyddfawr  
 Yn disgyn o Fostyn fawr :  
 A hyddoeth hil Cloddaith hen  
 Gellawg a Bodysgallen ;  
 Bodidris a ddewiswyd,  
 Orau llys, hen Dudur Llwyd ;  
 Talhenbont, o hil iawnbarch ;  
 Uniawn ben, Einion a'i bar ch

---

\* Dafydd ab Meirig o Nanau a briododd Elen, merch Hywel ab Rhys, o Rug, &c. Edr. Reynolds.

† Y diweddar Syr Robert Hywel Vaughan a briododd Ann, merch Edward Williams, Ysw. Ystym Colwyn, swydd Drefaldwyn, yr hon oedd fam y presenol Syr Robert Williams Vaughan, Barwnig, Nanau, &c. Mae âch Ystym Colwyn yn tarddu o deulu Cochwillan, sef Marchydd Arglwydd Uchdalas, ac Abergela, Beli Mawr, ac Ednyfed Fychan, &c. Harri Williams, Gochwillan, a briododd Siane, merch Thomas Salsbri, o'r Castell: Lumley Williams, mab Harri, a briododd Dorothy, merch ac aeres Rhys Thomas, Ystym Colwyn. Y Lumley Williams yma, tad Lumley, tad Arthur, tad Edward, a briododd Madam Charlot, merch William Herbert, Dug Powys.

*Edr. Reynolds,*

Corsygedol a folant,  
 Cors freiniol Gedol i gant ;  
 Canwyll aur yn cynal llys  
 Yw llin\* Osbwrn llawn hysbys ;  
 Llyw hirlafn Castell Harlech,  
 Twr Collwyn† fawr, uwch llaw'r llech.  
 Yn oes haul, ni noswylia  
 Nanau deg o'u hen enw da ;  
 Rhoir gair mawr i'r gwr a'i medd,  
 Rhad hefyd, i'r etifedd,  
 Ein brodyr a'n bri ydyw,  
 Gem yr oes i Gymru yw ;  
 Sieryd hwn hefyd ein hiaith  
 Un enwog a ni'n uniaith ;  
 Dyn o rym da iawn ei wraidd ;  
 Cu wr ifanc arafaidd :  
 O'r henwaed mwyn yr hanyw,  
 Ein llawen ddyn lluniaidd yw ;  
 Tawelwch ieuenctyd diludd,  
 Swrn o rôs ar ei wen rudd ;

---

\* Osburn Fitz Gerald, Iarl Desmwnd a Childâr, yn y Werddon, efe a ddaeth i Gymru yn nheyrnasiad y Tywysog Llewelyn, 1227, a chanddo gant o wÿr, dan eu llawn arfau, yn marchogaeth ar gant o feirch gleision, ac a gyflwynodd ei hun a'i wÿr at wasanaeth y Tywysog; a chan ei fod yn rhyfelwr dewr a medrus, enillodd sylw a pharch mawr ganddo; fel y rhoddes iddo feddianau mawrion a helaeth, ac aeres Corsygedol, (yr hon oedd gares i'r Tywysog,) yn wraig. Dywedir hefyd ei bod yn nith i wraig y brenin Edward I. Rhoddwyd hefyd yr awdurdod ar Gastell Harlech i'w feddiant.

*Edr. Casd. Mr. R. V. o'r Hengwrt.*

† Collwyn ab Tango, ab Cadfael, ab Lludd, ab Beli, ab Rhyn, ab Maelgwn Gwynedd, a adgyweiriodd Gastell Harlech, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun, Twr Collwyn, yr hwn o'r blaen a elwid Twr Bronwen, yr hon, ond odid, a'i hadeiladodd. Ei arfau, yn y pymtheg llwyth, yw tri llestr arianlliw yn y maes dû, a chwpl rhyngddynt, neu Fywell wen. Ei arglwyddiaethau oeddynt Llëyn, Eifionydd, ac Ardudwy, Meirion.

Henffych hwyl anwyl unwaith,  
 Tair oes i hwn at dri saith ; (21)  
 Rhag unrhyw ymddirywiad  
 Poed prydlon y delo'n dad ;  
 Na welo, Gymro ar gil,  
 Anhap i un o'i hepil ;  
 Ogyfuch bo'r mab gwiwfad,  
 A'i gefnog, odidog dad :  
 Hwn, heb loes, fal yr hen blaid,  
 A ddalio gefn ei ddeiliaid ;  
 Ufyddfab etifeddawr  
 Ei enw fo ar Nanau fawr.  
     Yn ol dydd ei anwyl dad,  
 A duwiol ymadawiad,  
 Yn ei swydd, da y llwyddo  
 Aurdorchog farchog a fo ;  
 Nanau dan ei hen winwydd,  
 O farchog i farchog fydd ;  
 I'w ran y bo hir einioes,  
 Llaw Dduw da llwydded ei oes.



**ANERCH YR AWEN,**  
NEU  
**FYFYRDOD Y BARDD WRTH AFON**  
**DWYFACH.**

MOR fwyn, fy llawforwyn fach,  
 Yw dyfod at fin Dwyfach ;  
 I'th gwrdd unwaith, gerdd enwawg,  
 Myfyrio, a rhodio rhawg ;  
 Mynwn eistedd—mwyn osteg,  
 Ar fin dwr tir Eifion\* deg ;

---

\* Eifion, or Eifionydd ; a hundred in Caernarvonshire so called.



Uwch Hengwm a'i gychwyngell ;  
 Treiddio mae, trwodd y'mhell ;  
 Lli ei dòn sy'n lledanu,  
 Islaw i'r ddofn Seler ddu ;\*  
 Dyli' braisg, ar dal y bryn,  
 Yw'r mur dwr am war Derwyn.

Cyraedd y mae cainc arall  
 Oddi draw ei llaw i'r llall ;  
 O dir† Nant cyll, dewrwyllt dòn,  
 Hoff, enwog, ddysglair ffynon,  
 I'r hon fyth mae ryw hen fawl,  
 Ymddyg i'n ddwr meddygawl.

Y drydydd gainc droadwy,  
 Eto i ddod at y ddwy,  
 A'm ddirwyn mewn modd araf,  
 Yma rhed o Gwm‡ yr Haf.

Diferant wi ! hyd forhallt,  
 Yn oer do, ar ro, o'r allt ;  
 Ewngroch gwrf o'r wengraig,  
 Yfwn fir o Afon§ faig ;  
 Dwyfach hygyrch ei defod,  
 Mwyn i fardd ar ei min fod ;  
 Gwrando si ei phrif lifiant,  
 Diwael nerth, rhwng dwy ael nant ;  
 Yn dirwyn i'r meithlyn mawr,  
 Yn araf o'i mwyn orawr ;  
 Diymod myn ei damwain,  
 Berwawg hynt i Abercain : ||

\* Seler ddú, the name of the place whence the river of Bwlch Derwyn floweth, on the N. E. side of Bwlch Mawr mountain, in the parish of Clynog.

† Nantcyll, or Nantcall, otherwise Nantcel : there is a fountain named Ffynon wen Nantcall.

‡ Cwm yr Haf, part of Llwyd-mawr, or Llwyt-mor, a mountain in the parish of Penmorfa.

§ Afon faig, the name of that part of the river which descendeth from Cwm yr Haf.

|| Abercain, or Abercin, a harbour, on the S. W. side of Cricierth, where the rivers Dwyfawr and Dwyfach flow to the sea. There is also a farm so called.

Chwern droi, ymlithro i lawr,  
 Difeth law Cain a Dwyfawr ;  
 Mirain yw'r ddwy gymhares,  
 Er wna grym oerni a gwres.

Difyr yw oslef Dwyfach,  
 A difyr yw ei dwfr iach ;  
 Ar ei glân wiwlwys ganwaith,  
 Owain\* a fu, awen faith,  
 Erys yn fyw, yr awen fad,  
 Hyd lenydd ei dylanwad ;  
 Ymarllwys cerdd o'i merllwyn,  
 Bu lwys fab Elias† fwyn.  
 Minau, ydd wyf am anerch,  
 Cerdd dda yn ngwersyllfa serch ;  
 Mewn cell, ar ei min y cair,  
 Cain awen yn cyniwair.

Cefais awr o ddystawrwydd  
 Uwch ei phen, i'r awen rwydd ;  
 Awr fach, yn mhlith oriau f'oes,  
 Fwynaf o oriau f'einioes ;  
 Eilio, man byncio, mwyn bill,  
 Dan lawen wybren Ebrill ;  
 Egor llais, wrth gwr y llyn,  
 Digymell ar deg emyn ;  
 Tan gysgawdwydd, irwydd iach,  
 Mwyn dyfiant yn min Dwyfach ;  
 Ac ednaint gwar, lafar lu,  
 Uwch ben oedd yn chwibianu ;  
 Dolef ar gangen deiliog,  
 Oruwch dwr glân lle cân cog.

Difyr cael, dan dewfrig gwydd,  
 Rhoi anadl i'r awenydd ;  
 A gwel'd islaw dystaw don,  
 Araf deg rifedigion ;

---

\* Owen Gryffydd, a poet, buried at Llanystumdwy, 1740.

† William Elias, a poet, a native of Llanystumdwy in Eifionydd, and a disciple of the said O. G. Mr. Grouwy Owen occasionally corresponded with W. Elias.

Amryw o bysg—mawr a bach,  
 Heigiant, nofiant yn Nwyfach;  
 Cu amledd yn mhob cemlyn,  
 Ebyrth y deifr,—ymborth dyn;  
 Rhof fynych henffych i hon,  
 O'i chroywddwr chwareuyddion;  
 Dirioned ei raienyn,  
 Yw'r dwr glâs ar dir y Glyn;\*  
 Rhag bloedd trin, neu groes hinon,  
 A'i thaer hynt, fyth ni thry hon;  
 Arfau na dim ni orfydd  
 Ei gwar don tra gwawrio dydd;  
 Mwyn yw dod, i'r man y del,  
 Y dwr iach, o dir uchel.

Yn ddadrwym a thi'n ddidroed,  
 I ble'r ai?—heb wyl erioed;  
 Byw redwr borau ydwyt,  
 Rho osteg awr,—ystig wyt;  
 Trwy'r môr hyd draw'r ymwri,  
 Os y dôn ni'th erys di.

O! yr afon ddofn, ryfedd,  
 I mi sy'n dangos fy medd;  
 O hyd y modd y rhedi,  
 Y rhed famser ofer i;  
 I foroedd byd anfarwol,  
 A'u dyli'n wyrth dialw'n ol.

Bid hawddamor, oror iach,  
 It' Eifion, tra rhed Dwyfach;  
 Achlesa di, yma'n deg,  
 Y ferth anwyl, Frythoneg;  
 A nodda'n fwyn y ddawn fau,  
 Dufewnol yn dy fanau;  
 Da fo urddas dy feirddion,  
 Dros hir wedi yr oes hon:  
 Deled y beirdd fo'n dilyn,  
 Y dau gwell na'r Du a Gwyn;†

---

\* Glyn Dwyfach, a farm so called, in the parish of Llanystumdwy.

† The two Eifionydd Bards, named R. ab Gwilym Ddu, and Dewi Wyn o Eifion.

Medir llwydd—mae dy wyr llân,  
 A thuedd at waith awen ;  
 Wel bellach, difyrach fydd  
 Mae'n llinyn mewn llawenydd.

Y nos sydd wedi neshau,  
 Er difyred fy oriau ;  
 Tyred awen naturiol,  
 Arwain fi 'nawr yn fy ol ;  
 Da beunydd i'm diboeni ;  
 O enaid fwyn na âd fi ;  
 Beirdd diwael o'th gaffael gynt,  
 Prydyddion parod oeddynt ;  
 Iawn yw'r swydd, yn yr oes hon,  
 Ddal dydd a'th ddeiliadyddion ;  
 Diau rhag y nos dywell  
 Dewis waith, nad oes ei well ;  
 Da morwyn, tyr'd i'm harwedd,  
 Enyd fach,—o hyn hyd fedd ;  
 Er y dim, na thor dymawr,  
 Pan nad yw ond pennod awr ;  
 Bydd wych, bellach, Dwyfach deg,  
 Fflur, odiaeth yn floyw redeg ;  
 Hyd farn dy ruad a fydd,  
 Trwy faenor tir Eifionydd ;  
 Y dydd hwn sydd yn neshau,  
 Dwthwn dy osteg dithau.  
 Dwr unwaith,—du oer enyd,  
 Dwfr barn a fu'n difa'r byd,  
 Daw ddydd brawd, medd Duw awdwr,  
 Welw dân i ddileu y dwr.

## ANERCH

· EI FAWRHYDI Y BRENIN SIOR IV,  
 AR EI DAITH I YMWELED A CHYMRU A'R IWERDDON,  
 BRAIDD NEWYDD EI GORONI, 1821.

Hanbych well i'n castelloedd,  
 I'n tyrau, a'n caerâu c'oedd ;

Tyr'd dros fôr, ein Sior siriol,  
 Heb os na aros yn ol ;  
 Ein teyrn hardd, mewn tirion hwyl,  
 A'th osgordd, 'ym i'th ddysgwyl.  
 Cei wrth law, ar bob t'rawiad,  
 Oll, ein glyw, a allo'n gwlad.  
 Ac O ! atolwg, bid gwych  
 Yn d'olwg, pan y delych,  
 Fwyn dderbyn hyn o'm hanerch,  
 Gwael iawn os yw—gwel ein serch.

Ar y daith, ein rhi di wg,  
 O rhoi sylw ar Gaersalwg ;  
 Cei wel'd cell ein castell certh,  
 Neu dwr lle ganwyd Iorwerth ;  
 Gweli'r Eryri'r awr'on,  
 A chenfydd Ben Mynydd Mon.  
 Myn etwa gael, man teg wedd,  
 Y ganwyd Owain Gwynedd.

Mae tri chan mlwydd y gwyddi  
 Na fu un teyrn o fewn tir,  
 Na bradwr gorsedd Brydain,  
 Yn sathru gwlad Gymru gain,  
 Nes dy gael, ar drafael drom,  
 Lyw hybarch, i alw heib'om ;  
 Ar wendon, i'r Werddon wych,  
 Yr hwyli, arwr haelwych.

Dewch, frodorion Arfonia,  
 A'n doeth bendeffigion da ;  
 Coronwn hwn â'n heniaith,  
 Gloywn rym, galon yr iaith ;  
 Diau'r hanodd,—da'r henwynt,  
 Tad y gwr, o'n teidiau gynt ;  
 Hawl yn hwn, syniwn in' sydd ;  
 Coronwn ein carenydd ;  
 Gawried, emyned pob min, "  
 Byw [wr anwyl] fo'r brenin ;

Ar ei ben, fis Gorphenaf,  
 Coroni hwn,—ceir yn haf ;  
 A phen ei oed ffynadwy,  
 Oedd tr'ugain, ond arwain dwy ;

Yn Nghaerludd, ddiludd ddwylaw,  
 A chledd,—a'i goron uwch law ;  
 Rhoddwyd arno y rhuddaur,  
 Delw a thid y Dalaith aur ;  
 Ail i ser, ei thlysau hi,  
 Llem waneg,—lliwia meini ;  
 Ehedawdd, adseiniawdd son,  
 Trwy heolbyrth tir Albion ;  
 Agwrddlef, dros fôr gwyrddlaith,  
 Daenwyd i fyd India faith.  
 Cawsom frenin, o'n llinach,  
 Glan ei rym, gwelwn yr ach ;  
 Pwys ei ddwrn gynt mewn pais ddur,  
 Diau'n tad, Owain Tudur.

Deiliaid ydym o dalaith,  
 Hen Loegr wen sydd ben pob iaith ;  
 Boed o serch i'n iawn berchi,  
 A bron hael ei breiniau hi.

Drwy'n hoes, boed ei deyrnasiad,  
 Yn nwyllaw Duw, yn ail i'w dad ;  
 Mynu'n gryf, mewn iawn grefydd,  
 Mynu amddiffynu'r ffydd,  
 Gwasgarer, a brydier bron,  
 Lyw anwyl, ei elynion ;  
 Pob rychwant, o'i feddiant fo,  
 I'w feddiant, byth a fyddo,  
 Yn gaerau bid i'n goror,  
 Ei lynges yn mynwes môr ;  
 Gan ddiffyn ei derfyn da,  
 Iawnder dwyreiniol India.

Boed iti, ein rhi, wir hedd,  
 Diarswyd ar dy orsedd ;  
 A thrwydded rhaggweled gwaeth,  
 Un briw dur na brâdwriaeth ;  
 A'th orsedd, eurwedd arab,  
 Uchel y pwyth, uwchlaw pab ;  
 Ein hurddawl, fawreddawl frig,  
 Ael a iad olewedig ;  
 Hyd angau diau bydd dad,  
 A dynion ufydd danad.

Hawddamor, mae'n dymor da,  
 Tyner, ar hen Frutania,  
 Hanes,—bydd o'n hynys ber,  
 A hynafiaid Hanofer,  
 Tra bo awen a bywyd,  
 Hen oes bell na hanes byd.

I hwn erfyniwn tra fo  
 I'w wych swydd,—iach oes iddo,  
 A boed i'r llin brenhinol,  
 Ar ei sedd, eistedd o'i ol.  
 Ein paen pur, a'n pen parod,  
 Ein clyw, ein llygaid, a'n clod;  
 Ar ei sedd, na bo'r oes hon,  
 Brig Europ, heb aur goron.



## DIOLCHGARWCH

I'R PARCH. E. EVANS, LLUNDAIN,  
 O WAITH R. AB G. DDU, EIFION, DROS, AC YN ENW  
 EI GYFAILL DEWI.

Ti Ieuan ab Ieuan bur,  
 Gwnaethost—a hawdd oedd gwneuthur;  
 Gwneyd a fyn pob ceinddyn call,  
 Ei oreu dda i arall;  
 Mae anian gwneyd mewn mwynwr,  
 Oll o waith a allo wr;  
 Ond gwneuthur (naws sur na son)  
 Tegwch ni fyn taeogion.  
 Drwy awch mwyn, dy ymdrech mad,  
 Yn amweiniaw 'nymuniad;  
 Ces ateb, eglurdeb glân,  
 O'm llythyr i'm llaw weithian,  
 O waith dy brif ysgrifell,  
 Na bu wir i neb ei well;  
 A mad lith, diymod les,  
 Di nag yn llon'd y neges;

Hael o chawn, rho'wn ddiolch it',  
 Diau rhoddwn da'r haeddit;  
 Nid yw 'nhrysor ond gorwael,  
 Na cherdd onid rhodd wan i'w chael;  
 Hyn o roddiad ddyladwy,  
 Roddaf, am na feddaffwy.  
 Mae anian yn fy mynwes,  
 A grym yr awen a'i gwres;  
 Enw y gwr yn egored  
 O Gaerludd, a gei ar led,  
 Ar gywydd orug awen,  
 Egyr llyfr ar gwr y llen;  
 O'th hynaws waith, hoenus wr,  
 Mynwesol gymwynaswr;  
 Dan ei fawl, dy enw a fydd,  
 Ieuan fwyn o Eifionydd;  
 Bro Eifion, a'i merion maeth,  
 Fu goron dy fagwriaeth;  
 Yn d'oruwch genadwri,  
 Was da Naf, gadewaist ni;  
 Bu barch i'th lafur bob iot,  
 Da yw anian Duw ynot;  
 Yn y Cefn,\* bu wiwdrefn well,  
 A ddodir i'r ddiadell;  
 O barth Dinbych, lwyddwych lam,  
 Was didlawd ni ro'ist adlam;  
 Amryw fodd, ymryfeddais,  
 Dro syn, dy fyn'd i dir Sais;  
 Ni yma, heb un namiaith,  
 Ymgadw yr ym, gyda'r iaith;  
 Rhwydd-deb, ar burdeb, tra bo,  
 Gwawl awyr yn goleuo;  
 Dos, dilyn, y dystiolaeth,  
 Yr hon o ddynion ni ddaeth;  
 Uwch hen drefn Moesen, drom iau,  
 Oes y gwaed a'r cysgodau;

---

\* Cefn-mawr.



Na rofyn, fwynwr ufudd,  
 Egor lef ar y Gaer Ludd ;  
 I'r Cenhedloedd cyhoedda,  
 Nawdd ein Duw, newyddion da ;  
 Gwna'n berffaith ragorwaith gwr,  
 F'ai 'ngalwad Efengylwr ;  
 Deol y gau, dal y gwir,  
 A'th wyneb yn ngwrth anwir ;  
 Sylla, rhag gwyrddroi sillyn,  
 A fedd Duw, i foddio dyn ;  
 Dywed wrth dy wrandawyr,  
 Wyrthiau'r gwaed, a'i werth i'r gwyr ;  
 Dilyn gwir destyn gair Duw,  
 Trwy'r enaid tery'r annuw ;  
 Diodid i gredadyn,  
 Yw delw Duw, dwylaw dyn.  
 Gwae'r un a garo anwir,  
 Araith gau yn rhith y gwir ;  
 Ti Ieuan, yn y tywydd,  
 Aros o dan wres y dydd,  
 Nesu mae'r hyfryd noswyl,  
 Gyda'r oen cei gyd gadw'r wyl.



MR. Dafydd Thomas. neu Dafydd Ddu Eryri, pan ydoedd yn cadw Ysgol yn Llandwrog, a manau ereill, a fyddai arferol o ddyfod i rodiaw yn y Gwyliau, pan dorid yr Ysgol, i Eifionydd, er mwyn ymweled â'i hen gyfeillion, yn enwedig Dewi Wynn, Sion Wynn, a R. ab Gwilym Ddu, &c. Un tro, ar ei ddychweliad adref, dygwyddodd i'r tywydd droi yn ddrycinog a thymestlog anarferol, o ba herwydd cafodd yr anwyd yn drwm iawn ; a bu yn glaf dros dalm o amser ; a phan ydoedd yn ei glefyd, anfonodd lythyr caredig at ei hen gyfaill R. ab Gwilym Ddu, i ddeisyf arno wneyd Cywydd dyhuddiant iddo, i'w gysuro a'i ddyddanu yn ei glefyd. Yntau yn gydsyniol â'i gais a anfonodd ato fel y canlyn.—1817.

Pa ryw swm yn peri sydd,  
 Braw o fewn, bro Eifionydd ?  
 I raddau mawr, oeroedd Mon,  
 A dewrfeirdd gwaelod Arfon ;

Pa achreth gydbleth sy'n gwau  
 Lle bu'r gân, a'i llwybr gynau?  
 Och! sôn, b'and, afiachus wr,  
 Profedig yw'n prifawdwr;  
 Gwasgfa o besychfa sydd  
 Ar anadl yr awenydd;  
 Dan ei llwyth mae pob gwythen,  
 Yn llusgaw'r poer llesg o'r pen;  
 Y peswch, gwelwch goelion,  
 A dery frath, drwy ei fron;  
 Yn llon fyw ni all un fod,  
 A'i weli yn ei waelod;  
 Doe, gwelais y digalon,  
 Oedd a'i friw yn ngwraidd ei fron;  
 Iâs geufwrn, drwy'r ysgyfaint,  
 Yw archoll hwn—erchyll haint;  
 Crasineb croes i anian,  
 A chwerw ei guwch ni châr gân.  
 Anhyblyg wan gwyneblwyd,  
 Cysur bach, yn casau'r bwyd;  
 Diswydder—madws iddo,  
 Ysgar fyth, o'i asgre fo,  
 Hoen a seibiant, hen swbach, }  
 O'i ddu boen i Ddewi bach;  
 Drwy nawdd Naf, deled Dafydd,  
 Hen frawd, o'r rhyndawd yn rhydd.  
 Ar gyfer y toster tyn,  
 Yf o ddiglwyf feddyglyn;  
 Hybu gei heb y gauaf,  
 Coeliwn hyn, cyn Calan haf;  
 Daw'r gôg i'th galonogi,  
 Yn hawdd it' gytgan â hi;  
 Odid na chawn diriawn des,  
 Drwy undeb, wedi'r andes,  
 Etwa'n Eifion, Dduon ddau,  
 O gyd galon, gadw Gwyliau.  
 Arfer beirddion gwychion gynt,  
 Hen dadau, rhai nad ydynt,  
 Fu urddo deddf, i feirdd da,  
 At gael ariant o glera;

Ninau'n gerth mewn anian gu,  
Bywiogwn i'w tebygu.

Da yw ar wr dori iau,  
Ysgolan, fis y Gwyliau,  
Er mwyn rhoi llaw i'r awen,  
A ffordd at godi ei phen.

Er, frawd bach, mai afiach wyd,  
A thân Ion i'th eneiniwyd ;  
Di gudd, a da egwyddawr,  
Dull mwyn, ag â deall mawr ;  
Da, gwyddost, ydyw goddef,  
A gwir ddwyn, ei gerydd ef ;  
Efe roes einioes ini,

Fe'n ei hol a'i gofyn hi ;  
Ow ! Dewi, o thau d'awen,  
Mae'r iaith, a'i barddwaith, ar ben ;  
Gwan yw y beirdd, egni bach—  
Heb dy lân gân amgenach,  
Mwynwr wyd yn minio'r iaith—  
A morio'r hen Omeriaith ;  
Ni thal son am Arfon mwy,  
A'th wiwdeb yn fethadwy ;  
Da gwyddost ddifost Ddafydd,  
Reolau pob seiniau sydd,  
Mawr air sydd am Eryri,  
A braidd neb uwch ein beirdd ni ;  
Syniwyd gwaith—seiniau dy gerdd,  
Eryrgainc yn arwrgerdd ;  
Meini cedyrn, mewn cydwaith,  
Cryfder ynt, cerfiadau'r iaith.

Er cael arfod i rodio  
Drwy'r siriol, fawreddol fro,  
Gweled beirddion Eifionydd,  
A blodau doniau ei dydd,—  
Trwy fyd gwych, trafod y gân,  
Am ddyddiau, cydymddiddan,  
Drwy'r hirnos, aros i son,  
Mwyn gyfarch, am hen gofion,  
Cael wrth law, ar bob t'rawiad,  
Wirodau, a gwleddau'n gwlad ;

Aml rodio, ar dro, i'r drws,  
 Bu iti, yn y Betws;  
 A threiglaw, gyda'r awen,  
 Drwy barthau'n gwlad, wastad wen;  
 Darsyllu'r lle bu yn bod,  
 Hen Gantre gwiwle'r Gwaelod;  
 A Sarn Badrig,\* a'i thrigias,  
 O dan lif y ferwdon las;  
 Y'nghesail hon dangoswch,  
 O'n Seirian barth Sarn y Bwch;†  
 Tref Madog aml boblogaeth,  
 A'r clawdd lle trechawdd y traeth;  
 Mur eres, mawr ei wryd,  
 Yn filldir honir o hyd,—  
 Gwel'd nenawr yr Wyddfawr ris—  
 Cip edrych, copa Idris;  
 Ar gyrion ein môr gorwych,  
 Ceir ambell hen gastell gwych,  
 Aem lle gwelem ryw drem draw,  
 Meirion a'r llongau'n moriaw,  
 Carn Fadryn ‡ a'r Moelwyn mawr,—  
 Yn ymyl hwn mae Nanmawr.‖

---

\* Sarn Badrig, yn ol yr hen draddodiad, oedd y clawdd cyffelyb i forglawdd Madog, a wnaed i gadw y môr rhag dylifo dros yr iseldir bras hwnw, a elwir yn gyffredin Cantre'r Gwaelod, olion o ba un sydd i'w gweled ar dywydd dystaw yn ddigon eglur hyd heddyw.

† Sarn y Bwch hefyd sy gerllaw iddi, &c., ni chaf yma helaethu yr hanes yn ei chylch.

‡ Carn Fadryn ydyw y mynydd uwchaf yn Llëyn.

‖ Nanmor, neu Nanmawr, sydd barth o swydd Feirionydd, gerllaw Beddgelart, hen breswylfa Rhys Goch Eryri, a Dafydd Nanmor, dau fardd gorchestol, oddiwrth ba un y cymerodd Dafydd ei enw. Yr oeddynt yn cydoesi, ac yn eu blodeu oddeutu 1460. Dywedir i Rys Goch, yr hwn oedd wr bonheddig, roddi tyddyn yno i Dafydd, yntau a'i galwodd ar ol ei enw ei hun yn Gae Dafydd, ac felly y gelwir ef hyd heddyw, sef Cae Dafydd Nanmor, &c. Peth rhyfedd yw fod pen y Wyddfa, neu Wyddfawr, a Chadair Idris, a'r ddau Foelwyn, a Charn Fadryn, Castell Harlech, a Chricierth, a'r môr, i'w gweled ar unwaith, heb symud

Cael o ben Ynys Enlli,  
 Erin† yn Ngorllewin lli ;  
 Diffino rhodio'r ydoedd,  
 Blys rhyw hynt ei bleser oedd ;  
 Aethom a daethom bob dydd,  
 O'n Gwyliau gyda'n gi'lydd ;  
 Hyd aml rodfa, deithfa deg,  
 O'n rhandir yn orhoendeg ;  
 Cyteiriem, rhag fai aros,  
 O draw, er neb, adre'r nos.

Gohiriaw dan geudawd gwydd,  
 Hyd ddirwest, fel dau dderwydd ;  
 Cydfyddem, pan welem wall  
 A thaerem y waith arall ;  
 Wrth son am rywion yr iaith,  
 Rhagor unrhyw gywreinwaith ;  
 Er hyny dyma'r hanes,  
 O'i fyr lwydd heb fawr o les ;  
 Ow ! mor dost anmharwyd ef,  
 Ar ei ddudrist ffordd adref ;  
 Oeri'r gwaed ar eira gwyn,  
 Hyd aelïau Cwm y Dulyn ;†  
 Ein bardd glwys aeth yn brudd glaf,  
 Tan rewynt hin oer auaf ;  
 Enynu'n wan o anwyd,  
 Gwaraidd ei lais a grudd lwyd ;

---

troed, o fewn ychydig oddiwrth ddrws y Betws, heblaw amrywiol fanau ereill.

\* Erin sydd hen enw cyntefig Iwerddon : tybia rhai mai oddiwrtho ef yn llygredig y tarddodd y gair Ireland : ei mynyddau sydd i'w gweled yn eglur o swydd Gaernarfon.

† Cwm y Dulyn sydd yn cymeryd ei enw oddiwrth y Llyn mawr a thywyll arswydus, na wyddis ei ddyfnder, sydd yn mlaen y Cwm, a chreigydd mawrion yn amgylchu ei gw'r uwchaf, yn uniawn syth uwchben y llyn ; 'dywedir eu bod o ddau i dri chan troedfedd o uwchder. Un o honynt a elwir Clogwyn yr Arglwyddes, o herwydd fod y graig ar ddull merch yn ei llawn drwsiad, a'i phen a'i breichiau a'i thraed yn ddarluniedig. Mae'r lle rhyfeddol hwn yn sefyll i'r Dwyrain o Lanllyfni, yr hwn sydd bentref lled agos i haner y ffordd o Gricierth a Thre Madog i Gaernarfon.

Methu'n llwyr rhy hwyr oedd hi,  
 Ddull ofnus gyrhaedd Llyfni.  
 I'r bardd truan ei waneg,  
 Hir fu ei daith—araf deg ;  
 A rhaid mai anhawdd rhodio,  
 Drwy'r lluchwynt a'r trymwynt tro ;  
 Ffodd awen o'r pen—a'r pwyll,  
 Ar osteg cyn yr Ystwyll ;  
 Fel hyn aeth oerfel Ionawr  
 Yn grygni a mygni mawr.

Dewi bach, Duw a biau,  
 Weini lles i'th iawn wellhau,  
 Ei air ef wna'r afiach,  
 O'i flin oes yn gyflawn iach ;  
 Ei wen arnom ni weiniaid,  
 Hyd yma o'n gyrfa gaid ;  
 Amgylched a nodded ni,  
 Hyd fedd, ein deuwedd, Dewi.

Gwelwn hyn mai gwael yw'n hoes,  
 Frawd anwyl—fyred einioes ;  
 I'r âr yn garcharoriawn,  
 O ris i ris yno'r awn ;  
 Pob rhyw loes drwy'r fer oes frau,  
 Arddengys awr ddu angau ;  
 Rhaid rhoi cyfrif dditrif ddau,  
 Manol, tydi a minau ;  
 Bwriwn bob traul yn barod,  
 Hwyr yw'n dydd, mae'n hawr yn dod.

Ein Ior ini a ranodd,  
 Yr awen fad, o'i rad rodd ;  
 Gwell awen a'i dywenydd,  
 Yma is haul na dim sydd.

Eiddo'r Ion, roddwr einioes,  
 Hefyd yw'r iechyd a'r oes ;  
 Rhoed i'n hawl i fythawl fyd,  
 Dda fuchedd ddiafiechyd ;  
 Gwyl lân yn ngwlad goleuni,  
 Hir oes nef i'n haros ni.

## ANERCHIAD

I J. W. RICHARDS, PLAS Y BRAIN, YN MON.

I'm car Sion, o'm cywir serch,  
 Gyraf un gair o f'anerch,  
 Mynych y bu'n dymunaw,  
 Gan gymell llinell o'm llaw.  
 Deffro, cwyd, brifnwyd, yn awr,  
 Ar ber ddewisgerdd esgawr ;  
 Ymdrwsia â medruswaith,  
 I bellter rhed bolltau'r iaith ;  
 Dod, awen wên, dy wyneb,  
 Tirion wyt, oreu o neb ;  
 Cu heddyw, cei wahoddiad,  
 I dir Mon gan awdwr mad ;  
 Chwilia'r fro yno, unawr,  
 O chei drai, ar Fenai fawr ;  
 O Gaersallawg,\* gorsylli  
 Yn hawdd, ddull ei hansawdd hi ;  
 Dôs a'th anrheg deg i'r dyn,  
 Mwyn gyfaill, mae'n ei gofyn ;  
 Gwna, ar frys, f'wllys felly,  
 Wrth achos a dôs i'w dŷ ;  
 Teg yw'r iaith, ti a gei rym,  
 A golwg ar fab Gwilym ;  
 Cei groeso yno enyd,  
 Lle'n ei fwth a llawen fyd ;  
 Siarad dy fad dafodiaith,  
 Dwys ei grym, a dysg yr iaith ;  
 Cei o ryw cywir awen  
 Odlau beirdd, hyawdl o'i ben.  
 Treiddia'r fro trwyddi ar frys,  
 Trwy ranau tir yr Ynys ;  
 Canfyddir yn rhandir hon,  
 Feddau yr hen ofyddion

\* Caerynarfon.

A'u haneddau, cain eiddynt,  
 Hen Dderwyddon gwychion *gynt* ;  
 Allorau tan gangau gwydd,  
 A llwyni eu llawenydd.

Bu urddas am ei beirddion,  
 A mawl arferawl i Fon ;  
 Cei weled lle ganed, *gynt*,  
 Ydd hynod feirdd a henwynt  
 Tirion oedd tri aneiddil,  
 Un yn Mon oedd fwy na mil.

Trwm it' dramwy  
 Yr orawr rhag loesfawr glwy,  
 Na llwybr unwaith lle bu Oronwy,  
 Ni faethodd gwlad glodadwy,  
 Na daiar Mon awdwr mwy ;  
 Yno coffeir ei anedd,  
 Ow! 'mha fan y mae ei fedd ?  
 Hugh, a'i farddas hyf urddawl,  
 Pa radd fwy peraidd ei fawl,  
 A Lewis ydoedd wiwlwys awdwr,  
 Cryf ei waith, cywiraf ieithiwr,  
 Cyflawn hoff eurddawn hyfforddwr,—beirdd oll,  
 A llwyr rym digoll ramadegwr,  
 Bardd o Geint, beraidd gantawr,  
 A gawn yn Mon, ac enw mawr.  
 Cynwysir cu hanesion,  
 Gorchestfawr am feirdd mawr Mon.

Aml oedd rhif y mawlyddion,  
 Yn mhob lle yn mhebyll hon ;  
 Prifeirdd yn per farddoni,  
 Aneirif o'i heirif hi ;  
 Eu llef ai dros y llif draw,  
 O barth Mon hyd byrth Manaw.  
 Och! weithian, llyna'r gan gu,  
 Y reddf lon ar ddiflanu ;  
 Ow! 'r gerdd ber, agwrdd ei bodd,  
 O ethryb ymddyeithriodd ;  
 O'i swydd a'i phrif ansoddion,  
 Trosawdd hi fudawdd o Fon ;



Y ffraethlawn gu ddawn gadd wys,  
 Dyfyniad i Eifionwys:  
 Gwreiddio wnaeth y gerdd yn is,  
 I dir pur daiar Peris ;  
 A gwyddom, fel mae'n gweddu,  
 Awenydd i Ddafydd Ddu ;  
 Tros y byd, rhoes wybodaeth,  
 Enyn yn Nantglyn a wnaeth ;  
 Ei chyfnerth, awen ferth, fawr,  
 Feddianodd Dafydd Ionawr.  
 Sion Ll'yn sain llawenydd,  
 Da fu'r dawn, d'fyr ei dydd.

Draw y gwelaf drigolion,  
 Mal caethglud ar dir mud Mon  
 Er llawnder, brasder ei bro,  
 A hygar heiniar hòno ;  
 Bir a gwin bara gwenith,  
 Geni plant heb gân i'w plith.  
 Henwi yr wyf, hon ar ol,  
 Ynysig annewisol ;  
 Er gweled tir a gwlad hardd,  
 Ba wynfyd heb awenfardd ?  
 Nid gwiw son am wlad Mon mwy,  
 A thrwm yw it' ei thramwy ;  
 Annifyr daith, nofio'r don,  
 Ar frig y dirfawr eigion,  
 Gad yr orawr floesgfawr flin,  
 Na saf hwnt o'th gysefin ;  
 Diddadl y ceir anadl rydd,  
 Awen fwyn, yn Eifionydd ;  
 Dwyre i'th fangre dirion,  
 Dawn Naf wyt, gad yna Fon.

## ENGLYNION MOESOL A DINIWAIÐ,

A wnaethym wrth rodio ar y ffordd fawr, wrthyf fy hun,  
 dan deimlad o'm blinder, llesgedd, a gwendid, newydd  
 gyraedd pen y driugeinfed flwydd o'm hoedran, Rhag. 6,  
 1826.

Aeth blodau dyddiau dedwyddion, — drosodd,  
 D'ryswyd fy nghysuron;  
 Mae pob lle, o'm pabell hon,  
 Ar waeth, o lawer, weithion.

Boreu o haf, byr ei hynt, — fu nyddiau.  
 Fwyneiddied eu helynt;  
 Heinyf, bob dydd o honynt,  
 Y down ag awn fel dyn gynt.

Dirwynodd oed ar waneg, — hyd ugain,  
 A'i degwch ireidd-deg,  
 Taer redodd uwchlaw trideg,  
 A chwai y daeth i chwe deg.

Ces dri'gain cywrain i'm cario, — trwy'r byd,  
 Draw i'r bedd a'r amdo;  
 Odid y caf, trymaf tro,  
 Gan natur ugain eto.

Pan fu wiwlanc penfelyn — ireiddiol,  
 A'i ruddiau fel rhosyn,  
 Hwn, heddyw, oedd ddoe'n hoewddyn,  
 A gwedd dost, gwywodd y dyn.

Llawn dri'gain, gywrain a'u gwarant, — heb ludd,  
 O'm blwyddau hedsant;  
 Fel y niwl, o afael nant,  
 Y dison ymadawsant.

O bu'n wan faban unwaith, — y gwychaf,  
 Wrth gychwyn i ymdaith;  
 E dry'r dyn, draw ar y daith,  
 I boen wael maban eilwaith.

Ymredodd fy moreudeg—amseroedd,  
 Mesurwyd eu hadeg ;  
 Yn iach gân, fyth ychwaneg,  
 Neu gyraedd dawn na grudd deg.

Gorddwys yw'r hen pan gerddo —a'i weinion  
 Ewynau'n diffygio,  
 Gormod y benod, tra bo,  
 Lle rhedodd, allu rhodio.

Er mwynhau rhadau rheidiol, —a meddu  
 Pob moddion tymhorol,  
 Ni werthir, yn ei wrthol,  
 Ddoe i neb, ni ddaw yn ol.

Pell o'i fan yw'r pwyll a fu —egni hwn  
 Gan henaint a ddarfu ;  
 Ond poen dost wel'd y pen du,  
 Byr, a gwan, yn brigwynu.

Ac i'r ffon yr ymfoddlonwyf—bellach,  
 A chan bwyll yr elwyf ;  
 Blino wrth rodio'r ydwyf,  
 Llusgo ar ol, llesgau'r wyf.

Y clyw'n wan, drwstan, a drydd, —a'r golwg,  
 O !'r gwaelu maent beunydd,  
 Mawr roddion fy moreuddydd,  
 Pa les son, yn pylu sydd.

Hyll weled y llaw eilwaith—yn crynu,  
 Ceir hòno'n amherffaith ;  
 Y dda gân ni dddwg unwaith,  
 Neu bin du, i ben ei daith.

Ugeiniau yn mro Gwynedd, —mae cofion,  
 O'm cyfoed sy'n gorwedd ;  
 A ddodwyd yn ddiadwedd,  
 Druain bach, draw yn y bedd.

Myned sydd raid i minau — drwy wendid,  
 I'r undaith a'm tadau,  
 Mae 'mlinion, hwyrion oriau,  
 A'm nos hir yn ymneschau.

Henffych wlad i rad rodio, — a mwynaf,  
 Man i gael gorphwyso,  
 Blinder, gorthrymder, na thro,  
 Ni bydd un, na bedd yno.

---

### DAU ENGLYN

A wnaed pan ydoedd yr awdwr yn dysgu y Cantorion ganu Salm, yn y cyfamser y clyw oedd ddrwg, yr hyn oedd yn llwyr anfanteisiol iddo. Yntau a ddywedodd fel y canlyn.—1817.

Y ddiell babel heb wybod — imi,  
 Ow! dyma hi'n darfod ;  
 Tw'n yw'r clyw,—llwybr tanau'r clod,  
 A bylawdd, a phob aelod.

Ar redeg i'r bedd yr ydwyf — myned,  
 Yn mhob man y byddwyf ;  
 Trwy mywyd, lle tramwywyf,  
 Ni bydd ond y fan na b'wyf.

---

### I'R CARDOTYN CRWYDRAIDD.

Byw yr wyf yn bur ryfedd — bob orig,  
 Byw heb aur na mawredd ;  
 Byw'n unig heb un anedd,  
 Byw'n y byd uwchben y bedd.

---

### I'R EHEDYDD, (*Uchedydd*,) AR DDECHREU EI DYMOR.

Dyrcha, anadla i'r nen, — Uchedydd,  
 A chwyd hyd yr wybren ;  
 Traidd iach bwnc, trwodd uwch ben,  
 I lys Duw, lais dy awen.

Ac anfon gu lon galenig—hydraidd,  
 Adref gerdd blethedig;  
 Drwy fyd, o'r wybr dyrfedig,  
 Seinied o bell swn dy big.

I ANERCH DAFYDD IONAWR.

Beunydd a'i gynydd i ogoniant—Naf  
 A'i nefol urdduniant,  
 Fal pren pêr, mewn irder nant,  
 Bo Dafydd, a byw dyfiant.

Daioni gwreiddied ynoch — llyw addas,  
 Llwyddiant hir a gaffoch;  
 At ryddid nef y treiddioch,  
 A than wlith bendith y b'och.

I'W ARGRAFFU AR LECH UWCH BEN  
 DRWS CAPEL.

Ffyddlonddeb, undeb, a bendith,—wych elw,  
 A chalon ddiragrith;  
 Gwilia reddf anhygoel rith,  
 Mae us gwan yn mysg gwenith.

AR YMADAWIAD

Hen gyfaill hybarch yr awdwr, Mr. J. M. Thomas (*Hwnto*),  
 pan ydoedd ar ei ddychweliad o Arfon i barth gwlad ei  
 onedigaeth, y Deheudir; wedi bod yn cadw ysgol uwch-  
 law yspaid naw mlynedd yn Nefyn, swydd Gaernarfon,  
 Rhagfyr, 1823,

Ffarwel i dawl flodeuyn,—Tomas,  
 Ow! 'r tymor ar derfyn;  
 Mae gwaedd oer, am y gwiw ddyn,  
 Drwy anifyr dre' Nefyn.

Ba wedd a'n Gwynedd mewn gwarth,——boddiwn,  
 Heb addysg i'n tripharth ;  
 A dwyn ein pen dyn, o'n parth,  
 Da hebom i'r Deheubarth ?

Ymachub rhag trwm ochi——Eifionydd,  
 O'i fyned os gelli ;  
 Ond O ffei ! fod glan Teifi,  
 A'i gwerdd don o'th gyraedd di.

I fynwes gwlad gyfanedd——ei dadau,  
 Y didol o'n tiredd ;  
 Chwith yw'r tro, fudo hyd fedd,  
 Frig einioes o fro Gwynedd.

Os braint (a'r ieuaint heb ri),——tre' Nefyn,  
 Trwy nifer o flwyddi,  
 Acw od aeth, Ow ! p'le cei di  
 Athronydd, i'th hir weini ?

Hawddamawr, tramawr bob tro——gawn erchi,  
 Yn gynyrchiawl iddo,  
 Nes ar ben oes hir y bo,—bid iechyd,  
 A llwydd di dristyd, llaw Dduw da drosto.



#### PROFIAD DAN WENDID IECHYD.

Iechyd o'i rym yn och a droes ;——hynod,  
 Ddihoeni mae'r feroes ;  
 Poeni'r wyf min pen awr oes ;  
 Blino ar helbul einioes.

Mal blodeuyn gwyn teg wawr,——yn gwywo,  
 Dan y gawod bwysfawr ;  
 Nid yw einioes ond unawr,  
 Na dyn i barhau ond awr.

Gwyfyn, i'w ebargof, — ydyw dyn,  
 Hyd ei daith ond gwegi :  
 Nid oes braidd einioes ini,  
 Awr yw ein hoes na wariwn hi !

Y CADARN A SYMUDIR HEB WAITH  
 LLAW.

Ar fyr, wedi hir fawredd, — diaros,  
 Daw ereill i'th anedd ;  
 A thi, wr, yn noeth orwedd,  
 Dan y baich du yn y bedd.

AR BRIODAS MR. J. M. THOMAS,  
 ABERTEIFI.

Llwydded y dda gred yn ddi groes — dan rwym.  
 Y dyner iau'n ddiloes —  
 Byd rhwydd, — a chanmlwydd fo'ch oes,  
 Byw'n unol hyd ben einioes.

HIRAETHUS GWYN

Trefedigion Caernarfon, yn gyffredinol, ar ymadawiad y  
 Parchedig William Wyn Williams, oddiwrthynt, i wasan-  
 æthu fal Periglor ei ddau blwyf priodol ei hun, sef,  
 Llangaffo a Llangeinwen, Mon, &c.—1829.

Ow ! 'madaw'n ddiamodol — o'r einom,  
 Wr enwog urddasol ;  
 Och'neidiau achwyniadol,  
 Di rif, a gaed ar ei ol.

I'r Eglwys yn gyd-beriglor, — wele !  
 Wyn Williams a Threfor ;  
 Dyna'r ddau, dan iau ein Ior,  
 Oedd oruchel ddau rychor.

Ymerys ar ein mawrion — hir alar,  
 O'i ol yn Nghaernarfon ;  
 Ni'n gwanwyd ni, na'n gweinion,  
 Nes ei fyn'd i ynys Fon.

Llawer o'n tref yn lluoedd — a synient,  
 A'i wasanaeth cyhoedd ;  
 O'r gair athrawai ar g'oedd — profedig,  
 A Llanbeblig, \* yn llawn o bobloedd.

Yn ngolau efengylaidd, — treiddiadawl,  
 Traddodai'n fanylaidd,  
 Ddanteithion breision i'w braidd,  
 Gwin enaid yn ganonaidd.

Addolwr dan arddeliad — fal Dewi, †  
 A flodeuo'n wastad ;  
 I'w lwys urdd y bo leshad,  
 A'i dalent enill dwywlad.

Brad eres i'r brodorion — Ow! gresyn  
 Iddo groesi'r afon ; ‡  
 Gadaw'n ol gyd-anwylion,  
 A throi fal dyeithr i Fon.

Ein tref a addef iddi — y golled  
 Nas gall e bargofi ;  
 Felly y saif ei llais hi  
 Am was hael i'w moesoli.

Llangaffo fyddo'n feddiant, — i'r genedl,  
 A'r Geinwen heb balliant ;  
 Dwy Eglwys o lwys lesiant —  
 Ddau blwyf yn oesoedd ei blant.

---

\* Enw'r Eglwys berthynol i dref Caernarfon.

† Yr Esgob Dewi.

‡ Afon Menai.



Wyn addas a weinyddo——i ddynion  
 A'i ddoniau'n dysgleirio,  
 Fywiol enaid heb fino,  
 Mewn byd yn y man y bo.

---

HIR HOEDLEDD YR AWEN, &c.

Bywiol echwynol wreichionen——ddiboen,  
 O dda wobr i'w pherchen ;  
 Cyd a byth (nas caid ei ben  
 Mesur) yw amser AWEN.

---

MR. EVAN DAVIES, Ilandysil, Ceredigion, (gweinidog y Bedyddwyr,) ar ei daith drwy Wynedd, a ddygwyddodd letyfayn y Betws fawr, Eifionydd, ac yn ei flinder a'i ludded, a'r tywydd yn wlyb, ac yntau ar ei draed, erfyniodd, yn y modd mwyaf difrifol a thaer, ar R. ab Gwilym Ddu wneyd Englyn o gwyn iddo yn ei gyfyngder, &c ; yntau, yn ddisyfyd ar ei ddyhuddiant, a ddywedodd wrtho fal hyn :—

Drwy Wynedd geinwedd, dan gwyno——mor drwm  
 Ar draed yw trafaelio,  
 Ar Ieuan—buan y bo,  
 Fel dyn, a 'nifail dano.

---

PR DELYN NEWYDD EI THANTIO.

Peiriant i gerddor parawd——areithfa  
 Yr wythfys a'r ddwyfawd ;  
 Tery eithaf tri wythawd,  
 Eurllaes gorff i arllwys gwawd.

## AR ADFERIAD IECHYD MERCH IEUANC,

Yr hon a fuasai yn glaf ac yn orweiddiawg dros yspaid pum  
mlynedd, &c.

Pa ddawn wych uniawn echwynaf,——i b'le  
I ba wlad y treiglaf?  
Cerdd lon awenyddion Naf,  
A fuddia, ond ni feddaf.

I fanol haeddol gyhoeddi,——enw Duw  
Ion a'i deg fawrhydi;  
Gwyrth eres yn gorthori,  
O'i fwyn nawdd, fy mhoen ddofn i.

Pob cur neu ddolur a ddelo——i bawb  
O'i bobl ef i'w blino;  
Llesad fydd,—'wyllys Duw fo,  
Pe lladdai, pwy all luddio?

Os syn y ddyfrys enyd,——a'i dirfing  
I derfyn oes freulyd;  
Ior biodd roi'r bywyd,  
A wyr ban i'n dwyn o'r byd.

Mesuriad fy amserau,——a mudiad  
Fy siomedig oriau;  
A phob loes, drwy'r fer oes frau,  
Da wyddit cyn bod dyddiau.

Pum mlynedd ryfedd, dan ri,——i'w cofio,  
Y cefais fy mhrofi;  
Dorodd o'i fawr dosturi  
Yn wyrthiol, adferol fi!

Mawr achos am roi iechyd,——a gefais  
I gofio drwy mywyd;  
Ei fawrwyrth i'm hadferyd,  
Wedi'r boen i rodio'r byd!

Nesau y bo'm i'r einioes bur——gwedi  
Gadael pob rhyw lafur;  
Yn ddilesg, iach, ddiddolur,  
Heb boen na chosb, bai na chur.

## Y DDANODD.

Ni bu loes yn f'oes o faint,—y ddanodd,  
 Naddo, un o'i chymaint;  
 Och! resyn fod echrysaint,  
 Nos a dydd yn ysu daint.



Dygwyddodd ar ddamwain pan oeddwn ar ryw dro yn  
 ymweled â'm perthynasau, i'r tywydd droi yn wlybyrog  
 anarferol, fel y llifodd y traeth fel nad oedd modd i fyned  
 trwyodd; a thra'r oeddwn yn gohirio, dygwyddodd i mi yn  
 fy anesmythder ddywedyd fel hyn:—

A oes le rhydd is law 'rhod—na dwthwn  
 I deithiaw i'm trigfod;  
 Rhag dygwydd i aflwydd ddod,  
 Meirionydd, fy marw yn nod?

Af i wyneb Eifionydd,—o Feirion,  
 Y Fory, neu dreynydd;  
 Caf wlad deg, caf weled dydd,  
 A môr Ll'yn mawr a llonydd.



## I DDAFYDD DDU ERYRI.

Gwr a'i wên ar gywreinwaith—yw Dewi  
 Y diwyd fardd perffaith;  
 Clo eryrawl—clir araith,  
 Gwedi ei roi i gadw'r iaith.



DEWI PAN YN FACHGEN A ANFONAI AT EI GYFALL  
 R. ab G. DDU Y DYCHYMYG CANLYNOL:

Mi wn pwy sydd mewn pais aur,—myn'd allan  
 Mewn dillad melynaur;  
 Gwas cethin, mewn gwisg goethaur,  
 Mewn tŷ llwm a mantell aur.—D. W.

## ATEBWYD YN DDARLUNIADOL FEL HYN :

Moel iawn granc melyn ei grys,——llaes egwyd,  
 A llais hagyr echrys ;  
 Ar dalar, llamwr dilys,  
 Cawr ar fanc, gwr hir ei fys.



## AR YR ACILYSUR

O ymadawiad y Parch. John Kyffin, Periglor Llanystumdwy, i gymeryd meddiant o'i dri phlwy' presenol : sef, Llanbedrog, Llangian, a Llanfihangel Llëyn, yr hyn a ddygwyddodd oddeutu y nawfed dydd o fis Ebrill, 1837.

Y môr du, a mawr dywydd——a welir,  
 Drwy waelod Eifionydd :  
 Llanystumdwy--mwy fwy fydd  
 Ei chwerw boen, a'i chri beunydd.

O! mynwyd ddwyn ein mwynawl——dda Athro,  
 I ni'n ddeithr hollawl,  
 O'i gu lesiant eglwysawl,  
 Ll'yn a fo yn llawn o'i fawl.

A'i wraig hael, nid gwael fu gwerth——ei noddod,  
 I ddyn eiddil dinerth :  
 Am golli hon, cwynion certh,  
 A geir acw yn nhref Gricierth,

Da i wlad o dylodion——ei cafwyd,  
 Cofir am ei rhoddion ;  
 Y noeth fu'n dilladu'n llon,  
 Uchelwaed hael ei chalon.

Llwyddiant, a'i feddiant yn fwy,——a gaffer  
 I John Kyffin fwy fwy ;  
 Dodwyd y gwr clodadwy,  
 Yn dwr a phlaid ar dri phlwy'.

Yr un ni welir o'i ol——ail iddo,  
 Oleuddyn heddychol,  
 A bu dra phur heb dro ffol,  
 Ymadaw yn gymodol.

Cu lwyddiant a'i coleddo,——ddyn mwynaidd,  
 Yn y man y byddo :  
 Ehed ein bryd, drymllyd dro,  
 Ar ei ol aed lle'r elo.



Dygwyddodd i Dewi Wyn wrth gydymdaith ag R. ab Gwilym Ddu, ofyn iddo paham yr oedd yn cario y fath ffon geinciog ac anolygus rhag cywilydd ei gweled, yntau a'i hatebodd yn ddisyfyd mewn ffordd o wawd, fel hyn :—

Nid arwain Yn na Deri——Eifionydd,  
 A fynaf eleni ;  
 Pren Celydd prin y coeli,  
 A phen aur yw fy ffon i.



### ENGLYN DISYFYD

I MR. J. M. THOMAS, GOLYGYDD Y GREAT.

Iechyd yn y byd enbydawl——i chwi,  
 A iechyd tragwyddawl ;  
 Gyda'r pêr nifer nefawl,  
 Yn bod fyth, mewn byd o fawl.



### I FLWCH MUSIG

DYN IEUANC A DDAETH YMA AR DDAMWAIN.

Soniarus gostus gistan,——gwaith enwog,  
 A thanau fal organ ;  
 Llinynog, llawn o anian,  
 Balch yw o'i gerdd, blwch y gân.

## PLEIDGARWCH.

Nid gwir grefydd sydd, ond sŵn,——yn Mrydain,  
 Amrywiadau filiwn ;  
 Taeru cas, a natur cwn,  
 Pa wyneb heb opiniwn ?

Dan rhod, nid oes ond un rhyw,——yn gryfaf,  
 Un grefydd, nid amryw ;  
 Nod o barch, ar enaid byw  
 Credadyn, cariad ydyw.

## I'R MELINYDD.

Tra bwrio'n tir ei buryd——molianwn  
 Y melinydd tewglyd ;  
 Gwir dawel fo'r gwr diwyd,  
 Dollwr bach, i dwyllo'r byd.

Gorfoledd gwr y felin,——was anwyl,  
 Yw synwyr ei ewin ;  
 Os difrawd ef flawd, mae'n flin  
 Ei osod i gnoi eisin,

Dogn i fyrdd, digon o fwyd,——a feichir  
 O'i gilfachawg gronglwyd ;  
 Ei law wag ni halogwyd,  
 Dyna was glan dau y wisg lwyd.

## MR. W. JONES O GRICIETH,

A addawai bibell gorn i'r Bardd ar yr amod iddo wneyd  
 englyn i'w gofyn. A dyma fo:—

Y gwr mwyn a geir i mi——rwydd bibell,  
 Rodd bybyr i'w pherchi ?  
 Aur losgwrn, wrol wisgi,  
 A chorn hardd am ei chern hi.

**ATEB I GYFARCHIAD D. SAUNDERS, BARD,**  
Merthyr Tydfil, Swydd Forganwg.

Cu wr ffel craff ei olwg—yw Dewi,  
A diwael iaith amlwg ;  
Cei air da, cywir di wg,  
Mawr genym, Fardd Morganwg.

Am awenydd, wr manol—Eifionwys  
Ni fynant eu canmol ;  
Dyrodwn, Fardd Derwyddol,  
Wynion a Duon\* yn d'ol.

Yn Eifion, nid annifyr,—yw genym,  
A gynal iaith bybyr ;  
Ac ni chaiff clod fod yn fyr,  
Am wyrthiau prifon Merthyr.

Gwron ein hen gywiriaith—yw Dafydd,  
A dyfal orchestwaith ;  
Er dim, cais ddyfod ar daith,  
Drwy Wynedd am dro unwaith.

---

**I DDAFYDD SAUNDERS YN EI HENAINT.**

1839.

Sanders bach os afiach wyd,  
Dawn Eden dieneidiwyd :  
Adfeiliodd gwywodd y gân,  
Mae'r iaith yn ddi waith weithian,  
A gloes hir drwy'r eglwys aeth,  
Mae doniau mewn mudaniaeth :  
Eiddil, Ow ! Tydfil wyd heb  
Ffrwyth o enau ffraethineb :  
Merthyr ar Ferthyr a fydd,  
Ddyfod gosteg ar Ddafydd,

---

\* Dau Fardd Eifionydd.

Hafal heb atal eto,  
A gall Ner ei adfer o.

Diau yr ym ein deuwedd——mewn **henaint**,  
Mae'n heinioes ar ddiwedd :  
Dwys syniwn nad oes hunedd,  
In' mewn byd namyn y bedd.



### I BONT CONWY A PHONT MENAI.

Tres a'i gwinedd tros Gonwy——a hoeliwyd  
Yn hwylus i dramwy :  
A thithiaf, dros Borthaethwy,  
Heb nawdd ysgraff moelgraff mwy.



### I DDEWI WYN YN EI GLEFYD, 1838.

I Ddewi, cyn ei ddiwedd,——y dichon,  
Daw iechyd cyfanedd :  
Cei di fwy, cyn cau dy fedd,  
Na'r cnwd aur cyn dy orwedd.

Ond gwylia, yn dy galon,——draws wyro,  
Wrth drysori Mamon,  
Golli meddu gwell moddion,  
O ddir hawl na'r ddaiar hon.



### I'R PRUDDGLWYF.

Anhydyn yw dyn a dwl——mewn t'wyllweh,  
Mantellir â chwmwl :  
Gan y pruddglwyf, penglwyf pwl,  
Sal fydd ac isel feddwl.

Llwyr wywodd llaw yr awen——diamau,  
Mae'r dymer o'i helfen :  
Dan alaeth mewn du niwlen,  
Marw yw'r pwyll rhwng muriau'r pen.



Puraf brawd, a'n prif brydydd— a gem aur,  
 O gwmwd Eifionydd :  
 Dewi bach yn enw Duw bydd,  
 Galonog o lawenydd.



DEWI WYN YN EI GLEFYD A DDYWEDAI FEL HYN :

Ys, arweiniais, ar unwaith,—oes Esau,  
 A Belsasar ddiffaith,  
 Ac i Demas cydymaith,—wyf hafal,  
 I Saul, a Nabal, dan sel anobaith.



ATEB GAN R. AB GWILYM DDU.

Er cwyno lawer canwaith— a gweled,  
 Twyll y galon ddiffaith,  
 Ni fyn Duw, o fewn y daith,  
 Droï neb i dir anobaith.



BEDDERGRYFF.



Ar fedd gwraig y bu iddi bump o blant ; a bu iddynt oll  
 farw yn eu babandod ; ac wrth esgor ar y diweddaf, bu  
 hithau farw hefyd ; a chladdwyd y chwech yn yr un bedd.

Y pum baban gwan, teg wedd, — ireiddwych  
 A roddwyd i orwedd ;  
 A'r anwyl fam, yr unwedd,  
 Is du faen mewn dystaw fedd.

## YN MYNWENT LLANGELYNIN, MEIBION.

Ar ei ol pa'm yr wylwn?—ei enw  
 Wr anwyl, a barchwn;  
 Daw'r pryd y cyfyd cofiwn,  
 I le uwch haul ei lwch hwn.

## AR FEDD GWR IEUANC 25 OED.

O'i flodau borau bwriwyd —i oerfedd,  
 A'i yrfa orphenwyd;  
 Teg loywddyn ai ti gladdwyd,  
 Ameu'r ym ai yma'r wyd!

## AR FEDD Mr. J. R. JONES, RAMOTH.

O'r gro pan ddeuo ryw ddydd,—gyda'r oen,  
 Caiff gadw'r wyl dragywydd;  
 Ail einioes o lawenydd,  
 A hir saif i'w aros sydd.

YN MYNWENT LLANYSTUMDWY AR FEDD  
 LOWRI OWEN, TYDDYN CWCALLT.

O'r du lawr y daw Lowri,—gwedi'r boen,  
 A gado'r bedd difri;  
 Mae teyrnas addas, iddi,  
 Dydd, heb nos, i'w haros hi.

AR FEDD GENETH IEUANC I JOHN JONES,  
 ABERCAIN, A GLADDWYD YN LLANYSTUMDWY.

Daw'r dydd mawr, daw gwawr, o deg wedd—i'm rhan,  
 Daw Mhrynwr dysgleirwedd;  
 A gwên ar ei ogonedd,  
 Daw'n iach, fy nghorff bach o'r bedd.

AR FEDD CATHERINE HUGHES, MERCH CADBEN  
HUGHES, PWLL Y GATE, NEFYN.

Cynar, i'r ddaiar, oer ddu,—ei dodwyd  
Er didwyll broffesu ;  
Daw'r pryd y cyfyd Ior cu,  
Hon i'w iys, anwyl Iesu.



## EREILL.


O ar y ddaiar, yn ddiau,—ni gawn  
Eginyn a blodau ;  
Er hyn, ein hedyn, i'w hau,  
Ollyngir yn llaw angau.

Yr Ion pan ddelo'r enyd,—ar ddiwedd,  
O'r ddaiar a'n cyfyd ;  
Bydd dorau beddau y byd,  
Ar un gair, yn agoryd.

Oer len ei farwol anedd—o'i ogylch  
A egyr ar ddiwedd ;  
Daw'r afrifawl dorf ryfedd,  
Feirwon byd, i farn o'u bedd.

Pob hedyn, a fyn efe,—o'r dulawr,  
A'r dylif i'r frawdle ;  
Cywir gesglir, o'r gysgle,  
Lychyn at lychyn i'w le.





3.

